



Strategaeth Genedlaethol Anabledd





Strategaeth Genedlaethol Anabledd

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorffennaf 2021



© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn DUpublications@cabinetoffice.gov.uk neu ffoniwch 0800 1 95 95 96.

ISBN 978-1-5286-2843-3

CCS0521610420 07/21

Argraffwyd ar bapur â lleiafswm cynnwys 75% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan y Grŵp APS ar ran Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Cynnwys

Rhagair gan y Prif Weinidog	8
Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau a'r Gweinidog dros Bobl Anabl	10
Ynglŷn â'r strategaeth hon	12
Gweithredu ledled y DU	14
Crynodeb gweithredol	17
Rhan 1: Camau ymarferol yn awr i wella bywydau bob dydd pobl anabl	24
Hawliau a chanfyddiadau: cael gwared â rhwystrau i gymryd rhan lawn mewn bywyd cyhoeddus a dinesig a chymdeithas ehangach	25
Tai: creu cartrefi mwy hygrych, wedi'u haddasu a mwy diogel	35
Trafnidiaeth: gwella hygrychedd a phrofiad teithiau bob dydd	40
Swyddi: gwneud byd gwaith yn fwy cynhwysol a hygrych	48
Addysg: sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial	63
Siopa: creu rhagor o ddewis a chyfleustra i ddefnyddwyr	71
Hamdden: ehangu mynediad i'r celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a'r awyr agored	79
Gwasanaethau cyhoeddus: gwneud mynediad mor llyfn a hawdd â phosibl	84
Rhan 2: Profiad pob dydd pobl anabl wrth galon llunio polisi a darparu gwasanaethau llywodraeth	92
Pobl anabl wrth wraidd llunio polisi a darparu gwasanaethau llywodraeth	93
Olrhain cynnydd	99

Rhan 3:	
Ymdrech drawslywodraethol i drawsffurfio bywydau bob dydd pobl anabl	102
Swyddfa'r Cabinet	103
Yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol	105
Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	106
Yr Adran Addysg	107
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	109
Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	110
Yr Adran Drafnidiaeth	111
Adran Gwaith a Phensiynau	112
Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu	114
Y Swyddfa Gartref	115
Y Weinyddiaeth Amddiffyn	116
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	117
Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	118
Atodiad A: Diolch	119





Rhagair gan y Prif Weinidog

Dychmygwch os oedd dinas helaeth ym Mhrydain lle roedd y 14 miliwn o drigolion yn llawer llai tebygol na'r rhai mewn mannau eraill o gael swydd neu hyd yn oed unrhyw gymwysterau o gwbl. Lle roedd y plant ddwywaith yn fwy tebygol o ddod yn ddioddefwyr troseddau, roedd llawer llai o oedolion yn berchen ar eu cartref eu hunain, ac roedd effaith Coronafeirws wedi bod yn anghymesur o drallodus.

Pe bai lle o'r fath yn bodoli, byddai llunwyr polisi a gwleidyddion yn ymbalfalu i ymyrryd a thrwsio'r anghyfiawnderau amlwg a oedd yn difetha'r boblogaeth. Byddai melinau trafod yn gweithredu, byddai tasgluoedd yn cael eu creu, ni fyddai unrhyw garreg yn cael ei gadael heb ei throï.

Ac eto mae'r ystadegau hyn yn ymwneud â realiti beunyddiol bywyd 14.1 miliwn o bobl y DU sy'n byw ag anabledd. Ac, er ei bod yn fwy na chwarter canrif ers i John Major gyflwyno'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd arloesol, nid yw unrhyw lywodraeth yn y DU erioed wedi llunio cynllun-trawslywodraethol mor gynhwysfawr, pendant i ddelio â phroblemau o'r fath a gwneud polisi anabledd yn ymdrech wirioneddol eciwmenaidd.

Hynny yw, tan yn awr.

Oherwydd os oes un peth yn fwy nag unrhyw beth arall sy'n ysgogi'r llywodraeth hon, ein penderfyniad ydyw i lefelu'r wlad fel bod, pwy bynnag a ble bynnag yr ydych chi, bydd gwreichionen eich talent a'ch potensial yn gallu cael eu cysylltu ag ennyn cyfle.

O edrych trwy'r fath brism mae'r sefyllfa sy'n wynebu ein pobl anabl - 1 o bob 5 o'r boblogaeth - nid yn unig yn sgandal i'r rhai sy'n cymryd rhan ond yn wastraff talent a photensial na allwn ei fforddio. Ac er bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, er enghraifft gyda mwy o dai yn dod yn fwy hygyrch, rydym yn gallu ac mae'n rhaid i ni wneud yn well. Dyna hanfod y strategaeth hon.

Wedi'i llunio gyda mewnbwn mwy na 14,000 o bobl anabl yn un o'r ymarferion mwyaf erioed o'i fath, wedi'i fireinio dros fisoedd lawer, gyda chymorth arbenigwyr polisi, grwpiau ymgyrchu, elusennau a mwy, mae'n strategaeth genedlaethol wirioneddol drawsbynciol. Mae'n gweld adrannau ac asiantaethau ym mhob cornel o'r Llywodraeth yn nodi sut y byddant yn gwneud eu rhan i sicrhau'r newid ymarferol a pharhaol a fydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl anabl ledled ein gwlad.

Nid yn unig pontio erlyn bwlch addysg, sgiliau a chyflogaeth - hyd yn oed yn 2021 nid yw person anabl â gradd yn fwy tebygol o gael swydd na pherson nad yw'n anabl a adawodd yr ysgol yn 16 oed - ond mynd i'r afael â'r achosion dirifedi o annhegwch sy'n bla ar fywyd beunyddiol ym mhopeth o siopa am fwyd i hygyrchedd ystafelloedd llys.

Dyma'r ymdrech fwyaf pellgyrhaeddol yn y maes hwn ers cenhedlaeth neu fwy, nid dim ond set o ddyheadau teilwng ond cynllun pendant ar gyfer y dyfodol. Ac, yn y pen draw, mae ei enw rhywfaint yn gamarweiniol. Oherwydd nad yw'r strategaeth hon yn ymwneud ag anabledd o gwbl, ond gallu.

Gallu enfawr pobl anabl a'r potensial i'w gweld yn cael ei gwireddu.

A'n gallu i gydnabod a gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae pobl anabl yn ei wneud i'n bywyd cenedlaethol, ac i wrando ar ac ymateb i'w hanghenion.

Wrth inni ddod allan o gysgod hir Coronafeirws, rwyf am adeiladu'n ôl yn well ac yn decach, i'n holl bobl anabl - a'r strategaeth hon yw'r blaendal ar wneud i hynny ddigwydd.



Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau a'r Gweinidog dros Bobl Anabl

Bydd llawer ohonom wedi deffro'r bore yma yn wynebu'r holl ffyrdd posibl y gallai ein diwrnod gael ei ddiffinio, nid gan ein gweithredoedd neu ein dyheadau, ond gan y rhwystrau sy'n sefyll rhyngom ni a'n diwrnod. Mae hyn yn realiti dyddiol i lawer o'r dros 14 miliwn o bobl anabl yn y wlad hon.

Dylai pwy bynnag ydych chi, ble bynnag rydych chi'n byw, beth bynnag fo'ch cefndir, a oes gennych chi anabledd - naill ai'n weladwy neu'n gudd - dylai pawb allu cymryd rhan yn llawn, yn ddiogel ac yn rhydd rhag rhagfarn mewn bywyd bob dydd, gan fwynhau'r holl ryddid a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â hynny - fel cymudwr, cydweithiwr, cwsmer, defnyddiwr, myfyriwr, claf, defnyddiwr gwasanaeth, rhywun yn mynd ar wyliau, mynychwr theatr, ymgeisydd am swydd, gweithiwr, pleidleisiwr neu reithiwr.

Ymrwymodd ein maniffesto 2019 i gyhoeddi strategaeth anabledd genedlaethol i wella bywydau bob dydd pobl anabl mewn meysydd fel tai, trafnidiaeth, swyddi ac addysg. Wrth i ni i gyd ddechrau mwynhau blas rhyddid unwaith eto gyda'n heconomi a'n cymdeithas yn agor o'r pandemig, mae arwyddocâd y strategaeth hon hyd yn oed yn fwy. Mae adeiladu yn ôl yn decach yn golygu cymryd y cyfle hwn i fynd ymhellach ac yn gyflymach i sicrhau nad yw anabledd yn rhwystr i fyw bywydau llawn, annibynnol lle gall pobl gyrraedd eu potensial llawn.

Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y 25 mlynedd diwethaf ers y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, mae'r strategaeth hon yn cynrychioli'r ffocws a'r cydweithredu mwyaf ar draws y llywodraeth i ddatblygu portffolio eang o gamau ymarferol a fydd yn ein helpu i lefelu cyfle a gwella'r profiad y mae pobl anabl yn ei gael o gwmpas bywyd beunyddiol.

Rydym wedi cynnal yr ymarfer gwranddo mwyaf gyda phobl anabl yn hanes diweddar, gyda 14,000 o bobl yn ymateb i'n Harolwg Anabledd yn y DU. O ganlyniad, mae'r strategaeth hon yn llawer ehangach nag ymagweddau'r gorffennol. Yn seiliedig ar yr hyn a glywsom, mae'r strategaeth yn nodi'r camau a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar bob rhan o fywydau beunyddiol pobl anabl: cartrefi hygyrch; cymudo a mynd o gwmpas ar drafnidiaeth gyhoeddus; defnyddio'r stryd fawr leol neu fynd ar-lein; mwynhau diwylliant, y celfyddydau neu'r awyr agored gwych; ac arfer rolau dinesig fel gwasanaeth rheithgor a phleidleisio. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi sut y byddwn yn helpu pobl anabl i gyflawni eu potensial trwy waith, gyda'r nod o gyflawni ymrwymiad maniffesto arall o leihau'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl.

Yn unigol, gall pob ymrwymiad ymddangos fel cam bach. Gyda'i gilydd, maent yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen. Ac i gyflawni'r newid gwirioneddol drawsnewidiol ar draws y llywodraeth a'r gymdeithas yr ydym am ei gweld, mae'r strategaeth yn llwyfan i'n huchelgais tymor hir i roi pobl anabl wrth galon *sut mae'r llywodraeth yn llunio polisi ac yn darparu gwasanaethau*. Mae hynny'n cynnwys trawsnewid sut rydym yn defnyddio tystiolaeth a data i ddeall ac amlygu lle mae'r bylchau yn well, gan ysgogi caffael y llywodraeth i ysgogi newid a datblygu Canolfan Technoleg Gynorthwyol a Hygyrch sy'n arwain y byd.

Ochr yn ochr â'r gweithredu a'r uchelgais, mae'r strategaeth hon hefyd yn un pwynt ffocws ar gyfer dwyn i gyfrif bob rhan o'r llywodraeth sydd â chyfrifoldeb am gyflawni newidiadau penodol. Mae pob adran wedi enwebu gweinidog sy'n gyfrifol am ysgogi'r ymrwymadau perthnasol yn y strategaeth ac a fydd yn gweithredu fel hyrwyddwr yn eu hadran i sicrhau bod anghenion pobl anabl wrth wraidd llunio polisi. Nodir Hyrwyddwyr Anabledd y Gweinidog yn Rhan 3. Rydym yn ymrwymo i gyhoeddi adroddiad blynyddol a fydd yn mesur cynnydd ac yn cynnig cyfle i ddiweddarau'r strategaeth, gan ei thro'i'n ddogfen fyw.

Yn seiliedig ar brofiad pobl anabl, mae ehangder y strategaeth yn adlewyrchu'r realiti bod anabledd yn effeithio ar bobl yn wahanol ar draws gwahanol agweddau ar fywyd bob dydd. Sgwrs wrth sgwrs, adran wrth adran, polisi wrth bolisi, gweithred wrth weithred, rydym yn deall ac yn datgymalu'r rhwystrau a'r agweddau sy'n dal pobl anabl yn ôl fel y gallant gyflawni eu potensial personol ac addewid bob dydd.

Ynglŷn â'r strategaeth hon

Mae ystod enfawr o sefydliadau ac unigolion wedi llunio datblygiad y strategaeth hon.

Lansiwyd Arolwg Anabledd y DU ym mis Ionawr 2021 a pharhaodd tan fis Ebrill. Ymatebodd miloedd o bobl i lunio'r strategaeth hon, gan gynnwys pobl anabl,¹ teuluoedd a gofalwyr.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda Policy Lab, sy'n cyflwyno dulliau dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl tuag at lunio polisiau, i adeiladu dealltwriaeth fanylach o brofiad bob dydd pobl anabl.² Digwyddodd y gwaith hwn yn 2020, cyn ac yn ystod pandemig COVID-19, a'i nod oedd dyfnhau ein dealltwriaeth o brofiad bob dydd 11 o bobl anabl.

Mae canfyddiadau o Arolwg Anabledd y DU a'n hymchwil profiad byw yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth hon. Gobeithiwn fod y rhain yn ychwanegiadau defnyddiol i'r sylfaen dystiolaeth ansoddol a meintiol ar anabledd, yn ogystal â chyd-destun defnyddiol ar gyfer datblygu'r strategaeth hon.

Mae Arolwg Anabledd y DU ac ymchwil profiad byw yn ategu rhaglen ymgysylltu ehangach sydd wedi bod yn rhedeg ers mis Chwefror 2020, gan gynnwys:

- cyfarfodydd â'n fforymau rhanddeiliaid anabledd presennol:
 - 42 cyfarfod rhanbarthol o'r naw Rhwydwaith Rhanddeiliaid Rhanbarthol (RSNs) yn cynnwys pobl anabl, eu sefydliadau, rhieni a gofalwyr, sef cyfanswm o 225 aelod
 - 10 cyfarfod gyda'r Consortïwm Elusennau Anabledd, grŵp o 10 o elusennau anabledd mwyaf y DU
 - 4 cyfarfod o'r Fforwm Sefydliad Pobl Anabl (DPO)
- 11 trafodaeth bord gron gyda chyfanswm o 98 o bobl anabl am eu profiadau mewn bywyd bob dydd
- 6 grŵp thematig trawsbynciol gyda chyfanswm o 130 yn bresennol gan gynnwys pobl anabl a chynrychiolwyr o DPOs, elusennau, y byd academiaidd a melinau trafod

Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd yr amser i rannu eu meddyliau am yr hyn y dylem ei gynnwys yn y strategaeth hon, naill ai trwy gwblhau Arolwg Anabledd y DU, mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau, neu ymgysylltu trwy'r

1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio unigolyn anabl fel rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith 'sylweddol' a 'hirdymor' ar eu gallu i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd

2 Mae Policy Lab yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil sy'n helpu adrannau i ddylunio gwasanaethau o amgylch profiad pobl, gan ddefnyddio dadansoddeg data ac offer digidol newydd.

cyfryngau cymdeithasol a gohebiaeth. Mae eu harbenigedd a'u mewnwelediadau wedi bod yn rhan annatod o ddatblygiad y strategaeth. Mae rhestr o sefydliadau yr ydym wedi siarad â nhw ynghlwm â'n diolchiadau yn Atodiad A.

Mae'r llinell amser ar gyfer datblygu'r strategaeth hon wedi cyd-daro â phandemig COVID-19, gan ei gwneud hi'n anodd i ni ymgysylltu'n bersonol. Mae llawer o bobl anabl wedi bod yn cysgodi, tra bod digwyddiadau ar raddfa fawr wedi bod yn amhosibl. Rydym yn ddiolchgar am yr hyblygrwydd y mae pawb sydd wedi ymgysylltu â ni wedi'i ddangos wrth symud ein cyfarfodydd a'n digwyddiadau ar-lein.

Dim ond y dechrau yw'r ymgysylltiad yr ydym wedi'i nodi. Rydym yn gweld y strategaeth hon fel cynllun dynamig y byddwn yn ei adnewyddu'n flynyddol i adlewyrchu gwaith parhaus mewn ymateb i flaenoriaethau pobl anabl. Rydym yn croesawu adborth ar y meysydd yr ydym wedi'u blaenoriaethu a byddwn yn gweithredu nawr. Yn Rhan 2 gwnaethom nodi ein huchelgais i gynyddu ein hymgysylltiad â phobl anabl wrth symud ymlaen.



Gweithredu ledled y DU

Mae llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yn rhannu ymrwymiad cryf i gefnogi pobl anabl i fwynhau'r dewis a'r rheolaeth sydd mor hanfodol i fyw'n annibynnol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban). Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae pob gweinyddiaeth yn gosod ac yn dilyn ei huchelgeisiau, yn gyson â'i threfniadau datganoli. Er enghraifft, mae gan lywodraethau Cymru a'r Alban strategaethau a fframweithiau ar waith i gynyddu cydraddoldeb i bobl anabl. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn y broses o ddatblygu strategaeth sy'n benodol i anghenion pobl yng Ngogledd Iwerddon.

Yn sail i ddulliau gweinyddiaethau datganoledig mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae'r model cymdeithasol yn ein helpu i gydnabod rhwystrau sy'n gwneud bywyd yn anoddach i bobl anabl. Mae cael gwared â'r rhwystrau hyn yn creu cydraddoldeb ac yn cynnig rhagor o annibyniaeth, dewis a rheolaeth i bobl anabl.

Mae llawer o'r meysydd polisi sy'n berthnasol i'r strategaeth hon wedi'u datganoli. Mae datganoli yn cydnabod gwerth polisiau o'r fath yn cael eu teilwra i anghenion a dymuniadau penodol y bobl ym mhob rhan o'r DU. O ganlyniad, cymerwyd gwahanol ddulliau ar gyfer rhai materion, ac mae hynny i'w ddisgwyl.

Ond nid yw pob mater sydd o bwys i bobl anabl wedi'i ddatganoli a gall penderfyniadau a wneir gan lywodraeth y DU effeithio ar fywydau pobl anabl ar draws gweinyddiaethau.

Mae'r strategaeth hon yn adlewyrchu profiadau pobl anabl ledled y DU. Mae'n cydnabod ac yn dathlu'r amrywiaeth o ddulliau sy'n cael eu dilyn ac yn amlygu arfer da a mentrau o bwys yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae cyfle enfawr i ddysgu oddi wrth ein gilydd. Bydd llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn parhau i weithio ledled y DU i wella bywydau holl ddinasyddion anabl y DU.

Darperir gwybodaeth isod am y strategaethau allweddol sydd ar waith mewn gweinyddiaethau datganoledig.

Datganiad Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Dechreuodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon weithio ar Strategaeth Anabledd newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon ym mis Medi 2020. Mae'r strategaeth yn cael ei datblygu trwy gyd-ddylunio gyda chyfranogiad gan bobl anabl a'u sefydliadau cynrychioliadol ar bob cam o'r broses. Bydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn seiliedig ar hawliau ac yn cyd-fynd â rhwymedigaethau rhyngwladol gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD). Yn seiliedig ar dystiolaeth, bydd yn targedu ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.

Datganiad Llywodraeth yr Alban

Cyhoeddwyd cynllun Llywodraeth yr Alban, A Fairer Scotland for Disabled People, yn 2016 fel cynllun cyflawni hyd at 2021 ar gyfer yr UNCRPD.

Fe'i hysgrifennwyd gyda chyfraniad uniongyrchol pobl anabl a sefydliadau pobl anabl. Fe'i hadeiladwyd o amgylch pump uchelgaïs tymor hwy a set o 93 o gamau gweithredu. Roedd y camau hyn yn gamau tuag at gydraddoldeb er mwyn cymryd camau hirach yn y dyfodol, gan wybod y bydd yn cymryd amser ac ymrwymiad gan yr Alban gyfan i ddod â gwir gydraddoldeb i bobl anabl. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb y tu hwnt i oes yr adroddiad hwn. Cyhoeddwyd yr adroddiad cynnydd terfynol yn gynharach eleni.


Mae gan yr Alban Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol, sy'n cynnwys dangosyddion i roi mesur o les cenedlaethol. Maent yn cynnwys ystod o ddangosyddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Er mwyn monitro cynnydd tuag at hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl yn 2019, ac eto yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban: Lles yr Alban: canlyniadau cenedlaethol i bobl anabl, dadansoddiad o ddangosyddion canlyniadau'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol (NPF) o safbwynt anabledd. Defnyddiwyd dangosyddion yr NPF i fesur sut mae profiadau pobl anabl o fyw yn yr Alban yn cymharu â phrofiadau pobl nad ydynt yn anabl. Mae defnyddio data sefydledig, sy'n cael eu monitro'n barhaus, yn galluogi Llywodraeth yr Alban i olrhain cynnydd tuag at gydraddoldeb.

Datganiad Llywodraeth Cymru

Lansiwyd Fframwaith Llywodraeth Cymru - Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol gan y cyn Ddirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ar 18 Medi 2019. Datblygwyd ein Fframwaith gyda phobl anabl, sefydliadau pobl anabl, darparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys llawer o adrannau Llywodraeth Cymru. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol ac mae'n nodi sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD). Mae'r Fframwaith hefyd yn amlygu rôl deddfwriaeth allweddol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn sail i'r Fframwaith cyfan mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd, a fabwysiadwyd yn 2002. Ynghyd â'r Fframwaith mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau allweddol sy'n wynebu pobl anabl gan gynnwys trafnidiaeth, cyflogaeth, tai a mynediad i adeiladau a lleoedd. Er enghraifft, mae ein Hyrwyddwyr Anabledd yn gweithio gyda chyflogwyr i gynorthwyo pobl anabl i weithio yn effeithiol. Ym mis Mawrth 2021, cychwynnodd Llywodraeth Cymru'r Ddyletswydd -Gymdeithasol-economaidd, ysgogiad allweddol arall i helpu i sicrhau mwy o gydraddoldeb yng Nghymru.

Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19, gwnaed gwaith i edrych ar newidiadau angenrheidiol i'r Cynllun Gweithredu. Trwy'r Fforwm Gweinidogol Cydraddoldeb i Bobl Anabl, daeth hyn i ben ag adroddiad gan yr Athro Debbie Foster, o'r enw 'Locked Out: Liberating People Disabled Lives and Rights in Wales Beyond Wales COVID-19'. Bydd tasglu yn cael ei gynnull i gymryd camau sy'n codi o'r adroddiad trwy ymgynghori.



Crynodeb gweithredol

Y weledigaeth: trawsnewid bywydau bob dydd pobl anabl

Mae dros 1 o bob 5 o bobl yn y DU yn anabl. Mae hynny'n golygu dros 14 miliwn ohonom. Mae'n rhif sydd wedi parhau i godi wrth i bobl fyw'n hirach ac wrth i driniaethau a thechnoleg mewn gofal iechyd wella.³ Mae anabledd yn bwysig i bob un ohonom.

Mae'r strategaeth genedlaethol hon yn cydnabod ac yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed ers cyflwyno'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd fwy na 25 mlynedd yn ôl. Bu llawer o welliannau mewn gwasanaethau, mynediad a chyfleoedd i bobl anabl. Mae'r bwlch cyflogaeth wedi culhau. Mae lefelau dealltwriaeth a gweledigrwydd wedi cynyddu. A bu newidiadau dwys yn agweddau'r cyhoedd tuag at anabledd, wedi'u dal a'u catalyddu gan eiliadau cenedlaethol fel Gemau Paralympaidd 2012.

Mae pobl anabl wedi dweud wrthym nad yw'r newidiadau cadarnhaol hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er eu bod yn cael eu croesawu, yn ddigonol. Mae effaith y pandemig COVID-19 ar ein heconomi a'n cymdeithas yn gwneud yr achos dros weithredu ar y cyd yn bwysicach fyth. Mae pobl anabl wedi teimlo'r effaith yn fwy na'r mwyafrif.⁴ Nawr yw'r amser - wrth i ni adeiladu'n ôl yn decach - i godi lefel ein huchelgais.

Ein gweledigaeth yw trawsnewid bywydau bob dydd pobl anabl. Ni fydd hyn yn digwydd dros nos. Rydym yn gwybod y bydd angen cydweithredu parhaus ar draws y llywodraeth i gyflwyno newid ystyrlon i drawsnewid yr amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol ar draws pob sector o'r gymdeithas.

Rydym am gynyddu cyfle ar bob cam o fywydau pobl anabl, yn ogystal ag ym mhob maes o fywydau pobl anabl. Dylai plant anabl gael yr un cyfleoedd i gyflawni eu potensial â phlant nad ydynt yn anabl, ac felly hefyd bobl ifanc anabl. Yn y strategaeth hon, rydym yn amlinellu camau wedi'u targedu i gefnogi plant anabl mewn addysg, yn ogystal â gweithredu ehangach fel newid canfyddiadau a fydd o fudd i blant anabl yn ogystal ag oedolion anabl.

Rydym am drawsnewid bywydau pawb anabl. Rydym yn cynnwys pobl anabl ag anableddau gweladwy ac anweladwy. Rydym yn cynnwys pobl anabl nad ydyn nhw'n nodi eu bod yn anabl. Rydym yn cynnwys pobl nad ydynt yn anabl a allai fod wedi bod yn anabl yn y gorffennol, neu a ddaw'n anabl yn y dyfodol.

Mae'r strategaeth hon yn nodi camau uniongyrchol y byddwn yn eu cymryd ar y llwybr tuag at ein gweledigaeth i drawsnewid bywydau bob dydd pobl anabl.

3 Arolwg Adnoddau Teulu: blwyddyn ariannol 2019 i 2020: DWP

4 Canlyniadau i bobl anabl, DU: 2020; Amcangyfrifon wedi'u diweddarau o farwolaethau cysylltiedig â choronafeirws (COVID-19) yn ôl statws anabledd, Lloegr

Y profiad byw: gwreiddio'r strategaeth ym mhrofiad beunyddiol pobl anabl

“Beth mae anabledd yn ei olygu i mi? Y cynodiadau arferol - rwy'n ei chael hi'n anoddach gwneud rhai pethau y byddai eraill yn eu gwneud. Rwy'n gweld pethau'n wahanol. Nid wyf yn cael trafferth. Rwyf newydd dreulio fy oes yn dod o hyd i ffyrdd effeithlon o oresgyn yr heriau rydw i wedi'u cael.”

- Beth

Nid yw dyheadau pobl anabl am eu bywydau yn wahanol i ddyheadau pobl nad ydynt yn anabl.

Rydym am fyw bywydau boddhaus. Rydym am fod yn ddiogel ac yn iach. Rydym am gael ymreolaeth ynglŷn â lle rydym yn byw, sut rydym yn byw, ac â phwy rydym yn byw. Rydym am fynd allan, cwrdd â phobl eraill, a mynd i lefydd. Rydym am gael gafael yn hawdd ar y gefnogaeth sydd ei hangen i fyw bywyd annibynnol a theimlo'n hyderus na fyddwn yn ei cholli. Rydym am allu cymryd rhan mewn cymdeithas, i gael ein gwerthfawrogi, i fynd i'r gwaith.

Fodd bynnag, mae profiad beunyddiol pobl anabl yn wahanol iawn i bobl nad ydynt yn anabl.

Bob dydd, mae llawer o bobl anabl:

- yn deffro mewn **cartref** nad yw wedi'i addasu i'w hanghenion
- yn dibynnu ar **rwydwaith trafnidiaeth** anrhagweladwy i fynd o gwmpas
- yn llywio **gweithleoedd** neu leoliadau **addysg** anhygyrch ac anhyblyg
- yn wynebu dewis cyfyngedig a chost ychwanegol wrth **siopa** o gwmpas am nwyddau a gwasanaethau
- **yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus** anymatebol a thameidiog nad ydynt yn diwallu eu hanghenion
- yn teimlo eu bod wedi'u heithrio rhag **cyfleoedd hamdden** a chymdeithasu
- yn cael eu gwahardd rhag arfer **hawliau**, megis pleidleisio a gwasanaethu ar reithgor

Mae'r sylfaen dystiolaeth gyfredol ar anabledd yn anghyflawn ac o ansawdd amrywiol,⁵ ond serch hynny mae'n tanlinellu maint yr her wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau parhaus y gall pobl anabl eu hwynebu trwy gydol eu dydd.

Tra gartref - dim ond 1 o bob 10 cartref yn Lloegr sydd ag o leiaf un addasiad ar gyfer pobl anabl.⁶

5 Archwiliad data cydraddoldebau SYG

6 Arolwg Tai Lloegr 2018 i 2019: Hygyrchedd Cartrefi Lloegr

Wrth gymudo - dim ond gan chwarter y gorsafoedd trên mae mynediad heb risiau rhwng pob platfform.⁷

Yn y gwaith neu mewn addysg - mae bwlch o fwy na 28 pwynt canran yng nghyfradd cyflogaeth pobl anabl o oedran gweithio o gymharu â phobl nad ydynt yn anabl o oedran gweithio,⁸ ac er bod cyfran y bobl anabl sydd â gradd wedi cynyddu o 15.9% yn 2013 hyd at 23.0% yn 2019 i 2020, nid yw'r bwlch rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl wedi culhau.⁹

Wrth siopa neu fynd o gwmpas - roedd 2 o bob 5 o bobl anabl wedi profi anawsterau wrth siopa o gwmpas am gynhyrchion neu wasanaethau, gyda'r rhwystrau a nodwyd yn cynnwys diffyg cyfleusterau priodol (16%), anhawster defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (15%), ac anhawster symud o amgylch adeilad (13%).¹⁰

Wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein - pan brofwyd ym mis Medi 2020, nid oedd gwefannau naw o'r 10 cyngor sir mwyaf poblog yn Lloegr yn bodloni'r safonau hygyrchedd.¹¹

Wrth deimlo eu bod yn gysylltiedig ag eraill - mae pobl anabl dair gwaith yn fwy tebygol na phobl nad ydynt yn anabl i deimlo'n unig yn aml neu bob amser, gyda chyfraddau llesiant pobl anabl yn gyson is nag ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl. Nododd pobl anabl yn amlach fod effaith y pandemig wedi effeithio ar eu lles na phobl nad ydynt yn anabl.¹² Nid yw'r gwahaniaeth mewn lles ac unigrwydd rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl wedi gwella rhwng 2013 a 2014.¹³

O ran **hawliau** sylfaenol fel yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed, mae troseddu'n effeithio'n anghymesur ar bobl anabl.



Mae oedolion anabl yn fwy tebygol o ddioddef trosedd (20.8%) nac oedolion eraill (19.0%), ac mae plant anabl rhwng 10 a 15 oed (12.0%) bron ddwy waith mor debygol o fod yn ddioddefwyr trosedd na phlant eraill (6.3%).¹⁴

Fe **adroddodd y 14,500 o ymatebwyr cynharach** i Arolwg Anabledd y DU a'r cyfranogwyr yn ein hymchwil profiad byw stori debyg i'r ystadegau hyn. Gellir gweld eu profiadau trwy gydol y strategaeth hon.

- 7 Amcangyfrif yr Adran dros Drafnidiaeth, yn seiliedig ar wybodaeth gan Rail Delivery Group
- 8 **Statws marchnad lafur pobl anabl, SYG**, data Ionawr i Fawrth, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021
- 9 **Set Ddata: Anabledd ac addysg**
- 10 Mynediad Pobl Anabl i Nwyddau a Gwasanaethau 2010 (Ipsos MORI)
- 11 **Mae profion yn datgelu bod y cynghorau mwyaf yn methu ynghylch dyletswydd hygyrchedd cyfreithiol 2020 (Scope)**
- 12 SYG *Coronafeirws a'r effeithiau cymdeithasol ar bobl anabl ym Mhrydain Fawr: Chwefror 2021*
- 13 **Canlyniadau i bobl anabl, DU: 2020**
- 14 Troseddu yng Nghymru a Lloegr: Tueddiadau Blynnyddol a Thablau Demograffig

Y camau gweithredu nawr: camau ymarferol i wella bywydau bob dydd pobl anabl

Mae Rhan 1 yn nodi ymrwymïadau uniongyrchol y byddwn yn eu gwneud i wella pob rhan o ddiwrnod person anabl - o'r eiliad y bydd rhywun yn codi i'r eiliad y mae'n mynd i'r gwely.

Ni fydd y camau uniongyrchol hyn, ynddynt eu hunain, yn arwain at y newid trawsnewidiol yr ydym am ei weld ym mywydau beunyddiol pobl anabl, felly nid ydym yn stopio yno.

Yr uchelgais tymor hir: rhoi pobl anabl wrth wraidd y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau

Mae Rhan 2 yn nodi newidiadau uchelgeisiol i'r ffordd y mae'r llywodraeth yn gweithio gyda phobl anabl ac ar eu cyfer yn y dyfodol. Rydym yn ymrwymo i roi pobl anabl wrth galon llunio polisi a darparu gwasanaethau gan y llywodraeth - gan osod y sylfeini ar gyfer newid trawsnewidiol yn y tymor hir.

Byddwn yn sicrhau bod adrannau llywodraeth y DU yn deall anabledd yn dda a bod anghenion a phrofiadau pobl anabl yn ganolog i lunio polisiau a'u bod bob amser yn cael eu hystyried gan staff rheng flaen.

Byddwn yn gweithio ar draws adrannau'r llywodraeth i ymgorffori'r elfennau canlynol, sy'n sail i'n hymagwedd tuag at anabledd yn y dyfodol:

1. **Sicrhau tegwch a chydraddoldeb** - byddwn yn grymuso pobl anabl trwy hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb cyfleoedd, canlyniadau a phrofiadau, gan gynnwys gwaith a mynediad at gynhyrchion a gwasanaethau.
2. **Ystyried anabledd o'r dechrau** - byddwn yn ymgorffori dulliau a gwasanaethau cynhwysol a hygyrch er mwyn osgoi creu profiadau anablu o'r cychwyn cyntaf.
3. **Cynorthwyo byw'n annibynnol** - byddwn yn mynd ati'n weithredol i annog mentrau sy'n cynorthwyo'r holl bobl anabl i gael dewis a rheolaeth mewn bywyd.
4. **Cynyddu cyfranogiad** - byddwn yn galluogi cynnwys poblogaeth amrywiol anabl yn fwy wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau, cynhyrchion a pholisiau.
5. **Cyflwyno ymatebion cydgysylltiedig** - byddwn yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol ac yn gwella data a thystiolaeth i ddeall ac ymateb yn well i faterion cymhleth sy'n effeithio ar bobl anabl.

Mae'r elfennau hyn yn ategu rhai'r UNCRPD.

Bydd y camau ymarferol yn Rhannau 1 a 2 yn ein gosod ar y llwybr tuag at ein nod i drawsnewid bywydau pobl anabl. Nid ydym yn esgus ein bod wedi mynd i'r afael â'r holl faterion y mae pobl anabl wedi'u codi gyda ni, ac nid ydym yn esgus y bydd trawsnewid ein seilwaith corfforol a chymdeithasol yn digwydd dros nos.

Mae hon yn strategaeth realistig y gellir ei chyflawni sydd wedi'i gwreiddio ym mhrofiad beunyddiol pobl anabl. Ni fydd yn eistedd ar silff. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn haf 2022, ac yn parhau i yrru gweithredu yn y meysydd sy'n gofyn am uchelgais traws-lywodraethol barhaus. Yn 2021 i 2022 rydym yn bwriadu canolbwyntio gweithredu ychwanegol ar:

- gynhyrchion a gwasanaethau hygyrch
- mynd i'r afael â throseddu yn erbyn pobl anabl
- cyfranogiad cymdeithasol

Rydym wedi dewis y meysydd hyn oherwydd bod pobl anabl wedi dweud wrthym eu bod yn cael effaith fawr ar eu bywydau bob dydd, ar bob cam o'u bywyd o'u plentyndod, hyd at oedran gweithio, i henaint. Maent yn gofyn am weithredu ar y cyd gan y llywodraeth a thu hwnt, ac mae angen gweithredu yn y tymor hir i wneud gwahaniaeth diriaethol.

Yr alwad i weithredu: mae anabledd yn fusnes i bawb

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd y llywodraeth yn chwarae ei rhan, ond mae pobl anabl wedi dweud wrthym fod angen gweithredu gan y gymdeithas ehangach. Mae profiad bob dydd pobl anabl yn cael ei lunio gan ystod eang o actorion. Mae'n rhaid i ddinasyddion unigol, elusennau, gwasanaethau cyhoeddus a busnesau ehangach i gyd chwarae eu rhan wrth yrru'r newid trawsnewidiol yr ydym am ei weld.

Mae'r strategaeth hon hefyd yn alwad i weithredu ar draws cymdeithas. Rydym yn nodi'r camau uniongyrchol y byddwn yn eu cymryd i annog cymdeithas ehangach i weithredu - er enghraifft, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i annog newid ymddygiad unigolion. Rydym hefyd yn amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda'r gymdeithas ehangach yn y dyfodol i ysgogi newid trawsnewidiol tymor hir - er enghraifft, gyda busnes trwy benodi Llysghenhadon Anabledd a Mynediad newydd.

Rydym am fynd y tu hwnt i'r camau cychwynnol hyn. Rydym am weithio gyda phobl anabl, busnesau, elusennau, awdurdodau lleol a'r gymdeithas ehangach i adeiladu sgwrs genedlaethol am anabledd a symudiad dros newid. Bydd pobl anabl yng nghanol yr ymdrechion hyn.

Gallwch gofrestru ar gyfer diweddariadau rheolaidd ar y gwaith a amlinellir yn y strategaeth hon a sut y gallwch chi gymryd rhan trwy [**dudalen GOV.UK yr Uned Anabledd**](https://www.gov.uk/government/consultations/disability-unit) neu anfon e-bost atom yn uniongyrchol yn [**disabilityunit@cabinetoffice.gov.uk**](mailto:disabilityunit@cabinetoffice.gov.uk).

Yr atebolrwydd: sicrhau gweithredu trawsadrannol

Mae'n amlwg fod ehangder enfawr i'r heriau y mae pobl anabl yn eu profi bob dydd. Mae'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael â'r heriau hyn yn rhychwantu llawer o wahanol adrannau'r llywodraeth.

Mae Rhan 3 yn crynhoi'n glir y camau y bydd pob adran o'r llywodraeth yn eu cymryd fel rhan o'r strategaeth hon i wella bywydau bob dydd pobl anabl. Mae'r adran hon yn nodi'n glir pa adran sy'n gyfrifol am ba ymrwymiad. Mae pob adran yn ymrwymo i chwarae eu rhan, gyda hyrwyddwyr gweinidogol yn nodi sut y byddant yn bersonol yn gyrru cynnydd.

Byddwn yn cynnal momentwm ac yn dwyn ein hunain i gyfrif trwy gyhoeddi adroddiad blynyddol a fydd yn diweddarau cynnydd yn ôl amcanion.

Er mwyn hyrwyddo amcanion y strategaeth, mae adrannau unigol yn nodi eu cynlluniau mewn nifer o'r meysydd y mae pobl anabl wedi dweud wrthym sy'n allweddol i wella ansawdd eu bywyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd *Llunio Cymorth yn y Dyfodol*, dan arweiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yn nodi cynigion i wneud y system budd-daliadau anabledd yn haws ei chyrchu a'i llywio
- ymateb y llywodraeth i'r **ymgyngoriad lechyd yw Busnes Pawb** (DWP a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC))
- cyhoeddiad yr Adran Addysg (DfE) o ganfyddiadau'r Adolygiad Anghenion Addysgol Arbennig ac anableddau (SEND) a Strategaeth Awtistiaeth wedi'i hadnewyddu DHSC

Gwyddom o Arolwg Anabledd y DU a'n hymchwil profiad byw fod gofal cymdeithasol yn faes cymorth aruthrol o bwysig i lawer o bobl anabl, ac rydym hefyd wedi clywed bod angen ei ddiwygio.

Nid yw'r strategaeth hon yn anwybyddu'r angen am ddiwygio gofal cymdeithasol, a fydd yn cael ei arwain gan DHSC gyda chynigion yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Rydym yn cyflwyno'r hyn a glywsom am bwysigrwydd y cymorth hwn i lawer o bobl anabl ac yn tynnu sylw at ymdrechion diwygio tymor hir, dan arweiniad DHSC, trwy gydol y strategaeth hon.



Rhan 1:

Camau ymarferol yn awr i wella bywydau bob dydd pobl anabl





Hawliau a chanfyddiadau: cael gwared â rhwystrau i gymryd rhan lawn mewn bywyd cyhoeddus a dinesig a chymdeithas ehangach

Mae pobl anabl wedi dweud wrthym bod agweddau negyddol eraill yn cael effaith sylweddol ar draws pob maes o'u bywydau bob dydd.

“ Yn aml iawn yn ail ddosbarth, nid ydych chi'n cael eich ystyried yn gyfartal. Ac mae gennym ni bob hawl. Dim ond un tro sydd gennym o hyd mewn bywyd fel pawb arall. A dim ond am na allwn gerdded hefyd, gweld hefyd, clywed hefyd, beth bynnag, nid yw hynny'n ein gwneud ni'n llai o unigolyn.”

- Cyfranogwr bord gron Cymru

Dim ond 8% o bobl anabl, 8% o ofalwyr, ac 12% o'r cyhoedd sy'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod barn aelodau'r cyhoedd am anabledd o gymorth ar y cyfan i bobl anabl. Mae¹⁵ lletchwithdod,¹⁶ empathi cyfeiliornus,¹⁷ ansicrwydd ynghylch iaith¹⁸ a rhagfarn yn ddigwyddiadau bob dydd i lawer o bobl anabl a'u teuluoedd a'u ffrindiau.

“ Un o'r pethau gwaethaf yw pan fydd pobl yn nawddoglyd.”

- Kathryn

15 Arolwg Anabledd y DU 2021

16 Yn 2014 cyfaddefodd 67% o'r cyhoedd ym Mhrydain eu bod yn teimlo'n anghyfforddus yn siarad â phobl anabl; mae “millennials” fel y'u gelwir ddwywaith yn fwy tebygol na phobl hyn o deimlo'n lletchwith o amgylch pobl anabl (adroddiad Scope, Mai 2014, 'Agweddau cyfredol tuag at bobl anabl')

17 Datblygu baromedr cenedlaethol o ragfarn a gwahaniaethu ym Mhrydain, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, adroddiad Ymchwil 2018: gall hyn ymddangos fel trueni, nawddogi neu 'ragfarn tadol' (t.45); Adroddiad ymchwil 2010: Prosesau rhagfarn: Theori, tystiolaeth ac ymyrraeth: " rhagfarn llesionol 'sy'n aml yn nawddoglyd iawn' (t.29)

18 Mae ymchwil gan Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Lloegr yn dangos anghysur pobl anabl â geiriau fel 'archarwr' (Adroddiad Ymchwil Cyfryngau ComRes 2016)

Mae effaith canfyddiadau negyddol ar bobl anabl yn eang. Maent yn cynnwys unigrwydd, rhwystrau rhag cyflogaeth, a throseddau casineb tuag at bobl anabl. Mae dros hanner (54%) y bobl anabl yn poeni am gael eu sarhau neu aflonyddu ar y stryd, ac mae 45% yn poeni am ddieithriad yn ymosod yn gorfforol arnynt.¹⁹

Mae agweddau'n newid ond mae'n rhaid mynd ymhellach. Canfu data o Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain yn 2017 fod 83% o ymatebwyr yn meddwl bod pobl anabl yr un fath â phawb arall, o gymharu â 77% yn 2005.²⁰ Mae newid cymdeithasol yn cymryd amser. Ond mae llawer mwy y gall ac y dylai'r llywodraeth ei wneud i newid canfyddiadau negyddol pobl anabl ac i ysbrydoli newid ehangach mewn cymdeithas.

Er mwyn helpu i sicrhau y gall pobl anabl chwarae rhan lawn mewn cymdeithas, rydym yn:

- cyflwyno deddfwriaeth i gael gwared â'r rhwystrau hanesyddol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus
- defnyddio'r system anrhydeddau i gydnabod yn well gyfraniad eithriadol pobl anabl i'r DU
- archwilio'r ffordd orau i gefnogi ymgeiswyr anabl sy'n sefyll mewn etholiad
- ysbrydoli newid cymdeithasol ledled y DU trwy ymgyrchoedd newydd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd
- gwella mynediad at gyfiawnder
- cyhoeddi strategaeth drawslywodraethol newydd i fynd i'r afael â'r troseddu a'r anhrefn sy'n tanseilio ansawdd bywyd pawb, gan gynnwys troseddau casineb tuag at bobl anabl

Rydym yn uchelgeisiol i wneud mwy i fynd i'r afael â throseddu yn erbyn pobl anabl. Bydd yr Uned Anabledd yn blaenoriaethu gweithredu traws-lywodraethol ychwanegol yn y maes hwn yn 2021/22.

Cael gwared â'r rhwystrau hanesyddol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus

Byddwn yn cael gwared â'r rhwystrau hyn ac yn sicrhau y gall pobl anabl chwarae rhan lawn mewn bywyd cyhoeddus.

Ar hyn o bryd mae Cyfraith Gwlad yn gwahardd unrhyw un rhag bod yn bresennol yn ystafell y rheithgor nad yw'n un o 12 aelod y rheithgor. Er y gall y rhan fwyaf o bobl anabl wasanaethu fel rheithwyr, ni all pobl fyddar sydd ag angen cyfieithydd iaith Arwyddion Prydain (BSL).

¹⁹ Arolwg Anabledd y DU 2021

²⁰ Bwlch Canfyddiad Anabledd (Scope)

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn cyflwyno deddfwriaeth yn 2021 fel rhan o Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, i ddiwygio cyfraith gwlad fel y gall pobl fyddar sydd ag angen cyfieithydd BSL wneud gwasanaeth rheithgor.

Byddwn hefyd yn ei gwneud hi'n haws i bobl anabl fwrw eu pleidlais.

Yn ôl y rheolau cyfredol, dim ond gan bleidleisiwr cymwys arall neu aelod agos o'r teulu y gall pobl anabl gael help mewn gorsafoedd pleidleisio.

I wella'r profiad pleidleisio i bobl anabl:

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyflwyno'r Bil Etholiadau i ofyn i Swyddogion Canlyniadau ystyried anghenion pobl ag ystod eang o anableddau. Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn galluogi pobl anabl i dderbyn cymorth i fwrw'u pleidlais gan unrhyw gyfaill sydd dros yr oed o 18 mewn etholiadau Seneddol y DU.

Bydd Swyddfa'r Cabinet yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i ddarparu arweiniad i helpu Swyddogion Canlyniadau i fodloni'r gofyniad newydd, gan gynnwys ar dechnolegau cynorthwyol y gellir eu darparu mewn gorsafoedd pleidleisio.

Byddwn yn cael gwared â'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu profi wrth ymgymryd â rolau arwain mewn bywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys ynadon, ASau, a phenodiadau cyhoeddus.

Mae MoJ yn buddsoddi £1 miliwn erbyn Gwanwyn 2022 i recriwtio rhagor o ynadon anabl yng Nghymru a Lloegr fel rhan o ymdrech ehangach i wella amrywiaeth, ochr yn ochr â grwpiau eraill-heb gynrychiolaeth ddigonol.

Bydd MoJ yn defnyddio adborth pobl anabl ar y profiad o wneud cais i fod yn ynad a data recriwtio gwell i asesu a oes angen unrhyw weithredu ychwanegol i gynorthwyo ac annog ymgeiswyr anabl i wneud cais llwyddiannus i fod yn ynad, erbyn gwanwyn 2023.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i weld mwy o bobl anabl yn dod yn gynrychiolwyr etholedig.

Gan adeiladu ar brofiad y gronfa Mynediad i Swyddfa Etholedig a chronfa EnAble, bydd MHCLG yn cefnogi cynllun newydd o Ebrill 2022 i gefnogi'r rhai sy'n ceisio dod yn ymgeiswyr ac - yr un mor bwysig - ar ôl iddynt gael eu hethol i swydd gyhoeddus.

Mae angen i bleidiau gwleidyddol hefyd chwarae eu rôl wrth helpu'r rhai ag anableddau i gyflawni a llwyddo mewn swydd gyhoeddus. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n adeiladol â phleidiau gwleidyddol, elusennau anabledd a gweinyddwyr etholiadol ynglŷn â chynnydd yn y maes hwn.

Bydd Swyddfa'r Cabinet yn ystyried y ffordd orau i ni gynorthwyo'r rhai sy'n sefyll am swydd gyhoeddus a'r rhai sy'n dal swydd gyhoeddus.

“Fel rhywun sy'n angerddol am hyrwyddo'r agenda anabledd, weithiau gofynnir i chi am anabledd ac mae fel petai disgwyl i chi ddweud eich bod chi'n ddyn eithriadol sydd wedi codi £10 miliwn ac wedi dringo tri mynydd. Rwy'n berson arferol bob dydd, yn fenyw ddiflas 39 oed sy'n gweithio fel Cyfarwyddwraig Trethi. Mae'n anodd imi dderbyn y gallai fod rhai pethau na allaf eu gwneud. Nid wyf yn gweld anabledd fel rhywbeth sy'n fy niffinio. Ond mae'n debygol fy mod i'n well person o'i herwydd. Rwy'n llawer mwy gwydn. Rwyf hyd yn oed yn fwy penderfynol. Gallaf fod yn fwy hyblyg, tosturiol tuag at bobl. Nid wyf am i bobl feddwl nad ydyn nhw'n ddigon da neu na allant gyflawni pethau oherwydd bod ganddyn nhw'r label hwn.”

- Deborah

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau tegwch a chynwysoldeb mewn penodiadau cyhoeddus. Yn nodweddiadol, penodiadau gweinidogol i gorff cyhoeddus neu bwyllgor cynghori fydd y rhain.

Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cynyddu nifer y bobl anabl mewn rolau arweinyddiaeth gyhoeddus.



Yn 2019, nododd 11% o bobl a benodwyd yn gyhoeddus fod ganddynt anabledd, i fyny o 5% yn unig yn 2018.²¹

Byddwn yn annog pobl dalentog anabl i wneud cais am benodiadau cyhoeddus a'u cynorthwyo trwy'r broses ymgeisio.

Bydd Swyddfa'r Cabinet yn lansio gwefan a system ymgeisio newydd erbyn Mawrth 2022 i wella sut y gall ymgeiswyr talentog, gan gynnwys pobl anabl, gael mynediad at benodiadau cyhoeddus. Bydd hyn ynghyd âg allgymorth cynyddol, gan gynnwys â rhwydweithiau anabledd.

21 Adroddiad Data Penodiadau Cyhoeddus, 2018 i 2019 - Gorffennaf 2020

Byddwn hefyd yn **gwneud newidiadau i'r system anrhydeddau i gydnabod cyflawniadau pobl anabl yn well ym mhob cefndir**. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- cyflwyno ffurflen enwebu EasyRead a thaflen newydd i wella hygyrchedd y broses enwebu i bobl ag anawsterau dysgu
- lansio gwefan anrhydeddau bwrpasol a hygyrch newydd i hyrwyddo cynwysoldeb y system anrhydeddau
- cynnig gwybodaeth am y system anrhydeddau mewn fformatau hygyrch
- gweithio gyda sefydliadau pobl anabl i hyrwyddo'r system anrhydeddau

Ymgyrchoedd newydd i ysbrydoli newid cymdeithasol ledled y DU

Mae gan ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd ran fawr i'w chwarae wrth ysgogi newid cymdeithasol.

Gwyddom fod ymgyrchoedd i fynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig ag unigrwydd a chyflyrau iechyd meddwl wedi codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn yn llwyddiannus ac wedi ysbrydoli miloedd o bobl i weithredu.

Byddwn yn gweithredu i newid canfyddiadau o bobl anabl ac i ysbrydoli newid cymdeithasol ehangach.

Bydd yr Uned Anabledd yn datblygu ymgyrch ledled y DU i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o anabledd, chwalu stereoteipiau cynhenid ac annefnyddiol a hyrwyddo'r cyfraniadau amrywiol y mae pobl anabl wedi'u gwneud - ac yn parhau i'w gwneud - i fywyd cyhoeddus.



Dywed 1 o bob 4 o bobl anabl fod agweddau negyddol gan deithwyr eraill yn eu hatal rhag defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.²²

Byddwn yn **parhau i fynd i'r afael ag agweddau negyddol y cyhoedd tuag at bobl anabl ar drafndiaeth gyhoeddus trwy ymgyrch Mae'n Daith i bawb** DfT gwerth £1 miliwn. Mae'r ymgyrch o fudd i bawb sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, gan amlygu y gallwn ni i gyd chwarae rhan wrth wneud trafndiaeth yn fwy cynhwysol.



Bydd yr ymgyrchoedd ehangach hyn yn cael eu hategu gan y fenter genedlaethol gyntaf erioed i godi dealltwriaeth o awtistiaeth, dan arweiniad DHSC.

Dangosodd arolwg gan y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yn 2015 fod 99.5% o bobl wedi clywed am awtistiaeth,²³ ond dim ond 16% o bobl awtistig a'u teuluoedd a oedd o'r farn fod y cyhoedd yn deall awtistiaeth.

Bydd DHSC yn datblygu cynllun dealltwriaeth gyhoeddus o awtistiaeth erbyn hydref 2021, gan weithio gyda phobl awtistig a'u teuluoedd a'r sector gwirfoddol.

Bydd DHSC yn treialu ac yn gwerthuso effaith y fenter erbyn Mai 2022.

Bydd y fenter hon yn helpu'r cyhoedd i ddeall cryfderau a nodweddion cadarnhaol bod yn awtistig, yn ogystal â'r heriau y gallai pobl eu hwynebu yn eu bywydau bob dydd. Bydd hefyd yn pwysleisio amrywiaeth y gymuned awtistig, gan gynnwys cyflwyno awtistiaeth ymhlith menywod a merched, y gymuned LGBT a phobl awtistig o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Gwella mynediad at gyfiawnder

Mae mynediad at gyfiawnder yn bwysig i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl fel ei gilydd. Gall pobl anabl wynebu heriau penodol yn y systemau cyfiawnder sifil a throseddol, naill ai fel dioddefwyr, tystion, diffynyddion neu droseddwyr.



Adroddodd MoJ yn 2018 fod y mwyafrif o gleientiaid cymorth cyfreithiol a nodwyd yn anabl (58%).²⁴

Er mwyn gwella profiad pobl anabl o'r system gyfiawnder, byddwn yn:

- gwella mynediad i lysoedd a chymorth cyfreithiol
- cynorthwyo dioddefwyr a thystion anabl
- gwella dealltwriaeth staff rheng flaen o niwroamrywiaeth

²³ YouGov a'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol (2015)

²⁴ Adolygiad Ôl-weithredu o Ran 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO)

Gwella mynediad i lysoedd a chymorth cyfreithiol

Diwygio HMCTS

Bydd rhaglen ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (HMCTS) yn newid sut mae pobl yn cyrchu'r llysoedd. Bydd mwy o ddarpariaeth ar-lein, gan gynnwys gwrandawiadau o bell a buddsoddiad mewn adeiladau i'w gwneud yn fwy hygyrch.

Mae gwasanaethau newydd HMCTS ar-lein yn cael eu cynllunio a'u profi gyda phobl anabl. Mae hyn yn helpu i ddylunio gwasanaethau hygyrch fel y gall y rhai sydd â thechnoleg gynorthwyol hunanwasanaethu a symleiddio iaith i leihau'r llwyth gwybyddol i ddefnyddwyr.

Eleni (2021), bydd HMCTS yn lansio gwasanaeth cymorth cenedlaethol newydd ar gyfer defnyddwyr yng Nghymru a Lloegr sydd ag angen help i gael mynediad at wasanaethau ar-lein.

Mae hyn yn golygu y bydd cymorth yn cael ei ddarparu yn bersonol ac o bell dros y ffôn a thrwy dechnoleg arall.

Cyfyngwyr

Mae cyfyngwyr yn arbenigwyr cyfathrebu diduedd sy'n gyfrifol am alluogi cyfathrebu â phobl anabl, ymhlith eraill, yn y system gyfiawnder. Maent yn cefnogi pobl anabl, os amherir ar eu gallu i gyfathrebu oherwydd oedran neu analluogrwydd, er mwyn gwella ansawdd y dystiolaeth a sicrhau bod pobl anabl yn gallu deall a chymryd rhan yn yr achos.

Mae'r MoJ yn adolygu darpariaeth gyfyngol ar draws y system gyfiawnder a bydd yn rhannu argymhellion ynghylch dyfodol darpariaeth gyfyngol erbyn Gwanwyn 2022.

Cynorthwyo dioddefwyr a thystion anabl

Mae MoJ yn gweithio i gael gwared â'r rhwystrau i'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig gael mynediad at gymorth, gan gynnwys pobl anabl sy'n ddioddefwyr neu'n dystion.

Daeth MoJ â Chod Dioddefwyr diwygiedig newydd i rym yng Nghymru a Lloegr ar 1 Ebrill 2021, sy'n nodi hawliau gwell i bobl anabl, yn ogystal â dioddefwyr eraill.

Mae'r Cod yn dwyn ynghyd 12 o hawliau trosfwaol sy'n syml, yn gryno ac yn hawdd eu deall - gan amlinellu'r lefel ofynnol o wybodaeth y gall dioddefwyr gwasanaeth ei disgwyl ar bob cam o'r broses gyfiawnder. Mae'r rhain yn cynnwys:

- am y tro cyntaf, bydd dioddefwyr cymwys yn cael eu hatgyfeirio'n awtomatig at y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (VCS) ac yn cael cynnig Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (VLO), sy'n darparu diweddariadau hanfodol ar droseddwywr wrth iddynt wneud eu dedfryd, gan gynnwys eu rhyddhau o'r carchar.
- y gallu i ddioddefwyr bregus gael eu croesholi wedi'i recordio ymlaen llaw i ffwrdd o ystafell y llys - gan leihau'r straen o roi tystiolaeth yn y llys, y mae llawer yn ei gael yn fygythiol
- yr hawl i gael gwybod am y rhesymau pam na fydd rhywun sydd dan amheuaeth yn cael ei erlyn. Os ydynt yn anhapus, bydd dioddefwyr hefyd yn gallu gofyn i'r heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron adolygu'r penderfyniad hwn

Gwella dealltwriaeth staff rheng flaen o niwroamrywiaeth

Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff yn alluogwr allweddol i gael gwell canlyniadau i droseddwywr sy'n niwrowahanol.

Mae pobl niwrowahanol fel pobl awtistig, dyslecsig a phobl ag anableddau dysgu yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol. Er enghraifft, asesir bod gan oddeutu 28% o droseddwywr anhawster neu her dysgu,²⁵ a gwyddom y gall profiad llysoedd, carchardai a'r gwasanaeth prawf gynrychioli heriau penodol i unigolion niwrowahanol.

Mae MoJ yn helpu i greu newid diwylliannol yn y ffordd y mae'r system cyfiawnder troseddol yn ymateb i amodau niwrowahanol trwy ddull cenedlaethol, seiliedig ar dystiolaeth o niwroamrywiaeth, gyda ffocws allweddol ar ymwybyddiaeth staff.

Mae MoJ felly wedi gofyn i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi, â chymorth gan Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub, gwblhau adolygiad annibynnol o niwroamrywiaeth yn y system cyfiawnder troseddol.

Bydd MoJ yn gweithio gyda sefydliadau anabledd i ddatblygu pecyn cymorth hyfforddi niwroamrywiaeth cenedlaethol ar gyfer staff, a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2022.

Mynd i'r afael â throseddu yn erbyn pobl anabl

Mae throseddu yn effeithio'n anghymesur ar bobl anabl. Mae oedolion anabl yn fwy tebygol o ddioddef trosedd (20.8%) nag oedolion eraill (19.0%), ac mae plant anabl rhwng 10 a 15 oed (12.0%) bron ddwywaith yn fwy tebygol o ddioddef trosedd na phlant eraill (6.3%).²⁶

25 Anghenion Dynodedig Troseddwywr yn y Ddalfa a'r Gymuned o OASys 2019

26 Troseddu yng Nghymru a Lloegr: Tueddiadau Blyneddol a Thablau Demograffig

Mae menywod anabl yn fwy tebygol o ddioddef cam-drin domestig ac ymosodiad rhywiol na menywod nad ydynt yn anabl. Y rheini â chyflyrau iechyd meddwl, anawsterau dysgu a namau cymdeithasol ac ymddygiadol sy'n cael eu herlid amlaf.²⁷

Mae tua hanner y bobl anabl yn nodi eu bod yn teimlo'n anniogel yn eu cymdogaeth (45%), yn poeni am gael eu sarhau neu aflonyddu ar y stryd neu unrhyw le cyhoeddus arall (54%), neu'n poeni am ddieithriaid yn ymosod yn gorfforol (45%) o leiaf 'peth o'r amser'.²⁸

Yn y sefyllfa fwyaf eithafol, gall agweddau negyddol tuag at bobl anabl amlygu mewn troseddau casineb tuag at bobl anabl.

Mae nifer y troseddau casineb anabledd a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu o 1,676 yn 2011 i 2012 i 8,469 yn 2019 i 2020.²⁹ Er bod y cynnydd hwn yn rhannol oherwydd parodrwydd cynyddol rhai dioddefwyr i ddod ymlaen a gwell arferion cofnodi'r heddlu, mae'n debygol fod llawer o droseddau casineb anabledd ddim yn cael eu riportio.

Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â throseddau casineb tuag at bobl anabl.

Yn 2021, bydd y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi strategaeth draws-lywodraethol newydd i fynd i'r afael â'r troseddu ac anhrefn sy'n tanseilio ansawdd bywyd i bawb. Bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â throseddau casineb, y bydd mynd i'r afael â throseddau casineb tuag at bobl anabl yn rhan annatod ohono.

Mae'r Swyddfa Gartref yn ymrwymo i weithio gyda phobl anabl a rhanddeiliaid anabledd eraill i ddatblygu'r strategaeth newydd i'w chyhoeddi yn yr hydref.

Bydd y llywodraeth hefyd yn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ofalus o'i adolygiad cynhwysfawr o gyfreithiau troseddau casineb, a adroddir ar ddiwedd 2021. I gefnogi'r gwaith hwn:

Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dwyn ynghyd banel sy'n cynnwys sefydliadau pobl anabl, academyddion, asiantaethau partner o'r llywodraeth a'r heddlu, i gynghori ar welliannau ychwanegol sy'n ymwneud â chefnogaeth i erlynwyr a'r Datganiad Polisi ar Droseddau Casineb Anabledd a Throseddau Eraill yn erbyn Pobl Anabl.

27 Anabledd a Throseddu, Cymru a Lloegr: 2020

28 Arolwg Anabledd y DU

29 Ystadegau Swyddogol: Troseddau casineb, Cymru a Lloegr, 2019 i 2020

Mae cyfiawnder wedi'i ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cydnabod pwysigrwydd gwella profiadau pobl anabl o riportio troseddau casineb. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ynghyd â Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI), yn ariannu'r Gwasanaeth Eiriolaeth Troseddau Casineb. Mae hyn yn cynnig mynediad i eiriolwr anabledd sy'n darparu cymorth trwy'r broses ymchwilio i ddioddefwyr troseddau casineb anabledd, gan sicrhau mynediad at gyfiawnder a diogelwch yn eu cymuned eu hunain.

Ymgysylltodd Llywodraeth yr Alban yn agos â DPOs, Heddlu'r Alban a phartneriaid cyfiawnder eraill i ddatblygu Bil Troseddau Casineb a Threfn Gyhoeddus (Yr Alban), a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2021. Roedd DPOs hefyd yn cymryd rhan yn natblygiad ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb, ac ar waith i wella data a thystiolaeth ac ar riportio gan drydydd parti.

Yn 2020, ariannodd Llywodraeth Cymru Pobl yn Gyntaf Cymru i arwain ymgynghoriad troseddau casineb gyda'i rhwydwaith o oedolion ag anableddau dysgu ar draws yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Helpodd hyn i adeiladu darlun o'u profiadau a'u dealltwriaeth o droseddau casineb; bydd canfyddiadau yn helpu i lywio polisi'r dyfodol. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â phobl anabl trwy grwpiau ffocws wrth ddatblygu'r ymgyrch gyfathrebu Mae Casineb yn Brifo Cymru, a oedd yn anelu at godi ymwybyddiaeth a riportio troseddau casineb, gan gynnwys troseddau casineb tuag at bobl anabl.

Rydym wedi ymrwymo i wneud mwy i fynd i'r afael â throseddu yn erbyn pobl anabl a bydd yr Uned Anabledd yn nodi meysydd lle gall y llywodraeth fynd ymhellach wrth fynd i'r afael â'r mater hwn yn 2021 i 2022.

Sicrhau amddiffyniad gartref

Mae miliynau o bobl anabl yn derbyn cymorth rhagorol yn eu cartrefi eu hunain gan ofalwyr cyflogedig, di-dâl a gwirfoddol. Rydym yn gwybod bod hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr, gan helpu pobl anabl gyda llun o dasgau o ddydd i ddydd ac i fyw bywydau mwy annibynnol a boddhaus.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod pobl anabl wedi dweud wrthym nad yw'r mesurau presennol i amddiffyn dioddefwyr cam-drin gan bobl sy'n darparu gofal yn gweithio'n dda. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag unrhyw achosion o gam-drin neu gamfanteisio.

Bydd y Swyddfa Gartref a DHSC yn arwain adolygiad ar y cyd i'r amddiffyniadau a'r cymorth sydd ar gael i oedolion sy'n cael eu cam-drin yn eu cartrefi eu hunain gan bobl sy'n darparu eu gofal, gan gydlyn mewnbynnau gan lywodraeth ehangach, pobl anabl, sefydliadau gofalwyr a phartion eraill â diddordeb. Disgwyliwn i'r adolygiad ddod i ben erbyn diwedd 2022.



Tai: creu cartrefi mwy hygrych, wedi'u haddasu a mwy diogel

Mae llawer o bobl anabl yn deffro bob bore mewn cartref nad yw wedi'i addasu i'w hanghenion.

Adroddodd bron i hanner (47%) yr ymatebwyr anabl i Arolwg Anabledd y DU eu bod wedi cael 'rhywfaint o anhawster' o leiaf i fynd i mewn ac allan o'r lle maent yn byw.

Bu llawer o welliannau o ran hygrychedd i bobl anabl yn ystod y degawdau diwethaf, gyda chymorth rheoliadau llymach a mwy o ymwybyddiaeth o ddylunio cynhwysol.



Fe wnaeth cyfran y cartrefi yn Lloegr sydd â nodweddion hygrych allweddol bron i ddyblu rhwng 2009 a 2018, o 5% i 9%.³⁰

Mae pobl anabl yn dweud wrthym fod llawer mwy i'w wneud eto. Mae'r dystiolaeth yn adrodd stori debyg. Mae llai na hanner y cynlluniau lleol yn Lloegr ar gyfer cartrefi newydd yn cynnwys gofynion ar gyfer cyfran o dai newydd i ddiwallu safonau hygrychedd uwch.³¹

Cartref gweddus yw sylfaen bywyd annibynnol. Roedd chwarter y bobl a oedd yn derbyn cyfarpar neu fân addasiadau i'w cartref ag angen llai o help nag o'r blaen. Dywedodd 95% fod eu hansawdd bywyd yn well ar ôl derbyn cyfarpar neu fân addasiad.³²

“Gadawodd fy mab y coleg yn 22 oed, a buom yn gweithio gyda Chyngor Sheffield ynghylch ei annibyniaeth a byw â chymorth. Cynorthwyodd gweithiwr cymdeithasol pontio ef i ddod o hyd i lety addas, ynghyd â MySafeHome, a phrynodd gartref â chefnogaeth DWP. Dyma'r peth gorau rydyn ni erioed wedi'i wneud i'm mab. Mae'n caru ei gartref, ac mae wedi datblygu sgiliau annibyniaeth ymhell uwchlaw ein disgwyliadau. Mae ganddo gefnogaeth 24 awr y dydd, ac mae'r holl lwyddiant hwn wedi rhoi tawelwch meddwl inni ar gyfer ei ddyfodol.”

- Sue

30 Arolwg Tai Lloegr 2018 i 2019: hygrychedd Cartrefi Lloegr

31 Habinteg: Tai Hygrych mewn Cynlluniau Lleol

32 Arolwg Gwasanaethau Cymdeithasol Personol o Oedolion sy'n Derbyn Offer Cymunedol a Mân Addasiadau - 2007-08

Byddwn yn cymryd camau ar unwaith i:

- roi hwb i'r cyflenwad tai i bobl anabl trwy godi safonau hygyrchedd ar gyfer cartrefi newydd, cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai â chymorth, a chyflymu addasu cartrefi presennol trwy wella effeithlonrwydd darpariaeth y Grant Cyfleusterau i'r Anabl gan awdurdodau lleol, gwerth £573 miliwn yn 2021/22
- ymestyn hawliau tenantiaid anabl ar hygyrchedd
- sicrhau diogelwch pobl anabl mewn adeiladau, pan fydd argyfyngau

Hybu hygyrchedd a chyflenwad tai i bobl anabl

Bydd cartref gweddus yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Gall cartref â chludiant cyhoeddus da, yn agos at deulu a ffrindiau, fod yr un mor bwysig â chartref â'r addasiadau cywir. Mae dewis gyrru yn allweddol.

“ Mae mor bwysig gweld pethau a dal i fod yn rhan o'r byd.”

- Tony

Cwblhaodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) ymgyngoriad³³ ar godi safonau hygyrchedd ar gyfer cartrefi newydd yn Lloegr yn Rhagfyr 2020, ac mae wedi bod yn ystyried yr ymatebion a'r camau nesaf.

Bydd MHCLG yn cadarnhau cynlluniau i wella'r fframwaith i ddarparu cartrefi newydd hygyrch erbyn Rhagfyr 2021.

Mae'n rhaid i'r diwygiadau hyn gael eu llywio gan ddata cadarn a thystiolaeth o brofiadau pobl anabl.

Mae MHCLG yn comisiynu ymchwil newydd i ddatblygu'r canllawiau statudol ar fodloni Rheoliadau Adeiladu, gan gwmpasu mynediad i adeiladau a'u defnyddio (Dogfen Gymeradwy M).

Bydd yr ymchwil yn ein helpu i wella canllawiau a llywio polisi yn y dyfodol. Bydd yn ystyried dulliau dylunio adeiladau modern, technoleg, a defnyddio a gweithredu adeiladau.

33 Codi safonau hygyrchedd ar gyfer cartrefi newydd

Mae Gogledd Iwerddon yn defnyddio dull gwahanol o gynyddu dewis i bobl anabl mewn tai cymdeithasol a phreifat. Mae Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon (NIHE) yn datblygu Cofrestr Tai Hygyrch ar gyfer tai cymdeithasol. Mae hefyd yn archwilio rhyngwyneb posibl yn y sector preifat, gan ganiatáu hysbysebu eiddo hygyrch yn y sector preifat i'w rentu neu ei werthu ar wefan NIHE.

Bydd map llwybr 'Tai i 2040' Llywodraeth yr Alban (a gyhoeddwyd yn 2021) yn cyflwyno Safon Cartrefi Hygyrch newydd i sicrhau hygyrchedd a gallu i addasu ar gyfer pob cartref newydd a phresennol. Bydd y safon newydd yn sicrhau newid sylweddol yn argaeledd a gallu i addasu tai i bobl anabl.

Byddwn yn cymryd camau i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac â chymorth.

Gall tai â chymorth pwrpasol â gwasanaethau gofal integredig helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol.

Mae galw cynyddol am dai â chymorth,³⁴ ac rydym wedi ymrwymo i hybu cyflenwad drwy'r Rhaglen Tai Fforddiadwy.

Mae MHCLG wedi ymrwymo y bydd 10% o'r 180,000 o gartrefi a adeiladwyd trwy'r Rhaglen Cartrefi Fforddiadwy £11.5 biliwn 2021–26 ar gyfer tai â chymorth.

Mae DHSC hefyd yn darparu cyllid i adeiladu tai arbenigol - trwy'r Gronfa Tai Arbenigol Gofal a Chymorth (CASSH). Mae hwn wedi'i gynllunio i helpu oedolion ag anabledd dysgu neu gorfforol, y rhai â chyflyrau iechyd meddwl a phobl hŷn.

Bydd DHSC, gan weithio gydag MHCLG, yn buddsoddi £71 miliwn yn y Gronfa CASSH ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022.

Bydd y cynlluniau hyn yn helpu i ateb y galw cynyddol am dai â chymorth. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector tai â chymorth i sicrhau bod gan bobl anabl a phobl hŷn ag anghenion cymorth a gofal yr opsiynau tai cywir.

Rydym yn cydnabod yr ymreolaeth y gall perchnogaeth ei darparu ac rydym am sicrhau bod pobl anabl, hefyd, yn cael cyfle i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain.

34 Y Galw Rhagamcanol am Dai â Chymorth ym Mhrydain Fawr 2015 i 2030: Uned Ymchwil Polisi Economeg Iechyd a Systemau Gofal Cymdeithasol. Mawrth 2017

Bydd tua hanner y cartrefi a ddarperir o dan y rhaglen Cartrefi Fforddiadwy gwerth £11.5 biliwn yn agored i gynllun Perchnogaeth a Rennir newydd. Bydd y rhaglen hefyd yn datgloi £38 biliwn arall mewn buddsoddiad cyhoeddus a phreifat mewn tai fforddiadwy. Bydd hyn yn helpu darpar berchnogion tai i gymryd eu cam cyntaf ymlaen ar yr ysgol dai. Rydym wedi lleihau'r gyfran gychwynnol o 25% i 10% ac wedi cyflwyno cymorth i berchnogion ar y cyd gyda chost atgyweirio a chynnal a chadw am y 10 mlynedd gyntaf ar gartrefi newydd eu hadeiladu.

Ar gyfer pobl sy'n methu â chyrchu'r model Perchnogaeth ar y Cyd safonol newydd ar gartrefi newydd, mae cynllun perchnogaeth cartref i bobl ag anableddau tymor hir (AUR). Mae hyn yn caniatáu i bobl brynu cartref addas ar y farchnad agored ar delerau Perchnogaeth ar y Cyd.

Bydd MHCLG yn sicrhau bod y model Perchnogaeth ar y Cyd newydd, gan gynnwys y gyfran (10%) ostyngol gychwynnol leiaf, ar gael i bobl anabl sy'n prynu cartref o dan y cynllun AUR.

Bydd gan breswylwyr sy'n byw yn y cartrefi rhent newydd a ariennir gan Raglen Cartrefi Fforddiadwy 2021–26 hefyd yr Hawl i Berchnogaeth ar y Cyd.

Gall Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, sydd ar gael trwy gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr, helpu pobl anabl i dalu cost yr addasiadau sydd eu hangen i wneud eu cartrefi yn fwy hygyrch.

“Roedd mynd allan o'r drws mewn gwirionedd, heb i neb fy helpu, yn anhygoel.”

- Joyce

Byddwn yn cyflymu'r broses o ddarparu addasiadau cartrefi yng Nghymru a Lloegr trwy wella'r modd y cyflwynir y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn lleol.

Yn dilyn adolygiad annibynnol o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018,³⁵ bydd MHCLG a DHSC yn cyhoeddi canllawiau llywodraeth newydd ar y cyd ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr ar gyflwyno'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl o £573 miliwn yn effeithiol yn ystod 2021.

35 <https://www.gov.uk/government/publications/disabled-facilities-grant-and-other-adaptations-external-review>

Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi ein hymrwymiad i helpu pobl hŷn ac anabl i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.



Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2021 i 2022, byddwn wedi buddsoddi dros £4 biliwn yn y Grant Cyfleusterau i'r Anabl ers 2010.

Ymestyn hawliau tenantiaid ar hygyrchedd

Mae pobl anabl yn fwy tebygol o rentu, yn hytrach na bod yn berchen ar eu cartrefi.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys darpariaethau i roi'r hawl i fynnu bod landlordiaid yn gwneud addasiadau rhesymol i rannau cyffredin o adeiladau preswyl, gan gynnwys cynteddau, mynedfeydd a grisiau.³⁶ Bydd y ddarpariaeth hon yn awr yn dod i rym ar gyfer Cymru a Lloegr.

Bydd Swyddfa'r Cabinet yn bwrw ymlaen â gwaith i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid wneud addasiadau rhesymol i rannau cyffredin cartrefi prydlesol a chyfunddaliad. Mae ymgynghoriad ar y gweill ar gyfer 2021.

Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl anabl ddod i mewn i'w cartrefi a'u gadael.

Caniateir i landlordiaid gael tenantiaid i dalu am y gwaith, yn unol â deddfwriaeth bresennol y Ddeddf Cydraddoldeb. Bydd tenantiaid a thrigolion, gan gynnwys y rheini ar incwm isel neu sydd â phlant anabl, yn gallu gwneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Sicrhau diogelwch pobl anabl

Mae canllaw rheoliadau adeiladu (**Dogfen Gymeradwy B**) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer dianc â chymorth i bobl anabl. Er i'r MHCLG ddod i'r casgliad yn 2015 bod y darpariaethau yn y rheoliadau hyn yn diwallu'r gofynion sylfaenol, serch hynny, mae cyfleoedd i fynd ymhellach.

Mae MHCLG bellach yn adolygu'r dystiolaeth ynghylch dulliau dianc i bobl anabl, effeithiolrwydd Dogfen Gymeradwy B a dulliau amgen posibl.

Mae MHCLG wedi comisiynu ymchwil newydd i ddatblygu tystiolaeth gadarn i lywio polisi yn Lloegr ar y ffyrdd o ddianc o adeiladau, cartrefi gofal a thai arbenigol i bobl anabl. Bydd hyn yn dod i ben erbyn hydref 2021.



Trafnidiaeth: gwella hygyrchedd a phrofiad teithiau bob dydd

Mae teithiau bob dydd - i'r gwaith, i'r ysgol, i weld teulu a ffrindiau, i gael mynediad at wasanaethau hanfodol fel iechyd a gofal - yn llawn ansicrwydd i lawer o bobl anabl.

“ Mae'r byd yn wahanol. Mae'n rhaid i chi archebu os ydych chi am ddefnyddio bws; mae'n rhaid i chi archebu os ydych chi am gael trên. [Mae digymhellrwydd] ... yn foethusrwydd. ”
- Jessica

Mae Strategaeth Ddrafnidiaeth Gynhwysol yr Adran Ddrafnidiaeth (DfT), a gyhoeddwyd gyntaf yn 2018, wedi helpu i gyflymu cynnydd. Fodd bynnag, mae'r heriau'n aml yn sylweddol ac rydym yn cydnabod bod llawer i'w wneud o hyd. Mae 99% o fysiau bellach yn diwallu isafswm safonau hygyrchedd,³⁷ ond mae cyfran y cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn 58% yn unig mewn fflydoedd tacsis a 2% ar gyfer cerbydau llogi preifat.³⁸ Yn siomedig, mae'r ffigurau hyn wedi bod yn gostwng ers 2014.

Mae pobl anabl yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn aml, yn ogystal â thacsis a cherbydau llogi preifat.³⁹

Mae seilwaith trafndiaeth (mynediad i doiledau, gwybodaeth i deithwyr, arwyddion) yr un mor bwysig â mynediad i dtrafnidiaeth cerbydau.⁴⁰ Ar y ffyrdd, dywed pobl anabl y gall strydluniau greu problemau, gan gynnwys materion palmant, dodrefn stryd ac isadeiledd naid.⁴¹

Mae ein penderfyniad i ddarparu system dtrafnidiaeth sy'n hygyrch i bawb yn aros yr un fath. Gwyddom o'n hymchwil profiad byw ein hunain⁴² y gall cludiant dibynadwy fod yn drawsnewidiol i fyw bywyd annibynnol.

37 Ystadegau Bysiau Blynnyddol 2019

38 Ystadegau tacsis a cherbydau llogi preifat, Lloegr 2020

39 Ymddygiad Teithio Pobl Anabl ac Agweddau at Deithio 2017

40 Ymchwil teithwyr anabl ar y rheilffordd 2019 (Illuminas)

41 Ymchwil Profiad Byw yr Uned Anabledd a Policy Lab 2019

42 Ymchwil Profiad Byw yr Uned Anabledd a Policy Lab 2019

“ Trwy gydol fy mhientyndod cynnar roeddwn yn drwsogl iawn ac yn brin o gyd-drefniant, yn y pen draw, yn ddeg oed, cefais ddiagnosis bod gen i Nychdod Cyhyrol Becker. Roedd y cyflwr yn sefydlog am gyfnod, ond yn 16 oed dechreuodd fy symudedd waethgu. Dechreuais yn y coleg ond roeddwn yn ddibynnol ar fy rhieni gan nad oeddwn yn gallu cyrchu trafnidiaeth gyhoeddus. Yna cefais fy hysbysu o'r Lwfans Symudedd (rhagflaenydd DLA a PIP), y gwnes gais amdano a'i sicrhau'n llwyddiannus. Roedd y cyfleoedd a agorodd i mi yn wirioneddol yn gallu newid bywyd, fe wnaeth fy ngalluogi i gael mynediad i gerbyd trwy Motability a rhoi annibyniaeth i mi am y tro cyntaf yn fy mywyd.”

- Carl

Byddwn yn cymryd camau ychwanegol i:

- fynd i'r afael â materion hygrychedd parhaus yn y rhwydwaith trafnidiaeth, gan gynnwys rheilffyrdd, bysiau, tacsis a ffyrdd
- alluogi pobl anabl i deithio'n hyderus trwy fynd i'r afael â hyfforddiant staff, gwybodaeth ac agweddau ac ymddygiadau eraill

Trawsnewid hygrychedd rhwydwaith yr orsaf reilffordd

Lansiwyd y **rhaglen Mynediad i Bawb** yn 2006 i fynd i'r afael â'r materion y mae teithwyr anabl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Hyd yn hyn mae wedi darparu llwybrau hygrych, di-ris mewn dros 200 o orsafoedd, ochr yn ochr â gwelliannau ar raddfa lai mewn mwy na 1,500 o orsafoedd.



O ganlyniad, mae dros 3 chwarter y teithiau rheilffordd bellach trwy orsafoedd di-ris, o gymharu â dim ond hanner yn 2005.

Cyhoeddwyd Cynllun Williams-Shapps ar gyfer y Rheilffordd ym mis Mai 2021, sy'n ymrwymo i sefydlu corff rheilffordd newydd, Great British Railways. Mae'r papur gwyn yn cynnwys cyfres o ddiwygiadau hygrychedd, gan gynnwys:

- dyletswydd statudol ar Great British Railways i wella hygrychedd
- datblygu a gweithredu strategaeth hygrychedd genedlaethol newydd ar gyfer y rheilffyrdd

Bydd y strategaeth hon yn darparu'r ymagwedd gyntaf, gydgysylltiedig, ledled y system tuag at hygrychedd, gan gynnwys cyrraedd, gadael a symud o amgylch gorsafoedd ac ar ac oddi ar drenau.

Ond o hyd, dim ond tuag un rhan o bump o'n 2,500 o orsafoedd sydd â mynediad di-ris i bob platfform a rhyngddynt. Yn wahanol i gerbydau rheilffordd, y mae'n rhaid iddynt fod yn hygyrch yn gyfreithiol erbyn 2020, nid oes dyddiad gorffen cyfreithiol rwymol ar gyfer gwneud gorsafoedd yn hygyrch.

Bydd DfT yn cynnal archwiliad hygyrchedd ar draws y rhwydwaith o gyfleusterau gorsaf ym mhob un o'r 2,565 o orsafoedd rheilffordd prif reilffyrdd ym Mhrydain Fawr i lywio penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

Mae trafniadaeth yn fater sydd wedi'i ddatganoli'n rhannol, sy'n caniatáu i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon elwa o fuddsoddiad seilwaith ledled y DU tra hefyd yn ymateb i anghenion lleol.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cyflawni prosiect Trawsnewid Metro gwerth £700 miliwn ar Linellau Craidd y Cymoedd. Wedi'i ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth y DU, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Undeb Ewropeaidd, bydd hyn yn darparu mynediad di-ris i orsafoedd Cymru o fewn cwmpas a byrddio a gadael di-ris ar drenau â cherbydau newydd.

Dim ond rhan o'r gwaith sydd ar y gweill i wella hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd yw hwn.

Bydd DfT yn ymgynghori ar ddiweddariad i'r Safonau Dylunio ar gyfer Gorsafoedd Hygyrch eleni (2021).

Mae pobl â phroblemau golwg wedi dweud wrthym pa mor werthfawr yw palmant cyffyrddol ar lwyfannau gorsafoedd. Gall helpu i osgoi trasiedïau. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o orsafoedd hyn o hyd. Rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyn.

Bydd DfT yn gweithio gyda Network Rail i ddatblygu cynigion ar gyfer uwchraddio llwyfannau gorsafoedd rheilffordd yn gyflym gyda phalmant cyffyrddol.

Gwella profiad pobl anabl o deithio ar drên

“ Mae trafniadaeth gyhoeddus yn fater o bwys i bobl anabl, mae rhwystrau di-rif rhag cyrchu trenau, tiwbiau, tacsis, bysiau ac ati. Nid yw rampiau byrddio â llaw yn ddigon da - nid yw hynny'n annibyniaeth wirioneddol, yn enwedig pan all staff eich trin fel niwsans pan rydych chi am droi i fyny a mynd (mae gennym hawl i deithio'n ddigymell hefyd). Nid yw mwyafrif y gorsafoedd trenau a thiwbiau hyd yn oed yn hygyrch, mae angen newid hynny.”

- Ymatebydd Arolwg Anabledd y DU

Mae teithwyr anabl wedi dweud wrthym fod angen 3 pheth er mwyn i'w teithiau rheilffordd fynd yn dda:

- gwybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus
- profiad cyfartal
- rheolaeth dros eu taith

Bydd DfT yn cyflwyno cynlluniau i wella profiad pobl anabl o deithio ar drên.

Bydd yr Adran Drafnidiaeth yn gweithio'n agos gyda chwmnïau rheilffordd⁴³ i ddatblygu ymhellach y Rhaglen Cynorthwyo Teithwyr ar gyfer teithwyr anabl, er mwyn cynyddu hyder pobl i deithio. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno ap cymorth i deithwyr eleni (2021).

Mae rhai teithwyr anabl yn disgrifio eu profiadau o deithio ar drên fel rhai sy'n peri gorbryder.

Heblaw am yr offer cyswllt brys sydd wedi'u gosod yn y lleoedd cadair olwyn neu'n agos atynt, yr unig ffordd o rybuddio staff os oes angen cymorth arnynt yw dod o hyd i'r gard neu reolwr y trên yn gorfforol neu gysylltu â'r gweithredwr trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Gall hyn achosi i deithwyr anabl boeni na fyddant yn gallu gofyn am gymorth na chael help pan fydd ei angen arnynt. Gall danseilio hyder pobl anabl i deithio'n annibynnol o gwbl.

Mae DfT wedi gwahodd syniadau arloesol am brosiectau i wella cyfathrebu ar gyfer teithwyr anabl ac eraill sydd â llai o symudedd ar wasanaethau rheilffordd ledled Prydain. Bydd hyn yn galluogi pobl i gysylltu ag aelodau criw trên yn uniongyrchol o unrhyw sedd ar y trên. Dyfernir contractau erbyn Gorffennaf 2021.

Mae'r anhawster i gysylltu â staff am gymorth yn fater cydnabyddedig i bobl anabl ledled y DU. Mae gwaith tebyg i fynd i'r afael â hyn hefyd yn digwydd yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

43 Y Rail Delivery Group, sy'n dod â'r cwmnïau sy'n rhedeg rheiffyrdd Prydeinig ynghyd i fynd i'r afael â materion a rennir



Ym mis Ebrill 2021, gostyngodd gwasanaeth cymorth teithwyr ScotRail ei gyfnod rhybudd archebu cymorth i 1 awr, ac mae cyflwyno ap BSL wedi gwella cyfathrebu staff rheng flaen â defnyddwyr BSL yn sylweddol.

Mae Siarter Troseddau Casineb a ddatblygwyd yn 2021 gyda sefydliadau pobl anabl, yn annog darparwyr trafniadaeth, y cyhoedd a gwasanaethau eraill i fabwysiadu ymagwedd dim goddefgarwch tuag at droseddau casineb ar drafniadaeth gyhoeddus a riportio troseddau.

Gwella hygyrchedd bysiau, gorsafoedd bysiau ac arosfannau bysiau

Rydym am i bobl anabl allu cwblhau siwrneiau bws yn annibynnol a chyda hyder. Gall cyhoeddiadau stop nesaf clywadwy a gweladwy ei gwneud hi'n haws i bawb ddefnyddio bysiau.

Fel y cyhoeddwyd yn Bus Back Better, y Strategaeth Bysiau Genedlaethol ar gyfer Lloegr, yn amodol ar ddadansoddiad terfynol, bydd DfT yn cyflwyno rheoliadau erbyn Haf 2022 i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau bysiau ddarparu cyhoeddiadau clywadwy a gweledol ar fwrdd eu gwasanaethau ym Mhrydain Fawr.

Yn y cyfamser, rydym yn annog gweithredwyr bysiau i ddarparu gwybodaeth hygyrch ar fwrdd eu gwasanaethau wrth gyflwyno cerbydau newydd neu wedi'u huwchraddio.

Mae DfT eisoes wedi ymrwymo £2 filiwn i helpu'r cwmnïau bysiau lleiaf i ddarparu gwybodaeth glywadwy a gweladwy ar wasanaethau.

Bydd DfT yn buddsoddi £1.5 miliwn yn ychwanegol yn ystod 2021. Bydd yr arian hwn ar gael i weithredwyr bysiau ledled Prydain Fawr.

O dan Reoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus 2000, mae'n rhaid i fysiau a choetsys sydd wedi'u cynllunio i gludo dros 22 o deithwyr, ac a ddefnyddir ar wasanaethau lleol ac wedi'u hamserlennu yn y DU, ymgorffori:

- o leiaf 1 lle cadair olwyn
- lifft neu ramp
- seddi â blaenoriaeth
- gafaelion llaw ac ymylon grisiau â lliwiau gwrthgyferbyniol

Mae anghenion a disgwyliadau pobl anabl yn debygol o fod wedi newid yn yr 20 mlynedd diwethaf.

Bydd DfT yn adolygu Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus 2000, gan ddechrau ag ymchwil yn 2022. Bydd yr adran hefyd yn comisiynu ymchwil i ddylunio gorsafoedd bysiau ac arosfannau bysiau yn Lloegr erbyn Ebrill 2022.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi gwasanaethau bysiau a choetsys cynhwysol sy'n galluogi pob teithiwr, anabl ac nad ydynt yn anabl fel ei gilydd, i deithio'n hyderus.

Mynd i'r afael â phrinder gyrwyr cludiant cymunedol

Mae gwasanaethau Cludiant Cymunedol yn hanfodol ar gyfer annibyniaeth llawer o bobl, ac eto rydym yn gwybod bod rhai sefydliadau'n ei chael hi'n anodd i recriwtio gyrwyr sy'n gymwys i yrru eu cerbydau.

Bydd DfT yn gweithio gyda'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol a chyda rhanddeiliaid eraill i ddeall y mater hwn yn well, ac i gefnogi'r sector i barhau â'i waith hanfodol.

Gwella hygyrchedd tacsis a cherbydau llogi preifat

Mae'r amddiffyniad cyfredol i bobl anabl sy'n defnyddio tacsis a cherbydau llogi preifat (PHVs) yn dameidiog.

Ac eithrio lle mae gan yrwyr eithriad meddygol, mae'n drosedd gwrthod mynediad i ddefnyddiwr cadair olwyn i gerbyd dynodedig sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Yn yr un modd mae'n drosedd gwrthod mynediad i unrhyw gerbyd i berchennog ci cymorth. Ond nid yw pobl anabl eraill yn rhannu'r un amddiffyniadau.

Mae pobl anabl yn parhau i adrodd am ddioddef gwahaniaethu yn eu herbyn gan yrwyr tacsis a PHV neu beidio â chael cymorth angenrheidiol.⁴⁴

Bydd DfT yn cyflwyno deddfwriaeth yn ystod y Senedd bresennol i gryfhau'r gyfraith ar gludo pobl anabl mewn tacsis a PHVs ledled Prydain Fawr. Bydd hyn yn sicrhau amddiffyniad rhag codi taliadau gormodol a darparu cymorth priodol, waeth beth yw'r gwasanaeth y maent yn dewis ei ddefnyddio.

Rydym hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw hi bod awdurdodau lleol, gyrwyr tacsis a PHV yn deall anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid anabl, a sut i'w cynorthwyo'n briodol.

44 Sefyllfa DPTAC ar dacsis a PHVs

Bydd DfT yn parhau i annog awdurdodau lleol i fynnu bod gyrwyr yn cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd.

Bydd DFT, cyn gynted ag y bydd amser deddfwriaethol yn caniatáu, yn gorfodi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd trwy Safonau Gofynnol Cenedlaethol newydd ar gyfer trwyddedu tacsis a PHV. Yn y cyfamser, bydd yr adran yn ymgynghori yn ystod 2021 ar ganllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer awdurdodau trwyddedu, gan gynnwys cryfhau argymhellion ar gefnogi gwasanaeth cynhwysol.

Gwneud porthladdoedd 'achubiaeth' yn fwy hygyrch i deithwyr anabl

Mae preswylwyr anabl ar Ynys Wyth ac Ynysoedd Sili yn dibynnu ar wasanaethau fferi i gysylltu â thir mawr y DU ar gyfer gwaith, hamdden a mynediad at wasanaethau hanfodol, fel gofal iechyd.

Bydd DfT yn darparu hyd at £1 miliwn i wella hygyrchedd y porthladdoedd achubiaeth hyn ar Ynys Wyth ac Ynysoedd Sili i bobl anabl, gyda phorthladdoedd yn cael eu gwahodd i wneud cais am gyllid ar gyfer gwelliannau yn y flwyddyn ariannol 2021 i 2022.

Creu safonau hygyrchedd ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan

Nid oes bron unrhyw reoliad hygyrchedd sy'n cynnwys mannau gwefru cerbydau trydan (EV). Mae gennym gyfle i gynnwys hygyrchedd i wasanaeth sy'n datblygu.

Yn ddiweddar, ymgynghorodd DfT ar wella profiad y defnyddwyr mewn mannau gwefru cyhoeddus.⁴⁵ Mae hyn yn cynnwys gwella hygyrchedd i'r holl ddefnyddwyr, er mwyn deall yr heriau sy'n wynebu gyrwyr EV.

Bydd DfT yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr a gweithredwyr mannau gwefru i osod safonau hygyrchedd clir ar gyfer seilwaith gwefru yn 2021 i 2022.

⁴⁵ <https://www.gov.uk/government/consultations/the-consumer-experience-at-public-electric-vehicle-chargepoints>

Gwella'r cynllun Bathodyn Glas

Mae'r cynllun Bathodyn Glas yn cefnogi symudedd mwy na 2 filiwn o bobl yn y DU, gan eu helpu i barcio'n agosach at y nwyddau a'r gwasanaethau y mae angen iddynt eu defnyddio. Yn 2019, yn y newid mwyaf i'r cynllun mewn dros 40 mlynedd, gwnaethom ymestyn cymhwysedd yn Lloegr i bobl ag anableddau anweladwy. Rydym wedi adolygu sut mae'r newidiadau hynny wedi gweithio a chanfod, er bod llawer o bobl yn elwa o fathodynau am y tro cyntaf, y gellid gwella agweddau ar y cynllun.

Mae DfT yn gwella'r broses ymgeisio ar-lein, a bydd yn parhau i weithio gyda defnyddwyr Bathodyn Glas a'r awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r cynllun yn Lloegr i sicrhau ei fod yn gweithio yn y ffordd orau bosibl i'r holl ddefnyddwyr.

Mynd i'r afael â pharcio palmant

Gall parcio palmant achosi problemau gwirioneddol i gerddwyr, yn enwedig i bobl â nam ar eu golwg neu eu symudedd. Byddai mynd i'r afael â pharcio palmant yn helpu i ryddhau palmentydd i gerddwyr bregus wneud siwrneiau'n ddiogel ac yn haws. Byddai'n lleihau'r achlysuron pan fydd cerddwyr yn cael eu gorfodi i ddefnyddio'r ffordd i lywio o amgylch cerbydau. Byddai hefyd yn lleihau difrod palmant a all beri perygl baglu. Mae'r Alban wedi pasio deddfwriaeth i reoli parcio palmant ac mae Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer rheoliadau newydd.

Mae DfT wedi ymgynghori ar opsiynau i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r broblem yn fwy effeithiol a bydd yn cyhoeddi'r camau nesaf yn ddiweddarach eleni (2021).



Swyddi: gwneud byd gwaith yn fwy cynhwysol a hygyrch

Mae'r wythnos waith yn realiti pell i ormod o bobl anabl.

“Dw i erioed wedi cael trafferth mynd i gyfweiliadau, delio â nhw, eu cynnal. Daw'r broblem fwyaf ar ôl y cyfweiliad oherwydd bydd cyflogwyr yn gwneud unrhyw fath o esgus i beidio â chymryd naid ffydd, nid ydyn nhw am fentro arnoch chi.”

- Les

Nid yw gwaith yn opsiwn i bob person anabl, ond mae llawer o bobl anabl sy'n gallu ac sydd am weithio yn cael eu heithrio o'r gweithle. Mae 56% o bobl anabl nad ydyn nhw'n gyflogedig, a ymatebodd i Arolwg Anabledd y DU, yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' yr hoffent gael rhagor o gymorth i ddod o hyd i swydd.⁴⁶

Mae 7 miliwn o bobl o oedran gweithio ag anabledd neu gyflwr iechyd tymor hir yn y DU,⁴⁷ ond dim ond ychydig dros hanner sydd mewn gwaith.

Mae diwygio deddfwriaethol wedi sbarduno cynnydd. Gwnaeth y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, a gyflwynwyd ym 1995, a'i holynydd sef Deddf Cydraddoldeb 2010 hawliau pobl anabl yn gliriach. Mae yn erbyn y gyfraith i gyflogwyr wahaniaethu yn erbyn unigolyn oherwydd anabledd. Mae'n rhaid i gyflogwr hefyd wneud 'addasiadau rhesymol' i'r ffordd y mae cyflogaeth wedi'i strwythuro.

Yn 2017, gwnaethom osod nod i weld 1 miliwn yn fwy o bobl anabl mewn gwaith erbyn 2027. Yn ystod y tair blynedd ers hynny, mae nifer y bobl anabl mewn gwaith wedi cynyddu 800,000. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r nod heriol o 1 miliwn yn fwy o bobl anabl mewn gwaith ac, ar ôl i ni wneud hynny, byddwn yn gweithio gyda phobl anabl a'u cynrychiolwyr i feddwl sut y gallwn adeiladu ar y llwyddiant hwn.

46 Arolwg Anabledd y DU 2021

47 Arolwg Adnoddau Teulu: blwyddyn ariannol 2019 i 2020



Mae'r bwlch cyflogaeth anabledd wedi culhau'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o 33.8 pwynt canran yn 2014 i 28.6 pwynt canran yn 2021.⁴⁸

Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae gormod o bobl anabl yn dal i gael eu heithrio o'r farchnad swyddi, gan eu gadael yn teimlo bod eu doniau a'u cymwysterau yn cael eu gwastraffu. Llai na hanner (48%) o'r bobl anabl gyflogedig a ymatebodd i Arolwg Anabledd y DU sy'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod eu cyflogwr yn hyblyg ac yn gwneud addasiadau rhesymol digonol i bobl anabl. Dim ond chwarter (24%) sy'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod eu cyfleoedd am ddyrchafiad yr un fath â'u cydweithwyr.

Mae effaith y pandemig COVID-19 ar yr economi hefyd wedi cael effaith ar waith pobl anabl. Mae pobl anabl yn un o'r grwpiau sy'n fwy tebygol o fod wedi profi gostyngiad mewn enillion trwy ddiswyddo, gostyngiad mewn oriau, neu gael eu rhoi ar ffyrlo.⁴⁹

Rydym yn gwybod bod gwaith da yn cefnogi iechyd ac annibyniaeth dda.

“Fel gweithiwr proffesiynol Byddar, mae gwaith wedi fy ngalluogi i gyflawni fy nyheadau a theimlo fy mod yn gwneud cyfraniadau gwerth chweil i gymdeithas. Rwy'n wynebu llawer o heriau, rhwystrau ac uchafbwyntiau ac isafbwyntiau gweithio ar draws cyflogaeth mor heriol. I mi, mae cael Mynediad at Waith wedi bod yn amhrisiadwy, mae hyn yn fy ngalluogi i ddefnyddio cronfa o ddehonglwyr BSL a ffefrir, rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel gweithwyr proffesiynol i sicrhau safonau uchel, ansawdd a chysondeb ar draws fy 2 rôl. Oni bai amdany'n nhw, rwy'n credu y byddai hyn wedi cael effaith niweidiol iawn ar fy mywyd, byddai fy amgylchiadau yn wahanol iawn i'r ffordd rydw i'n byw heddiw.”
- Claire

Rydym yn uchelgeisiol i fynd ymhellach. Byddwn yn:

- nodi cynigion i wella cymorth i bobl anabl ddechrau neu aros mewn gwaith

48 Statws marchnad lafur pobl anabl, SYG, data Ionawr i Fawrth 2021, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021. Mae'r data hwn yn seiliedig ar yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) neu'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS) sydd wedi'u pwysoli i amcangyfrifon a rhagamcanion poblogaeth swyddogol nad ydynt ar hyn o bryd yn adlewyrchu effaith y pandemig coronafeirws (COVID-19). Mae'r cyfraddau a gyhoeddir o'r APS a LFS yn parhau i fod yn gadarn ac yn ddibynadwy, fodd bynnag dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio lefelau a newidiadau mewn lefelau. Mae'r SYG yn dadansoddi'r cyfansymiau poblogaeth a ddefnyddir yn y broses bwysoli ac yn bwriadu ailbwysleisio'r LFS a'r APS yn y dyfodol fel yr amlinellir yn y blog hwn.

49 Blundell, R., Joyce, R., Costa Dias, M. a Xu, X. (2020), COVID-19: effeithiau'r pandemig ar anghydraddoldeb, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Comisiwn Metrigau Cymdeithasol (2020), Tlodi a COVID-19.

- creu Pasbort Addasiadau Mynediad i Waith i gefnogi pobl anabl wrth iddynt drosglwyddo i gyflogaeth, gan gynnwys myfyrwyr anabl sy'n gadael addysg
- annog cyflogwyr i recriwtio, cadw a datblygu eu gweithwyr anabl ac i greu gweithleoedd cynhwysol trwy adolygu Hyderus o ran Anabledd, hyrwyddo'r Fframwaith Adrodd Gwirfoddol ac ymgynghori ar fynd â hyn ymhellach, a lledaenu arfer gorau i gyflogwyr.
- cynyddu gwasanaethau cyflogaeth â chymorth
- cryfhau hawliau yn y gweithle, annog gweithio hyblyg a chyflwyno absenoldeb i ofalwyr, a gwella mynediad at gyngor ar hawliau cyflogaeth i bobl anabl a chyflogwyr
- archwilio gyda phobl anabl pa gymorth ychwanegol fyddai fwyaf defnyddiol i'r rheini sy'n dymuno cychwyn busnes
- hyrwyddo cyfleoedd i bobl anabl yn y gwasanaeth sifil a sicrhau'r cymorth i ffynnu yn y gwaith
- creu rhagor o gyfleoedd i bobl anabl wasanaethu yn y lluoedd arfog a'r asiantaethau

Rhagor o gymorth i bobl anabl ddechrau ac aros yn y gwaith

Rydym am wneud mwy i gefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd i ddechrau ac aros yn y gwaith. I fod yn wirioneddol effeithiol, mae angen ystod o gymorth. Mae hyn yn cynnwys cymorth cynharach ar gyfer dychwelyd i'r gwaith a helpu i aros yn y gwaith lle bo hynny'n bosibl, sicrhau bod ein Canolfannau Gwaith yn ymgysylltu, yn groesawgar ac yn arbenigol, ac yn personoli cymorth i gydnabod nad yw un ateb yn addas i bawb.

Er mwyn lleihau'r siawns y bydd pobl allan o waith yn y tymor hir, bydd DWP yn archwilio cynnig cymorth cynharach a dwysach ar gyfer dychwelyd i'r gwaith mewn Canolfannau Gwaith i bobl cyn eu hasesiad am allu gweithio (WCA).

Byddai'r cymorth hwn yn mynd y tu hwnt i'r 'Sgwrs Iechyd a Gwaith' bresennol y mae pobl yn cymryd rhan ynddi cyn i'w WCA ddigwydd.

Lle mae pobl wedi cwmpo allan o waith yn ddiweddar oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd, gallai Canolfannau Gwaith wneud rhagor i helpu pobl i ystyried cyfleoedd cyflogaeth amgen priodol a chodi ymwybyddiaeth o gymorth mewn gwaith. Gallai hyn gynnwys rhagor o gefnogaeth gan hyfforddwr gwaith unigolyn, yn amlach ac yn gynharach yn yr hawliad.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn edrych ar ystod o opsiynau o barhau i wneud Canolfannau Gwaith yn fwy croesawgar i ofyn beth arall y gellir ei wneud i annog pobl i dderbyn cymorth cyflogaeth yn wirfoddol.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cyflwyno dull newydd o gyflyru ar gyfer pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd, â'r nod o alluogi sgwrs onest ac agored rhwng unigolyn a'i hyfforddwr gwaith am yr hyn y gallant ei wneud.

Y nod yw meithrin ymrwymiad i symud tuag at waith ac i mewn i waith lle bo hynny'n bosibl. Mae hyfforddwyr gwaith yn dechrau trwy weithredu dim gofynion gorfodol ond yn cytuno â'r person ar y camau gwirfoddol y bydd yr unigolyn yn eu cymryd. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, datblygu CV neu chwilio am swyddi addas ar-lein. Gan ddefnyddio eu disgrisiwn, dim ond os oes eu hangen y mae hyfforddwyr gwaith yn gweithredu gofynion gorfodol.

Oherwydd bod iechyd a chyflogaeth yn gysylltiedig, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau am wneud mwy i uno cymorth cyflogaeth â'r gwasanaethau iechyd. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn parhau i adeiladu ar raglenni cyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n darparu cefnogaeth arbenigol i bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd. Ar gyfer pobl â rhwystrau cymhleth sydd angen cymorth dwysach, wedi'i bersonoli, cyflwynodd DWP y rhaglen Cymorth Cyflogaeth Dwys wedi'i Bersonoli (IPES) yn 2019 yng Nghymru a Lloegr.

O Awst 2021, er mwyn diwallu cynnydd a ragwelir yn yr angen am gymorth o ganlyniad i COVID-19, bydd DWP yn cynyddu lleoedd ar IPES o 25%. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd rhagor o bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd yn gallu cyrchu cymorth wedi'i deilwra'n gyflym.

Trawsnewid Mynediad i Waith

Mae Mynediad i Waith yn darparu cymorth i bobl anabl yn y gwaith nad yw'n dod o dan gyfrifoldeb cyflogwyr i wneud addasiadau rhesymol. Gallai hyn gynnwys offer arbennig, gwasanaethau gweithwyr cymorth, neu help i gyrraedd a dychwelyd o'r gwaith.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo i drawsnewid Mynediad i Waith. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio i wneud Mynediad i Waith yn wasanaeth digidol, sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif, sy'n arloesol, yn weladwy ac yn hygyrch. Bydd DWP yn gwella profiad cyflogwyr a phobl anabl o ddefnyddio'r gwasanaeth yn sylweddol - gan gynnwys gwella'r broses dalu i gyflogwyr a symleiddio taith y defnyddiwr.

Mae'r adran eisoes wedi cyflwyno'r gwelliannau canlynol i'r gwasanaeth:

- cymhwysiad Mynediad i'r Gwaith ar-lein 24/7 i alluogi pobl anabl a chyflogwyr i ddewis amser sy'n gyfleus iddynt wneud eu cais
- proses adnewyddu digidol gyda gwasanaeth atgoffa testun neu e-bost i sicrhau parhad cefnogaeth

- proses taith cwsmer Cyfweiliad Cymorth Cyfathrebu sy'n gwbl ddigidol
- canllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer staff Mynediad i Waith, gan sicrhau bod adborth gan randdeiliaid yn cael ei ymgorffori a bod iaith model cymdeithasol yn cael ei defnyddio trwy'r canllawiau i gyd

Rydym yn cydnabod bod yn rhaid inni fynd ymhellach.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio gyda phobl anabl, sefydliadau pobl anabl ac elusennau trwy'r Fforymau Rhanddeiliaid Mynediad i Waith i ddatblygu Pasbort Addasiadau Mynediad i Waith, a fydd yn cael ei dreialu yn ystod 2021.

Bydd y pasbort addasiadau Mynediad i Waith yn rhoi mwy o hyblygrwydd a phontio llyfn rhwng rolau swyddi i bobl anabl. Bydd yn darparu trosolwg dangosol i gyflogwyr o'r cymorth posibl sydd ar gael gan Mynediad i Waith, a fydd yn helpu i adeiladu dealltwriaeth cyflogwyr o anabledd ac addasiadau. Bydd yn trawsnewid taith cwsmer Mynediad i Waith trwy leihau'r angen am asesiadau dro ar ôl tro lle mae anghenion yr unigolyn yn aros yr un fath, yn galluogi trosglwyddiad di-dor ac yn gosod y disgwyliad gyda chyflogwyr y bydd cymhorthion ac offer arbenigol wedi'u teilwra yn dilyn deiliad y pasbort pan fyddant yn newid swyddi.

I brofi'r pasbort, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnal cyfres o gynlluniau peilot gyda:

- pobl ifanc sy'n trosglwyddo o addysg i waith, neu o waith yn ôl i addysg, er enghraifft er mwyn ailhyfforddi neu uwchsgilio
- cyn-filwyr yn gadael y lluoedd arfog
- gweithwyr llawrydd a chontractwyr yn symud rhwng rolau swyddi

Byddwn yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot i lywio datblygiad yn y dyfodol.

Byddwn yn sicrhau bod pasbort ar gael i'r holl fyfyrwyr anabl (gan gynnwys y rhai sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA)), pan fyddant yn gadael y brifysgol.

Bydd hyn yn rhoi'r hyder a'r sicrwydd sydd eu hangen ar bobl ifanc anabl wrth iddynt fynd i fyd gwaith.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo i wella ymwybyddiaeth o Fynediad i Waith. Mae'r adran wedi cyflwyno ymgyrch gyfathrebu â thâl i wneud hyn ac i ehangu'r cyrhaeddiad i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar grantiau. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi dechrau ymdrech o'r newydd i sicrhau bod pobl anabl yn ymwybodol o fanteision Mynediad i Waith.

Bydd DWP yn adolygu effeithiolrwydd yr ymgyrch i sicrhau bod gweithgareddau sydd wedi cyrraedd y cyrhaeddiad mwyaf, yn cael eu dwyn ymlaen mewn ymgyrchoedd yn y dyfodol.

Bydd y pasbort yn helpu i gyflawni ein huchelgais i godi ymwybyddiaeth o Fynediad i Waith mewn ysgolion a phrifysgolion, er mwyn galluogi pobl ifanc anabl i wneud dewisiadau gyrfa gwybodus a chyflawni eu dyheadau.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo i wella'r cynnig i bobl anabl. Mae wedi gweithio'n weithredol gyda rhanddeiliaid a sefydliadau anabledd i raeadru gwybodaeth am Fynediad i Waith ac i sicrhau bod barn pobl anabl yn cael ei chasglu. Arweiniodd y gwaith partneriaeth hwn at gyflwyno cynnig hyblyg newydd yn 2020, gan gynnwys:

- galluogi pobl anabl i weithio'n hyblyg o fwy nag un lleoliad
- pecyn o gymorth gweithio gartref y gellir ei gyfuno â chymorth yn y gweithle
- cefnogaeth lles iechyd meddwl i bobl sy'n dychwelyd i'r gwaith
- cymorth teithio i'r gwaith i'r rheini na fydd efallai'n gallu teithio'n ddiogel ar gludiant cyhoeddus oherwydd natur eu hanabledd

Gan adeiladu ar y cyd-gynhyrchu hwn, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i weld beth arall y gall Mynediad i Waith ei wneud i gefnogi pobl anabl sydd â'r rhwystrau mwyaf sylweddol rhag cyflogaeth. Gan adeiladu ar y dysgu o'n gwaith gyda Busnesau â Chymorth a defnyddio eu profiadau o gynorthwyo gweithwyr anabl, rydym yn awyddus i fynd ymhellach a chael mewnwelediad i sut y gellid defnyddio Mynediad i Waith i agor cyfleoedd cyflogaeth i bobl anabl sydd ag angen addasiadau helaeth i weithio.

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn profi a all darparu cymorth ychwanegol i gyflogwyr, sy'n barod i wneud mwy ac addasu rolau swyddi i'r rheini sydd angen mwy na Mynediad i Waith safonol, agor cyfleoedd gwaith i bobl anabl. Bydd DWP yn rhedeg Prawf Cysyniad i gael mewnwelediad i'r gwahaniaeth y gall y dull hwn ei wneud.

Annog cyflogwyr

Gall cyflogwr cefnogol wneud gwahaniaeth enfawr i bobl anabl.



Mae tua 55% o bobl anabl o oedran gweithio.⁵⁰

50 Arolwg Adnoddau Teulu DWP: blwyddyn ariannol 2019 i 2020

“Doedd gen i ddim syniad fy mod i ar y sbectrwm awtistig nes i mi wyllo rhaglen ddogfen ar Channel 4 o'r enw 'Are you autistic?', roedd yr hyn a welais yn gyfan gwbl wir gyda fy mhrofiadau o fywyd. Fe ddechreuodd hyn fi ar y siwrnai i gael diagnosis. Yna llwyddais i eistedd gyda rheolwr yn Sainsburys, a roddodd gyfle i mi fyfyrto ar fy heriau yn y gwaith, a hefyd edrych ar ffyrdd o wneud fy swydd yn haws. Rwy'n gwisgo amddiffynwyr clust i gael gwared â'r sŵn yn y siop er mwyn osgoi gormod o orlwytho synhwyrdd. Gallaf hefyd adael llawr y siop am oddeutu 10 munud os yw'n mynd yn ormod. Mae hefyd yn ymwneud â chael cyfarwyddiadau clir a phenodol gan bobl i wneud fy ngwaith.”

- Roy

Rydym am i fwy o gyflogwyr wneud y gorau o'r doniau y gall pobl anabl eu cynnig i'r gweithle.

Adolygu Hyderus o ran Anabledd

Mae'r cynllun Hyderus o ran Anabledd yn cynorthwyo cyflogwyr i wneud y gorau o'r doniau y gall pobl anabl eu cynnig. Mae'n rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ar gyflogwyr i ddenu, recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl yn y gweithle. Mae dros 20,000 o gyflogwyr wedi ymgysylltu'n weithredol â'r cynllun Hyderus o ran Anabledd, gan gwmpasu dros 11 miliwn o weithwyr.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynediad cychwynnol Lefel 1 sy'n annog cyflogwyr o bob maint i ddechrau'r siwrnai Hyderus o ran Anabledd. Fodd bynnag, hoffem i fwy o gyflogwyr symud ymlaen trwy'r cynllun a chodi eu huchelgais i Lefelau 2 a 3.

Bydd DWP yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghorwyr Proffesiynol Hyderus o ran Anabledd (PAG) a'r Grŵp Arweinwyr Busnes eleni i adolygu a chryfhau lefelau 2 a 3 y cynllun, i gynorthwyo cyflogwyr i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth pobl anabl.

Bydd yr adolygiad yn ystyried cynnwys lefelau 2 a 3, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfoes, yn gredadwy ac yn ddigon heriol. Bydd hefyd yn archwilio ffyrdd ychwanegol o annog cyflogwyr i symud ymlaen trwy'r cynllun yn effeithiol.

Mae'r cynllun Hyderus o ran Anabledd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ymrwymo i gynnig cyfwelliad i bobl anabl sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd, fel y nodwyd gan y cyflogwr. Fel rhan o'r adolygiad byddwn yn ystyried sut mae'r agwedd hon ar y cynllun yn gweithio'n ymarferol.

Bydd y cynllun yn cael ei ddiweddarau erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Lledaenu arfer gorau i gyflogwyr

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan gyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig (BBaChau), yr wybodaeth a'r cyngor gorau posibl i gefnogi pobl anabl yn y gweithle. Mae cyflogwyr wedi dweud wrthym, mewn ymgynghoriadau diweddar, am ddiffygion yn y cynnig cyfredol. Maent yn adrodd eu bod weithiau'n cael hyn yn doredig, yn anodd ei lywio ac yn anodd ei weithredu yn ymarferol.

Rydym yn gweithio i ddarparu cynnig wedi'i deilwra'n benodol i gyflogwyr, sy'n helpu cyflogwyr i gefnogi gweithwyr mewn ystod o sefyllfaoedd yn y gweithle. Mae'r broses ddylunio hefyd yn cynnwys pobl anabl a busnesau bach a chanolig.

Yn 2021, bydd DWP yn datblygu ac yn profi gwell cynnig gwybodaeth a chynghor i gyflogwyr.

Bydd arfer gorau hefyd yn cael ei rannu trwy Hyderus o ran Anabledd.

Mae cryn dipyn o wybodaeth ar gyfer Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd yn y pecynnau Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac ar GOV.UK. **Bydd y cynnwys hwn hefyd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn 2021 i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cyflogwyr.**

Bydd yr ymdrechion hyn i uno gwybodaeth sydd ar gael i gyflogwyr yn cael eu hategu gan ymdrechion ehangach i hysbysu pobl anabl a chyflogwyr am eu hawliau cyflogaeth.

Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), gan weithio gyda'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (Acas), wedi datblygu hyb cyngor ar-lein newydd. O Orffennaf 2021, ei gylch gorchwyl yw darparu gwybodaeth a chynghor clir, hygyrch ar hawliau cyflogaeth i bobl anabl.

Bydd yr hyb cyngor ar gael i bobl anabl a chyflogwyr, gan ddarparu gwybodaeth a chynghor ar:

- wahaniaethu ar sail anabledd yn y gweithle
- gweithio hyblyg
- hawliau a rhwymedigaethau ynghylch addasiadau rhesymol
- tegwch mewn sefyllfaoedd diswyddo
- cyflyrau iechyd galwedigaethol ac iechyd meddwl

Bydd yr hyb yn darparu cyngor i bobl anabl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, mae cyngor ar gael trwy'r Comisiwn Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Adrodd ar y Gweithlu Anabledd

Gweithiodd DWP gyda chyflogwyr mawr a phartneriaid arbenigol i ddatblygu Fframwaith Adrodd Gwirfoddol, i helpu sefydliadau i gofnodi ac adrodd yn wirfoddol am wybodaeth am anabledd, iechyd meddwl a lles yn y gweithle. Mae wedi'i anelu at gyflogwyr sydd â 250 neu fwy o weithwyr, ond hefyd mae'n agored i gyflogwyr llai sy'n awyddus i ysgogi mwy o dryloywder yn eu sefydliad neu ddiwydiant.

Ym mis Tachwedd 2019, cyflwynodd DWP ofyniad y byddai Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 3) newydd ac sy'n adnewyddu'n adrodd yn ôl y fframwaith.

Mae diddordeb cynyddol mewn gwneud adroddiadau anabledd yn orfodol, yn enwedig i gyflogwyr mawr. Mae diddordeb cynyddol mewn gwneud adrodd am anabledd yn orfodol, yn enwedig i gyflogwyr mawr, wrth gydnabod yr heriau sy'n wynebu busnesau. Er mwyn archwilio hyn ymhellach, byddwn yn ceisio barn rhanddeiliaid ac yn llunio polisi'r dyfodol yn dibynnu ar ganlyniad yr ymarfer hwnnw.

Yn 2021, bydd Swyddfa'r Cabinet yn ymgynghori ar adrodd ar anabledd yn y gweithlu ar gyfer cyflogwyr mawr, gan archwilio tryloywder gwirfoddol a gorfodol yn y gweithle, a bydd yn cyhoeddi set o gamau nesaf.

Bydd yr ymgynghoriad yn ystyried:

- sut y gall cyflogwyr ddeall proffil eu gweithlu yn well o ran anabledd
- defnyddio cwestiwn safonol wrth ofyn i weithwyr am eu statws anabledd
- y math o wybodaeth a data y gallai cyflogwyr eu casglu a ffyrdd o wneud hyn mewn dull safonol
- pa wybodaeth sydd efallai'n cael ei chadw eisoes a materion cost
- offer ac arweiniad i helpu cyflogwyr i adrodd mewn ffordd gyson ac effeithiol
- gwersi a ddysgwyd o'r fframweithiau adrodd presennol
- ffyrdd o gynyddu derbyniad ac ymgysylltu â chyflogwyr i'r eithaf
- yr hyn y gellid adrodd amdano i'r llywodraeth, ac a ddylai'r llywodraeth ei gyhoeddi

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth ac annog manteisio ar y Fframwaith Adrodd Gwirfoddol, gan gynnwys hyrwyddo buddion busnes sy'n gysylltiedig ag adrodd.

Bydd DWP yn hyrwyddo fframwaith a buddion adrodd trwy:

- ddefnyddio ei sianeli cyfryngau cymdeithasol, rhwydweithiau Canolfan Byd Gwaith, a rhwydweithiau a chylchlythyrau cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd

- gweithio gyda phartneriaid ar draws y llywodraeth, megis gyda BEIS a Chyllid a Thollau EM, a chyda'r sectorau preifat a gwirfoddol
- gwahodd cefnogwyr y Fframwaith Adrodd Gwirfoddol i amlinellu eu dull a'r buddion fel y maent yn eu gweld trwy astudiaethau achos

Yn ogystal, byddwn yn amlygu buddion busnes sy'n gysylltiedig ag adrodd yn y gweithlu fel rhan o drafodaethau ehangach ar ddatblygu diwylliannau gweithle cynhwysol, er mwyn annog dull mwy agored.

Ehangu gwasanaethau cyflogaeth â chymorth

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo i ehangu treialon Lleoli a Chymorth Unigol (IPS) llwyddiannus sy'n defnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae IPS yn darparu cymorth i symud pobl â chyflyrau iechyd i mewn i waith yn gyflym, ac yn eu cynorthwyo i aros yno. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn ehangu'r defnydd o'r model lleoli, hyfforddi a chynnal cyflogaeth â chymorth mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol.

Bydd DWP yn ariannu arloeswr cyflogaeth â chymorth lleol, gan weithio gydag 20 awdurdod lleol, y disgwylir iddo ddechrau yn Hydref 2021.

Bydd yr arloeswr yn cynorthwyo oddeutu 1,200 o bobl. Bydd o leiaf 2 ran o dair o'r cyfranogwyr yn bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae pobl ag anableddau dysgu yn wynebu rhwystrau penodol rhag cyflogaeth, gyda dim ond 6% o bobl ag anableddau dysgu mewn gwaith ar hyn o bryd.

Cryfhau hawliau i bobl anabl yn y gweithle

Gall gweithio hyblyg wneud byd o wahaniaeth i bobl anabl.

“Dechreuais fy ngyrfa yn KPMG yn 2014 fel modelwr ariannol. 18 mis yn ddiweddarach cefais strôc enfawr a chefais fy ngadael heb unrhyw deimlad ar fy ochr chwith, gan ddefnyddio cadair olwyn. Mae gwaith wedi bod yn wych o ran fy nghynorthwyo. Roedd fy nychweliad i'r gwaith wedi'i leoli gartref yn wreiddiol ac yna es i yn ôl i'r swyddfa yn rhan amser. Roeddwn yn gweithio o bell cyn COVID-19 ond mae bellach wedi rhoi cyfle imi wneud gwaith rhyngwladol na fyddwn i erioed wedi gallu ei wneud o'r blaen. Rwy'n agored ac yn onest i'r cwmni am fy mhrofiadau o ddydd i ddydd. Rwy'n arwain o'r tu blaen i ddarparu'r llais hwnnw ac i gynorthwyo eraill i fod â hyder i fod yn agored am eu profiadau hefyd. Mae gwaith wedi bod yn un o'r adferiadau gorau. Mae wedi helpu fy hunan-barch ac wedi gwella fy nghof a'm gallu i ganolbwyntio.”

- Tom

Rydym am ei gwneud hi'n haws i bobl anabl weithio'n hyblyg, os hoffent wneud hynny.

Mae'r profiad o weithio gartref yn ystod y pandemig COVID-19 yn dangos pwysigrwydd dewis. Er bod llai o bobl anabl na phobl nad-ydynt yn anabl wedi nodi ei bod yn anodd gweithio gartref (11% i bobl anabl a 21% i bobl nad ydynt yn anabl⁵¹), nid yw gweithio gartref yn addas i bawb.

“Bydd fy nghadair swyddfa addasedig yn cymryd hanner ystafell fyw neu hanner ystafell wely, ac mae gen i eisoes y gadair olwyn yn fy ystafell wely felly nid yw'n gweithio.”

- Diane

Mae BEIS yn adolygu'r hawl statudol i ofyn am weithio hyblyg.

Rydym wedi ymrwmo, yn amodol ar ymgynghoriad, i wneud gweithio hyblyg yn ddiofyn, oni bai bod gan gyflogwyr resymau da dros beidio.

Bydd BEIS yn lansio ymgynghoriad erbyn diwedd 2021 ar wneud gweithio hyblyg yn ddiofyn ym Mhrydain Fawr, oni bai bod gan gyflogwyr resymau da dros beidio.

Cyflwyno absenoldeb di-dâl ar gyfer gofalwr

Rydym yn gwybod bod llawer o bobl sy'n gofalu am bobl anabl yn anffurfiol yn cydbwysu hyn ag ymrwymïadau gwaith.

Mae llawer o gyflogwyr yn gefnogol: mae 54% o ofalwyr cyflogedig a ymatebodd i Arolwg Anabledd y DU yn 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod eu cyflogwr yn gefnogol i'w cyfrifoldebau gofalu, er mai dim ond 26% sy'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod eu cyfleoedd dyrchafiad yr un fath â'u cydweithwyr.

Rydym wedi ymrwmo i gyflwyno hawl i wyliau ar gyfer gofalwyr di-dâl o hyd at 1 wythnos, ac erbyn hyn rydym wedi cwblhau ymgynghoriad.

Bydd BEIS yn nodi'r camau nesaf wrth ddatblygu ymrwymiad y llywodraeth i gyflwyno absenoldeb gofalwyr di-dâl ledled Prydain Fawr erbyn diwedd 2021.

Bydd yr hawl newydd hon yn helpu gofalwyr di-dâl i gydbwysu eu cyfrifoldebau gofalu â chyflogaeth â thâl.

51 **Cyhoeddiad SYG** 'Coronafeirws a'r effeithiau cymdeithasol ar bobl anabl ym Mhrydain Fawr: Chwefror 2021'.

Cynorthwyo entrepreneuriaid anabl

Mae cychwyn a thyfu busnes yn cymryd dewrder, ymrwymiad a llawer o waith caled. Efallai mai'r syniad yw'r rhan hawdd. Creu cynllun busnes, trefnu cyllid, marchnata, adeiladu tîm - bydd y rhestr 'pethau i'w gwneud' yn hir.

Yn gyfnewid am hyn, mae entrepreneuriaid yn mwynhau'r boddhad o wneud eu ffordd eu hunain, ag annibyniaeth a hyblygrwydd.

Mae pobl anabl yn rhannu'r un dyheadau. Rydym am helpu rhagor o bobl anabl i wireddu eu potensial trwy'r llwybr hwn.

Bydd BEIS yn cyhoeddi cynigion erbyn diwedd 2021, i sicrhau bod pob unigolyn anabl sydd am gychwyn busnes yn cael cyfle i wneud hynny.

Bydd y gwaith hwn yn:

- ymdrin â materion gan gynnwys mynediad at gyllid ar gyfer entrepreneuriaid anabl, argaeledd cymorth busnes presennol ac asesiad o'r heriau ychwanegol y mae pobl ag anabledau yn eu hwynebu wrth gychwyn busnes.
- cynnwys ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid ag entrepreneuriaid anabl a rhanddeiliaid anabledd

Cynorthwyo gweision sifil anabl i ffynnu yn y gwaith

Mae'r Gwasanaeth Sifil wedi gwneud cynnydd da fel cyflogwr cynhwysol, er bod heriau'n parhau.



Mae 12.8% o weision sifil yn adrannau llywodraeth y DU yn nodi bod ganddynt anabledd, o gymharu â dim ond 7.6% ddegawd yn ôl a 10% yn 2018.⁵²

52 Monitor Whitehall Sefydliad y Llywodraeth 2021

Mae ymdrechion i gynorthwyo gweision sifil anabl yn well wedi cynnwys cynyddu cynrychiolaeth anabl ar gynlluniau talent a darparu cynllun datblygu pwrpasol ar gyfer gweithwyr anabl, Mae Anabledd yn Grymuso Talent Arweinyddiaeth (DELTA). Byddwn yn parhau i dyfu ein rhaglenni-profiad gwaith-a datblygu sydd wedi ennill sawl gwobr ac i annog adrannau a'r sector cyhoeddus ehangach i gynnig Interniaethau â Chymorth. Ymhlith yr elfennau mae:

- y rhaglen Cyfnewid Awtistiaeth - a dyfodd i dros 90 o leoliadau erbyn 2020
- y rhaglen Interniaethau Amrywiaeth Gynnar - roedd 15% o interniaid yn 2020 yn anabl
- y rhaglen Interniaethau Amrywiaeth Haf - roedd 28% o interniaid yn 2020 yn anabl

Rydym hefyd yn llawn cyffro i fod yn bartner gyda Leonard Cheshire i gynnig interniaethau anabledd yn y gwasanaeth sifil o dan ei gynllun Change 100, yn 2021 a thu hwnt.

Mae Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon (NICS) hefyd yn dangos ei ymrwymiad i sicrhau bod pobl anabl yn cael eu recriwtio, eu cadw a'u symud ymlaen. Mae'r NICS yn cynnal allgymorth wedi'i dargedu mewn partneriaeth â sefydliadau anabledd i annog a hyrwyddo ei gyfleoedd gyrfa i ymgeiswyr anabl. Mae mentrau ychwanegol yn cynnwys y Cynllun Profiadau Gwaith i Bobl ag Anableddau a Strategaeth Pobl NICS, sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo a galluogi dilyniant gyrfa i weision sifil anabl yn well.

Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Chynllun Recriwtio a Chadw ar gyfer Pobl Anabl yn 2019. Mae amrywiaeth recriwtio'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) wedi gwella'n sylweddol. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys trefniadau noddi ar gyfer pob SCS anabl sydd wedi hunanadnabod at ddibenion talent ac un pwynt cyswllt ar gyfer addasiadau. Nododd 34% o'r rhai a oedd yn bresennol yng Nghynhadledd Amrywiaeth Arweinwyr y Dyfodol (2020) eu bod yn anabl. Mae Gwasanaeth Addasiadau'r Gweithle newydd yn cael ei dreialu, a chyflawnir y broses o'i gyflwyno'n llawn ym mis Hydref 2021.

Mae Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Gweithlu Llywodraeth Cymru 2021–2026 yn nodi ei tharged i 20% o'r bobl y mae'n eu recriwtio fod yn anabl erbyn 2026. Mae ganddi darged i hyrwyddo pobl anabl ar gyfradd sy'n fwy na'u cyfran o'r boblogaeth ac mae wedi ymrwymo i ymgorffori'r model cymdeithasol o anabledd. Mae wedi ymrwymo i gael gwared â rhwystrau methodolegol wrth recriwtio. Mae Llywodraeth Cymru yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd a'r adran lywodraethol gyntaf i ymuno â'r Pledge to be Seen gyda Changing Faces.

Mae dilyniant yn parhau i fod yn her. Er bod cynnydd wedi'i wneud, gyda chyfran y gweision sifil anabl, ar lefel uwch y Gwasanaeth Sifil mae'n parhau 3% islaw yr hyn ydyw ar draws y Gwasanaeth Sifil cyfan.⁵³

53 Monitor Whitehall Sefydliad y Llywodraeth 2021

“ Rwyf wedi cael problemau symudedd ers genedigaeth ond roeddwn bob amser yn canolbwyntio ar yr hyn y gallaf ei wneud yn hytrach na'r hyn na allaf. Rwyf wedi cyflawni amrywiaeth eang o rolau gweithredol yn (ein sefydliad), gan gynnwys swydd dramor mewn amgylchedd gelyniaethus. Ar hyn o bryd rwy'n arwain tîm prosiect mawr ac rwy'n hyfforddwr hyfforddedig. Dim ond pan fydd pobl wedi gwneud rhagdybiaethau am fy ngalluoedd yr wyf wedi teimlo'n anabl. Rwy'n gobeithio ymgymryd â rolau arwain ychwanegol sy'n hyrwyddo'r pethau a helpodd fi i berfformio ar fy ngorau - didwylledd i ystyried ffyrdd amgen o wneud pethau a phwyslais ar adeiladu timau sy'n harneisio gwahanol sgiliau a phrofiadau bywyd.”

- Jess

Byddwn yn mynd ymhellach i gynorthwyo gweision sifil anabl i ffynnu yn y gwaith.

Bydd holl adrannau llywodraeth y DU yn:

- **annog a chynorthwyo rhwydweithiau anabledd yn y gweithle, i siarad am faterion anabledd, newid canfyddiadau ac annog ymddygiad cynhwysol**
- **cyflawni a chynnal y lefel uchaf o achrediad Hyderus o ran Anabledd, ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus mawr eraill**
- **sicrhau cymorth ymatebol ac amserol i ddiwallu anghenion addasu'r gweithle. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddi arweinwyr a rheolwyr a sicrhau bod arweiniad clir a hygyrch ar waith erbyn dechrau 2022**
- **datblygu a gwreiddio gweithio hyblyg fel ei fod:**
 - **yn helpu pobl anabl i ffynnu a symud ymlaen yn eu gyrfaedd**
 - **yn gweithio i bob gwas sifil**
 - **yn diwallu anghenion y Gwasanaeth Sifil**

Erbyn mis Medi 2021, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) yn cyhoeddi cynllun i ddod â rhagor o bobl anabl i'r gweithlu sifil - i gyrraedd ei tharged o 15.3% - erbyn 2030.

Mae gweision sifil yn sifiliaid sy'n gweithio ochr yn ochr â phersonél milwrol, yn y DU neu dramor ar benodiadau neu leoliadau gweithredol.

Rhagor o gyfleoedd i bobl anabl wasanaethu mewn Amddiffyn a'r asiantaethau diogelwch

Rydym am i bobl anabl gael cyfle i wasanaethu yn y lluoedd arfog a'r asiantaethau, yn ogystal ag yn y Gwasanaeth Sifil.

Rydym yn croesawu pawb sydd â'r sgiliau a'r tueddfryd yr ydym yn eu ceisio.

Mae hynny'n ymestyn i'r gymuned gudd-wybodaeth. Bydd pob un o'r 3 asiantaeth ddiogelwch - MI5, MI6 a GCHQ - yn sicrhau y bydd ein gweithlu'n gwbl gynrychioladol o'r gymdeithas ehangach yr ydym yn ei gwasanaethu erbyn 2030.

Bydd MI6 yn ymdrechu i sicrhau, erbyn 2025, bod 9% o'r sefydliad yn cael eu tynnu o'r rhai sy'n nodi eu bod yn anabl - yn gyffredinol ac ar bob graddfa.

Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn arwain trwy esiampl, gan greu rhagor o gyfleoedd i bobl anabl wasanaethu fel:

- gwasanaethwyr wrth gefn - **bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn archwilio sut i gynyddu cyfleoedd i bobl anabl i wasanaethu fel rhan o'r lluoedd arfog wrth gefn⁵⁴ erbyn diwedd 2023, gan gynnwys:**
 - **hyrwyddo gwell defnydd o filwyr wrth gefn anabl ar gyfer rolau priodol ar draws y lluoedd arfog**
 - **gwarantu cyfweiliadau i filwyr wrth gefn anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol wrth recriwtio ar gyfer y rolau hynny**
- lluoedd arfog - **erbyn 2025, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyflwyno Rhaglen Recriwtio'r Lluoedd Arfog i recriwtio personél milwrol mwy amrywiol, gan gynnwys pobl anabl**

Byddwn yn arbrofi gyda recriwtio personél milwrol mwy amrywiol i'r Llu Seiber Cenedlaethol newydd, gan ei ddefnyddio fel braenarwr ar gyfer y cynwysoldeb cynyddol hwn.



54 Y rhai yn y categori cyflogaeth 'Grŵp D'.



Addysg: sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial

Gall y diwrnod ysgol fod yn heriol i rai plant anabl. Yn y DU, mae 8% o blant yn anabl fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.⁵⁵

“Pan oeddwn i yn yr Adran Iau yn yr Ysgol Gynradd roedd gennym ystafell gotiau lle roeddem yn hongian ein cotiau. Oherwydd fy mod yn fyr, ni lwyddais i gyrraedd y pegiau felly rhoddwyd peg yn is i mi ar y wal. Er fy mod yn ddiolchgar iawn am hyn, roedd yn golygu bod fy mheg wedi aros yn yr un lle am yr holl flynyddoedd roeddwn i yn yr Adran Iau. Bob blwyddyn byddem yn symud i fyny llinell yn yr ystafell gotiau, wnes i ddim erioed. Roedd hyn yn golygu fy mod wedi colli allan ar yr holl siarad a oedd yn mynd ymlaen yn yr ystafell gotiau gyda fy nghyd-ddisgyblion. Roeddwn bob amser yn y llinell ar gyfer blwyddyn 3 hyd yn oed pan oeddwn ym mlwyddyn 4, 5 a 6.”

- Donna

Er gwaethaf cynnydd, mae gwahaniaeth mawr o hyd yn y cymwysterau a gyflawnir.⁵⁶ Roedd gan 23% o bobl anabl radd neu gyfwerth yn 2020, o'i gymharu â 39.7% o bobl nad-ydynt yn anabl.



Dywedodd 38% o bobl anabl a ymatebodd i Arolwg Anabledd y DU fod pryderon am farn pobl eraill wedi eu hatal rhag dilyn addysg.⁵⁷

⁵⁵ <https://www.gov.uk/government/statistics/family-resources-survey-financial-year-201819>

⁵⁶ Anabledd ac Addysg: DU 2020

⁵⁷ Arolwg Anabledd y DU 2021

“ Un o'r pethau mwyaf y mae'r Brifysgol Agored wedi'i roi imi yw cred ynof fy hun ac yn fy ngweithredoedd a'm gallu fy hun. Pan ddywedon nhw na fyddwn i, wnes i ddim. Pan gredais y gallwn i, fe wnes i. Rwy'n credu bod gen i'r gallu i ennill rhagoriaeth, os nad hynny, dosbarth cyntaf o leiaf. Rwy'n mynd i brofi i'r byd nad yw pobl ag ADHD yn 'dwp' na'n 'wirion'. Maen nhw'n niwroamrywiol. Rwyf am fod yn dyst i'r holl bobl ag anableddau dysgu y dywedwyd wrthynt “ni fyddwch byth yn cyflawni unrhyw beth” a phrofi iddynt hwy a chymdeithas fel arall.”

- Amy

Mae mwy na hanner y plant a phobl ifanc anabl hefyd yn bodloni'r diffiniad o fod ag 'anghenion addysgol arbennig' (AAA). Mae lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yn darparu cymorth ychwanegol i'r rheini ag AAA i'w helpu i gyrraedd eu potensial llawn a pharatoi'n effeithiol ar gyfer bod yn oedolion. Rydym wedi ymrwymo i wella profiadau i blant a phobl ifanc ag AAA ac anableddau yn y lleoliadau hyn, yn ogystal â chynorthwyo myfyrwyr anabl yn y brifysgol yn well.

Byddwn yn mynd ymhellach yn y ffyrdd a ganlyn:

- gwella cymorth i blant a phobl ifanc yn Lloegr ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND) yn y flwyddyn ariannol 2021 i 2022, gan gynnwys:
 - cwblhau adolygiad eang i wella canlyniadau
 - £730 miliwn yn ychwanegol o gyllid refeniw anghenion uchel ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion mwy cymhleth
 - £300 miliwn yn ychwanegol i wella'r ddarpariaeth ysgol a hygyrchedd presennol
- hybu datblygiad proffesiynol ar gyfer y rhai sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc gyda SEND
- cefnogi gwelliannau i'r rhaglen interniaethau â chymorth
- cynyddu nifer y bobl anabl sy'n mynd i brentisiaethau a sicrhau bod y rhai sy'n cychwyn prentisiaeth yn mynd ymlaen i ffynnu

Cyflwyno Adolygiad AAAA

Gwnaeth DfE newidiadau radicalaidd i'r system AAAA yn Lloegr yn 2014. Roedd y newidiadau hyn yn estyn cefnogaeth i bawb 25 oed ac iau ac yn anelu at wella canlyniadau trwy roi'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yng nghanol y system.

Er gwaethaf buddsoddiad mawr, ac arfer da a ysgogwyd gan y diwygiadau hyn, nid yw plant a phobl ifanc anabl yn profi gwell canlyniadau yn barhaus.

Lansiodd DfE adolygiad mawr o'r system AAAA i archwilio sut y gellir gwneud gwelliannau ychwanegol.

Bydd DfE yn ymgynghori ar welliannau i'r system SEND trwy'r adolygiad SEND.

Bydd adolygiad AAAA yn canolbwyntio ar wella cymorth a pharatoi plant a phobl ifanc anabl ar gyfer bod yn oedolion cyflawn. Rydym am:

- nodi anghenion yn gynnar a mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl
- egluro rolau a chyfrifoldebau pob parti sy'n ymwneud â'r system AAAA, ar draws addysg, iechyd a gofal, a gyda chynnig clir mewn addysg brif ffrwd
- darparu mynediad cyflymach a symlach i Gynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal i'r rhai sydd eu hangen

Ar y cyd, dylai'r mesurau hyn wella profiad teuluoedd o gael cymorth a gwella canlyniadau, yn ogystal â gwneud y system yn fwy cynaliadwy a gwydn.

“ Mae fy ysgol bob amser wedi ymdrechu i'm cynnwys mewn gwersi: anfon cynlluniau gwersi cyn y wers fel y gellir eu gwneud yn fwy hygyrch; gosod cwestiwn i mi ar ddechrau'r wers i roi digon o amser imi ysgrifennu fy ateb ac addasu profion fel y gellid asesu lefel fy nealltwriaeth heb ormod o ailadrodd. Gall defnyddio bwrdd sillafu i ddweud popeth rydw i am ei ddweud fod yn flinedig iawn, ond gyda'r newidiadau hyn rwy'n teimlo y gallaf gyfrannu fel aelod gwerthfawr o'r dosbarth.”

Jonathan, 14 oed

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) newydd. Mae Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru) yn allweddol i'r rhaglen drawsnewid ADY. Yn canolbwyntio ar y dysgwr, mae'n gwneud y system yn fwy teg, symlach a llai gwrthwynebus ac yn cyflwyno Cynlluniau Datblygu Unigol (IDP) statudol newydd. Mae gweithredu fesul cam yn dechrau ym mis Medi 2021, gyda phecyn cyllido gwerth £20 miliwn.

Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban a Chonfensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban gynllun gweithredu ar y cyd (2020) mewn ymateb i adolygiad annibynnol o gymorth a dysgu (ASL) ychwanegol. Mae'r cynllun yn nodi cyfres o gamau sy'n mynd i'r afael ag argymhellion adolygu a gwella profiadau plant a phobl ifanc anabl ag anghenion cymorth ychwanegol, gan gynnwys plant a phobl ifanc anabl. Adroddir ar y cynnydd ym mis Hydref 2021.

Cyllid ar gyfer addysgu'r rheini ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau cymhleth

Mae cyllid Anghenion Uchel yn hynod bwysig: mae'n cynorthwyo'r rheini ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau cymhleth (AAAA) hyd at 25 oed. Mae hefyd yn cynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg tra'u bod yn yr ysbyty.

Mae'r Adran Addysg yn darparu £730 miliwn yn ychwanegol o gyllid refeniw parhaus i blant a phobl ifanc sydd â AAAA cymhleth yn ystod y flwyddyn ariannol 2021 i 2022. Mae hyn yn golygu y bydd cyfanswm y dyraniad cyllid anghenion uchel wedi codi 24% mewn 2 flynedd i dros £8 biliwn eleni.

Buddsoddi mewn hygyrchedd a gallu ysgolion

Rydym wedi buddsoddi £365 miliwn dros y cyfnod 2018 i 2021 i greu lleoedd ysgol newydd a gwella'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer plant ag AAAA. Mae 59 o ysgolion arbennig newydd am ddim i blant ag AAAA cymhleth wedi cael eu hagor ac mae 75 arall ar y gweill.

Mae'r Adran Addysg yn buddsoddi £300 miliwn arall i greu lleoedd, gwella'r ddarpariaeth bresennol mewn ysgolion a gwneud addasiadau hygyrchedd i blant a phobl ifanc sydd ag AAAA yn y flwyddyn ariannol 2021 i 2022.

Hyfforddiant ar gyfer pob ysgol a choleg i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag AAAA

Rydym am i ragor o blant a phobl ifanc ag AAAA gael eu hanghenion wedi'u bodloni heb fod angen cynllun Addysg, Iechyd a Gofal.

Mae'r Adran Addysg yn darparu cyllid o hyd at £3.82 miliwn yn y flwyddyn ariannol 2021 i 2022 i gynnig datblygiad proffesiynol parhaus i staff mewn ysgolion a cholegau yn benodol wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag AAAA.

Hyfforddi rhagor o seicolegwyr addysgol

Mae seicolegwyr addysgol yn chwarae rhan allweddol wrth helpu disgyblion ag AAAA, gan gynghori a chynorthwyo ysgolion a cholegau, a darparu mewnbwn beirniadol i gynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal.

Mae DfE yn cyfrannu £9.3 miliwn yn y flwyddyn ariannol 2021 i 2022 i ariannu hyfforddiant rhagor o seicolegwyr addysgol, gan gynyddu nifer y seicolegwyr addysgol dan hyfforddiant bob blwyddyn i dros 200.

Bydd hyfforddeion ychwanegol o'r rhaglen hon yn dechrau ymuno â'r gweithlu yn hydref 2021, wrth iddynt dreulio ail a thrydedd flwyddyn eu hyfforddiant yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Cynnwys teuluoedd plant ag AAAA wrth ddylunio gwasanaeth

Mae'r Adran Addysg wedi ymrwymo i gynnwys rhieni a phobl ifanc wrth ddylunio polisïau a gwasanaethau AAAA. Mae hyn yn helpu i greu system sy'n canolbwyntio ar anghenion teuluoedd, gan gynyddu hyder yn y gwasanaethau y mae teuluoedd yn eu defnyddio.

Mae'r Adran Addysg yn darparu cyllid o £8.6 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022 i gryfhau cyfranogiad rhieni a phobl ifanc yn y system AAAA, trwy sicrhau bod ganddynt lais wrth ddylunio polisïau a gwasanaethau, a bod ganddynt fynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd uchel.

Mae hyn yn cynnwys darparu hyd at £17,500 ar gyfer pob fforwm Rhieni Gofalwyr yn Lloegr, sy'n cynrychioli cynnydd o £2,500 o gymharu â blwyddyn ariannol 2021 i 2022.

Trawsnewidiadau llyfn i fod yn oedolion

Rydym am i bobl ifanc anabl gael eu cynorthwyo a chael profiadau cadarnhaol wrth iddynt drosglwyddo i fod yn oedolion. Mae hwn yn parhau i fod yn gyfnod heriol i lawer.

Nid yw person anabl â gradd yn fwy tebygol o fod mewn gwaith o hyd na pherson nad yw'n-anabl pan mai ei gymhwyster uchaf yw TGAU.⁵⁸

58 Cyflogaeth pobl anabl 2019

Mae paratoi pob plentyn ac unigolyn ifanc ag AAAA ar gyfer bod yn oedolion yn rhan allweddol o'r system AAAA. Disgwylir i'r rhai sy'n cynorthwyo pobl ifanc ag anableddau fod yn uchelgeisiol ynghylch y canlyniadau y gallant eu cyflawni a chanolbwyntio ar sicrhau eu bod yn gallu byw fel eu cyfoedion trwy eu cynorthwyo: i fynd i addysg uwch neu gyflogaeth; gallu byw'n annibynnol; i fod yn rhan o gymdeithas ehangach; ac i fod mor iach â phosib.

Gall pobl ifanc ag AAAA gyrchu'r cymorth canlynol:

- bydd dros 1,500 o gynghorwyr Canolfannau Gwaith mewn ysgolion yn cynghori ar sgiliau, hyfforddiant a llwybrau galwedigaethol i fyd gwaith
- Arweinydd Gyrfaedd mewn ysgol neu goleg a all helpu gyda chynlluniau gyrfaedd ac ymgysylltu â chyflogwyr i ddarparu profiadau o'r gweithle
- y Gwasanaeth Gyrfaedd Cenedlaethol yn Lloegr sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd am ddim ar swyddi a gyrfaedd
- cronfa gynhwysiant rhaglen y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol sy'n rhoi cefnogaeth ychwanegol i staff arbenigol, offer a theithio
- mae'r Lwfans Myfyrwyr Anabl yn helpu myfyrwyr anabl gyda'r costau ychwanegol y gallent eu hwynebu mewn addysg uwch oherwydd eu hanabledd. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â thechnoleg a meddalwedd gynorthwyol a hygyrch, teithio, a darparu cymorth anfeddygol mwy arbenigol, megis dehongli laith Arwyddion Prydain a chymorth sgiliau astudio arbenigol
- mae gan y Comisiwn Myfyrwyr Anabl ffocws ar wella cyflogadwyedd myfyrwyr anabl

Mae'r cynnydd yn parhau tuag at ddileu'r bwlch mewn canlyniadau gradd (cyflawni 1af neu 2:1au) rhwng myfyrwyr anabl a myfyrwyr nad ydynt yn anabl erbyn 2024-25. Mae hwn yn Fesur Perfformiad Allweddol ffurfiol ar gyfer y Swyddfa Myfyrwyr, rheoleiddiwr addysg uwch yn Lloegr.

Mae ein hymrwymiad i wella profiadau pontio ar gyfer pobl ifanc anabl yn barhaus, ac wedi'i gryfhau ar gyfer 2021 i 2022 yn y ffyrdd a ganlyn.

Cefnogi llwybrau at gyflogaeth

Mae gwella llwybrau pobl ifanc anabl at gyflogaeth yn rhan annatod o'n cynlluniau i adeiladu'n ôl yn well, ac adeiladu'n ôl yn decach, o'r pandemig COVID-19.

Byddwn yn parhau i weithio i sicrhau y gall pobl ifanc anabl ddilyn rhaglenni astudio o ansawdd uchel, gyda llwybrau clir i addysg uwch a chyflogaeth. Rydym eisoes wedi amlinellu ein cynlluniau i sicrhau bod pasbort ar gael i bob myfyriwr anabl (gan gynnwys y rhai sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA)), pan fyddant yn gadael y brifysgol.

Mae interniaethau â chymorth yn rhaglen astudio yn y gwaith, lle mae pobl ifanc yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn gweithio gyda chyflogwr. Maent yn helpu pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed gyda chynllun Addysg, Iechyd a Gofal i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith fel y gallant gael swydd.

Bydd DfE yn gwella interniaethau â chymorth yn Lloegr, gan gynnwys diweddaru canllawiau, datblygu fframwaith ansawdd hunanasesu, a helpu awdurdodau lleol i ddatblygu fforymau cyflogaeth â chymorth lleol erbyn Mawrth 2022.

Rhaglen ddysgu yw hyfforddeiaethau gyda phrofiad gwaith sy'n darparu trosglwyddiad â chymorth i brentisiaeth, swydd arall neu ddysgu ychwanegol. Mae'r llywodraeth wedi buddsoddi yn yr ehangiad mwyaf erioed o hyfforddeiaethau - £111 miliwn yn y Cynllun ar gyfer Swyddi ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021 i 2022 a £126 miliwn yng nghyllideb mis Mawrth ar gyfer 2021/22.

Mae gan hyfforddeiaethau hanes o gynorthwyo pobl ifanc ag anabledd. Maent wedi'u hanelu at bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed (neu 25 sydd â chynllun Addysg, Iechyd a Gofal (EHC) sydd angen cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Yn 2019 i 2020, datganodd 23% o bobl a gychwynnodd hyfforddeiaeth anhawster dysgu neu anabledd.⁵⁹

Bydd yr Adran Addysg yn gwerthuso effaith y buddsoddiad hwn o £237 miliwn mewn hyfforddeiaethau ar bobl ifanc ag AAAA erbyn Gorffennaf 2022.

Byddwn hefyd yn ystyried beth arall y gallwn ei wneud i gynorthwyo prentisiaid anabl. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cynyddu cyfran y prentisiaid anabl yn dilyn Adolygiad Maynard yn 2016 ac adroddiad Access All Areas Mencap yn 2019.



Cafodd 12.5% o brentisiaethau a gychwynnodd yn 2020 eu cychwyn gan bobl anabl

Bydd DfE yn mynd ymhellach. Nid yn unig rydym am gynyddu nifer y bobl anabl sy'n mynd i brentisiaethau, rydym am sicrhau bod y rhai sy'n cychwyn prentisiaeth yn mynd ymlaen i ffynnu. Ein huchelgais yw i ragor o bobl anabl ymgymryd â phrentisiaeth a'i chyflawni.

⁵⁹ Prentisiaethau a hyfforddeiaethau, Blwyddyn Academaidd 2019–20 - Archwilio ystadegau addysg

Bydd yr Adran Addysg yn gweithio gyda Rhwydwaith Hyrwyddwyr Amrywiaeth Prentisiaethau cyflogwyr, y Rhwydwaith Prentisiaid Anabl a'r sector anabledd i ddeall y rhwystrau cyfredol y gallai pobl eu hwynebu wrth ymgymryd â phrentisiaeth, yr hyn sy'n gweithio ac i gyd-ddatblygu atebion. Bydd hyn yn cynnwys buddion o hyblygrwydd a chymorth sydd ar gael i'r rheini sydd â chynllun Addysg, Iechyd a Gofal. Cyhoeddir canfyddiadau yn ystod Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau (NAW) ym mis Chwefror 2022.

Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o brentisiaethau a hygyrchedd i bobl anabl, bydd yr Adran Addysg yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau ar yr adolygiad Hyderus o ran Anabledd ymhlith gyflogwyr i ystyried y buddion y gall eu darparu i brentisiaid; ac ar brosesau ar gyfer atgyfeirio pobl - yn enwedig y rhai ag anabledd - i brentisiaethau.

Bydd yr Adran Addysg yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, prentisiaid anabl, cyflogwyr, darparwyr a sefydliadau ac elusennau pobl anabl wrth i'r Pasport Mynediad at Waith gael ei dreialu yn ystod 2021 fel bod prentisiaid yn elwa o'r gwelliannau a wneir. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn ystyried cysylltiadau â hygyrchedd llinellau eraill o gymorth a ariennir ar gyfer prentisiaid anabl.

Bydd DfE hefyd yn cryfhau ansawdd prentisiaethau ymhellach, gan ganolbwyntio'n benodol ar gulhau'r bwlch cyflawniad rhwng y rhai sy'n datgan a'r rhai nad ydynt yn datgan anabledd: gan gynnwys trwy raglen datblygu gweithlu ar gyfer darparwyr prentisiaethau a chymorth i gyflogwyr.

Bydd yr adran hefyd yn ymgynghori ar beth arall y gallwn ei wneud i gryfhau llwybrau i gyflogaeth yn Lloegr.



Siopa: creu rhagor o ddewis a chyfleustra i ddefnyddwyr

Yn rhy aml, gall pobl anabl brofi dewis cyfyngedig wrth siopa am nwyddau a gwasanaethau, naill ai'n pori'r stryd fawr leol neu'n chwilio ar-lein am fargen well ar gyfleustodau.

“Rwyf bob amser yn gofyn a yw bwytaf yn hygyrch ond trwy'r amser rwy'n cael y cyngor anghywir. Mae'n teimlo ei bod hi'n amlwg i mi beth mae'n ei olygu i fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ond mae'n amlwg nad yw rhai pobl hyd yn oed yn gwybod beth mae'n ei olygu.”

- Diane

Mae llawer o fusnesau ar strydoedd mawr y DU yn anhygyrch i ddefnyddwyr anabl. Roedd yr adeiladau yr oedd ymatebwyr anabl i Arolwg Anabledd y DU yn amlaf wedi methu â'u cyrchu neu wedi cael anhawster eithafol i gael mynediad atynt yn siopau a chanolfannau siopa (78%) a thafarndai, bariau, bwytaf a chaffis (66%).

Gall siopa ar-lein fod yn brofiad yr un mor rhwystredig. Nid oedd 98% o'r miliwn o dudalennau gwe yr ymwelwyd â hwy fwyaf yn diwallu safonau hygyrchedd⁶⁰ ac mae 69% o ddefnyddwyr rhyngrwyd anabl yn clicio i ffwrdd o wefannau sydd â rhwystrau.⁶¹

Roedd mynediad at hanfodion yn broblem i lawer o bobl anabl yn ystod pandemig COVID-19.



Nododd pobl anabl yn amlach fod coronafeirws wedi effeithio ar fynediad at fwydydd, meddyginiaeth a hanfodion na phobl nad oeddent yn anabl (27% o gymharu â 12%).⁶²

60 WebAIM. 2020. The Webaim Million: Dadansoddiad o'r 1,000,000 o Dudalennau Hafan Gorau

61 Arolwg Click-Away Pound (2019)

62 Cyhoeddiad SYG 'Coronafeirws a'r effeithiau cymdeithasol ar bobl anabl ym Mhrydain Fawr: Chwefror 2021'.

“Oherwydd na allem ddeall gwneud siopa bwyd ar-lein, ni allem ddeall y dechnoleg. Nid oedd ein dyfeisiau a oedd gennym ar y pryd yn ffafriol ar gyfer ceisio gwneud siopa bwyd arnynt. Ac yna ar ôl i chi fynd arnynt, nid oedd lleoedd, dim slotiau danfon. Felly, fe wnaethon ni roi'r gorau i hynny yn gyflym.”

- Jessica

Mae'n anodd dweud a wnaed cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae safonau dylunio rhyngwladol ar gyfer hygyrchedd wedi gwella dyluniad rhai cynhyrchion (er enghraifft, ffonau symudol), ond nid yw defnyddwyr anabl wedi cael eu harolygu'n ddigon aml am eu profiadau o fanwerthu⁶³ i werthuso effaith hyn ar brofiadau pobl anabl o ddydd i ddydd o fanwerthu.

Er mwyn hyrwyddo defnyddwyr anabl a helpu i wneud y DU y lle mwyaf hygyrch yn y byd i fyw a gweithio gyda thechnoleg, byddwn yn:

- gwneud strydoedd mawr yn fwy hygyrch
- cyflymu'r broses o gyflenwi toiledau Changing Places yn Lloegr
- archwilio her technoleg gynorthwyol newydd
- archwilio sut i wella hygyrchedd gwefannau'r sector preifat
- penodi rhagor o arweinwyr busnes i hyrwyddo hygyrchedd yn eu sectorau

Rydym am wneud mwy yn y tymor hir. Mae'r Uned Anabledd yn cydnabod potensial enfawr gweithredu yn y maes hwn a bydd yn blaenoriaethu gwaith traws-lywodraethol ychwanegol yn 2021 i 2022.

Fel cam cyntaf, byddwn yn gwella'n dealltwriaeth o brofiadau pobl anabl wrth gyrchu cynhyrchion a gwasanaethau yn y DU. Bydd hyn yn cynnwys comisiynu ymchwil ac archwilio'r costau ychwanegol y gallai rhai pobl anabl eu hwynebu.

Bydd BEIS a Swyddfa'r Cabinet yn sefydlu Tasglu Costau Ychwanegol, gan ddod â phobl anabl, rheoleiddwyr a busnesau ynghyd, i ddeall yn well y costau ychwanegol y mae pobl anabl yn eu hwynebu, gan gynnwys sut y gellir dadansoddi hyn ar gyfer gwahanol namau - erbyn haf 2022.

Gan ddatgloi symudedd ac annibyniaeth cynyddol i lawer o bobl anabl, mae Motability wedi dangos un ffordd yn unig y gellir lleihau costau i bobl anabl, trwy bartneriaethau diwydiant cryf ac arbedion maint.

Trawsnewid hygyrchedd ein trefi a'n strydoedd mawr

Rydym am i'n strydoedd mawr a chanol ein trefi fod yn groesawgar ac yn hygyrch i bawb. Ac eto i lawer o bobl anabl, gallant fod yn gwrs rhwystrau.

63 Eskyté, I. (2019). Anabledd a Siopa: Cwsmeriaid, Marchnadoedd a'r Wladwriaeth. Routledge.

“ Mewn gwirionedd, o ran gwasanaethau corfforol, siopa am ddillad, yn bersonol, rwy'n ei chael hi'n hunllef llwyr. Os ydw i'n defnyddio fy sgwter neu fy nghadair olwyn i symud o gwmpas neu hyd yn oed ar faglau, rwy'n gweld bod y gofod corfforol gwirioneddol rhwng eiliau a rhwng rheiliau dillad naill ai'n rhy uchel, o amgylch y siop, does dim digon o hygyrchedd i fynd o gwmpas o gwbl.”

- Ymatebydd Arolwg Anabledd y DU

Wrth ymateb i Arolwg Anabledd y DU, cafodd bron i draean (31%) o bobl anabl sy'n defnyddio mannau cyhoeddus ei bod yn anodd 'trwy'r amser' neu'n 'aml'.

Mae nid yn unig yn anghyfiawnder cymdeithasol ond yn golled enfawr o bosibl i fusnesau'r stryd fawr. Mae un amcangyfrif yn rhoi grym gwario pobl anabl a'u teuluoedd ar £274 biliwn.⁶⁴

Mae'r Adran Drafnidiaeth yn cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn Lloegr, y cyfeirir atynt hefyd mewn gweinyddiaethau datganoledig, ar seilwaith hygyrch i gerddwyr a thrafnidiaeth. Byddwn yn cryfhau ein canllawiau yn 2021.

Bydd DfT yn diweddarau canllawiau Symudedd Cynhwysol a chanllawiau Defnyddio Arwynebau Palmant Cyffyrddadwy yn 2021, a chanllawiau ar ddylunio strydoedd i bobl (Llawlyfr ar gyfer Strydoedd) yn ystod 2022.

Yn ogystal â chryfhau ein canllawiau ar gyfer strydyluniau presennol, byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn annog prosiectau newydd sy'n cynyddu hygyrchedd y stryd fawr.

Bydd MHCLG yn ystyried sut y gallwn gynorthwyo prosiectau a fydd yn cynyddu hygyrchedd y stryd fawr i bobl anabl, trwy ddylunio unrhyw gyllid twf lleol yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fwrw ymlaen ag argymhellion i gyflwyno Tystysgrifau Mynediad ar gyfer adeiladau cyhoeddus - gan gynnwys siopau, allfeydd bwyd, clybiau chwaraeon, tafarndai a swyddfeydd ynghyd â gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn dilyn y ddeiseb 'Sgoriau ar y Drysau'.

Ni ddylai lle mae pobl yn siopa, neu'n mynd allan gael ei bennu gan eu hanabledd.

64 <https://wearepurple.org.uk/the-purple-pound-infographic/>

“Teithiais am bump awr yn ceisio dod o hyd i doiled hygyrch a oedd a) yn agored, a b) yn hygyrch (nid ar draws maes parcio graean neu i fyny grisiau). Yn aml, defnyddir toiledau hygyrch fel cypyrddau storio nwyddau glanhau. Rwy'n credu y dylid rhoi'r gorau i'r arfer hwn gan fod fy ngŵr yn aml yn gorfod clirio pethau er mwyn i mi gael mynediad, sy'n chwithig ac yn ddiraddiol.”

- Ymatebydd Arolwg Anabledd y DU

Mae toiledau Changing Places yn cynnig cyfleusterau mwy, â chymorth i bobl anabl na allant ddefnyddio toiledau hygyrch safonol.

Mae newid mawr i reolau adeiladu yn Lloegr yn golygu ei bod bellach yn orfodol cynnwys toiled Changing Places mewn rhai adeiladau cyhoeddus newydd, gan gynnwys canolfannau siopa, archfarchnadoedd, sinemâu, stadia a lleoliadau celfyddydau sydd â lle i 350 o bobl neu fwy. Disgwyliwn i hyn ychwanegu'r cyfleusterau hanfodol hyn at fwy na 150 o adeiladau newydd y flwyddyn, sy'n golygu y bydd gan filoedd o bobl anabl ragor o fynediad i fannau cyhoeddus.

Bydd MHCLG yn sicrhau bod £30 miliwn ar gael o haf 2021 i gyflymu'r broses o gyflenwi toiledau Changing Places mewn adeiladau presennol yn Lloegr.

Byddwn hefyd yn gwella darpariaeth ymhellach ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth, yn ogystal ag mewn gorsafoedd gwasanaeth ar draffyrdd.

Bydd DfT yn ymestyn ei raglen Changing Places trwy sicrhau bod £450,000 arall ar gael ar gyfer toiledau Changing Places i gynorthwyo pobl anabl sy'n defnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach, ar ben y £2.2 miliwn a fuddsoddwyd eisoes mewn gorsafoedd gwasanaeth ar draffyrdd yn Lloegr.

Bydd y rhaglen estynedig yn cael ei darparu mewn partneriaeth â Muscular Dystrophy UK, cyd-gadeiryddion y Consortiwm Changing Places.

Mewn ymgais debyg i gyflymu'r broses o ddarparu toiledau Changing Places, mae gweinyddiaethau datganoledig wedi bwrw ymlaen â'r gwaith hwn mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion eu poblogaethau orau.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymgynghori a chyhoeddi Llawlyfr Technegol-Annommestig diwygiedig sy'n nodi lle y dylid darparu Toiledau Changing Places fel rhan o adeiladau newydd neu waith adeiladu newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried canlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus ar gynyddu'r ddarpariaeth o Doiledau Changing Places a chyfleusterau newid cewynnau babanod mewn rhai mathau o adeiladau a oedd yn rhedeg yn gynnar yn 2021.

Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol rhoi cyfleusterau Changing Places mewn adeiladau newydd o fath neu faint penodol, neu lle mae gwaith perthnasol yn cael ei wneud i adeiladau. Bydd ymgynghoriad yn lansio cyn bo hir.

Ysgogi arloesedd mewn technoleg gynorthwyol

Mae technoleg yn cynnig cyfoeth o atebion posib i lawer o'r heriau bob dydd y mae pobl anabl yn eu hwynebu.

Gall hyn fod yn fwyaf cyfleus a hygyrch wrth ei hintegreiddio mewn cynhyrchion sydd wedi'u cynllunio i bawb, fel ffonau clyfar. Mae cynhyrchion gynorthwyol eraill yn fwy arbenigol, fel cadeiriau olwyn, cymhorthion clyw neu ddarllenwyr sgrin.

Mae effaith cynhyrchion sy'n cefnogi tasgau bob dydd yn enfawr. Mae dros dri chwarter (78%) o bobl anabl yn gweld mynediad at dechnolegau symudol yn ddefnyddiol ar gyfer byw'n annibynnol.⁶⁵

Nid ydym eto wedi manteisio i'r eithaf ar botensial technoleg i gynyddu annibyniaeth pobl anabl. Yn rhy aml:

- datblygir technoleg heb ystyried anghenion defnyddwyr anabl. O wasanaethau ffrydio⁶⁶ ac apiau ffôn clyfari⁶⁷ offerynnau recriwio a chyfweld wedi'u pweru gan Ddeallusrwydd Artiffisial,⁶⁸ mae pwysigrwydd cynnwys defnyddwyr anabl yn y broses ddylunio yn cael ei bwysleisio'n aml⁶⁹
- nid oes gan bobl anabl fynediad at dechnolegau a fyddai o fudd iddynt. Mae hyn yn digwydd mewn nifer o leoliadau, gan gynnwys addysg,⁷⁰ cyflogaeth⁷¹ ac mewn bywyd bob dydd⁷²
- efallai nad oes gan bobl anabl yr ymwybyddiaeth, hyfforddiant na chymorth i wneud y defnydd gorau o dechnoleg^{73 74}

65 Annibynnol. Hyderus. Cysylltiedig: Scope - Smith, Ceri, a Simon Dixon. 2018.

66 Yr Hac Fawr: Scope, 2020 - <https://www.scope.org.uk/big-hack/>

67 Sefydliad Ymchwil Defnyddwyr Anabl, panel Arolwg o bob anabledd, 2020

68 Adolygiad i Ragfarn mewn Gwneud Penderfyniadau Algorithmig: Canolfan Moeseg Data ac Arloesi, Tachwedd 2020

69 Adolygiad: technoleg hygyrch trwy ddylunio cyfranogol: Christian Quintero, Gorffennaf 2020

70 Arriving at Thriving - Dysgu gan fyfyrwyr anabl i sicrhau mynediad i bawb: Cyswllt Polisi a'r Comisiwn Addysg Uwch, Hydref 2020

71 Ail-drefnu'r Gweithle: Leonard Cheshire, Chwefror 2019

72 Jane Seale (2020) Cadw mewn cysylltiad ac aros yn iach: rôl technoleg wrth gefnogi pobl ag anableddau dysgu yn ystod y pandemig coronafeirws, Milton Keynes, Y Brifysgol Agored.

73 Dealltwriaeth Gyfredol, Systemau Cymorth, ac Ymyriadau dan Arweiniad Technoleg ar gyfer Anawsterau Dysgu Penodol: Gorffennaf 2020, a gomisiynwyd gan y Cyngor Gwyddoniaeth a Thechnoleg

74 Adolygiad llenyddiaeth cyflym ar dechnoleg gynorthwyol mewn addysg: Gorffennaf 2020 Dave L. Edyburn, Ph.D. Prifysgol Wisconsin-Milwaukee

Rydym yn darparu cymorth sylweddol ar gyfer arloesi wrth ddatblygu technolegau cynorthwyol a hygyrch, a hefyd i wella mynediad at eu defnydd. Yn 2019 i 2020, buddsoddodd Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI) £58.4m mewn ymchwil a datblygu yn ymwneud â thechnoleg gynorthwyol.



Hyd yn hyn, mae'r Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol wedi buddsoddi £1.4 miliwn mewn prosiectau technoleg gynorthwyol.

Byddwn yn mynd ymhellach i gynyddu arloesedd a datblygu cynhyrchion newydd a fydd yn gwella bywydau bob dydd pobl anabl.

Bydd BEIS yn herio UKRI a rhanddeiliaid ymchwil eraill i ddefnyddio heriau arloesi pwrpasol yn y dyfodol i gyflymu arloesedd mewn technolegau cynorthwyol.

Byddwn hefyd yn archwilio sut y gallwn ysgogi arloesedd mewn technoleg gynorthwyol trwy'r Ganolfan Technoleg Gynorthwyol a Hygyrch newydd, a amlinellir yn Rhan 2.

Gwella hygyrchedd gwefannau'r sector preifat

Mae gwefannau hygyrch yn galluogi defnyddwyr anabl, a defnyddwyr technolegau cynorthwyol (megis darllenwyr sgrin, adnabod lleferydd a chwyddo sgrin), i gael mynediad at yr un wybodaeth a gwasanaethau ag y gall eraill. O ystyried twf gwasanaethau gwybodaeth a rhwydweithiau cymdeithasol ar-lein, mae sicrhau bod gwefannau yn hygyrch yn rhan allweddol o sicrhau y gall pobl anabl gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.



Canfu arolwg yn 2016 fod 71% o gwsmeriaid anabl wedi clicio i ffwrdd o wefannau ar-lein yr oeddent yn eu cael yn anodd eu defnyddio ar gost amcangyfrifedig i fusnes y DU o £11.75 biliwn.

Bu cynnydd o ran gwella hygyrchedd gyda Rheoliadau Hygyrchedd Gwefan Cyrff y Sector Cyhoeddus yn dod i rym yn 2018⁷⁵ er bod tipyn o ffordd eto i fynd. Mae Swyddfa Ddigidol a Data Ganolog Swyddfa'r Cabinet yn archwilio cydymffurfiaeth, tra bod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym Mhrydain Fawr a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon yn gweithio ar orfodi. Ond mae rhagor y gallwn ei wneud i sicrhau bod gwefannau sector preifat y DU yn fwy hygyrch.

⁷⁵ <https://www.gov.uk/guidance/accessibility-requirements-for-public-sector-websites-and-apps>

Bydd yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch natur a graddfa anhygyrchedd gwefannau'r sector preifat, ac yn archwilio sut y gall y llywodraeth ymyrryd yn effeithiol gan gynnwys opsiynau deddfwriaethol posibl, gan adrodd yn ôl erbyn gwanwyn 2022.

Penodi rhagor o arweinwyr busnes i hyrwyddo hygyrchedd yn eu sectorau

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda'r sector preifat i wella'r profiad y mae pobl anabl yn ei gael fel defnyddwyr. Mae newid yn fwy tebygol o fod yn gynaliadwy os caiff ei arwain o fewn diwydiant gan arweinwyr sy'n ei ddeall yn dda.

Mae'r Uned Anabledd yn lansio rhaglen well ac estynedig o Lysgenhadon Anabledd a Mynediad yn haf 2021.

Wedi'i benodi gan y Gweinidog dros Bobl Anabl, mae Llysgenhadon Anabledd a Mynediad yn defnyddio eu dylanwad mewn busnes i annog a chynorthwyo newidiadau mewn mynediad i ddefnyddwyr a gweithwyr anabl. Mae'r penodiadau'n wirfoddol ac yn parhau am 1 i 3 blynedd.

“ Ar ôl cael profiad byw o anabledd, a'r rhwystrau y gall defnyddwyr anabl eu hwynebu wrth geisio cyrchu cynhyrchion a gwasanaethau, rwyf wedi croesawu'r cyfleoedd y mae fy rôl fel Llysgennad Anabledd a Mynediad ar gyfer y Diwydiant Yswiriant wedi'u rhoi imi. Rwyf wedi gweithio gyda sefydliadau pobl anabl a grwpiau defnyddwyr, cyrff proffesiynol a masnach, elusennau, adrannau'r llywodraeth a gwleidyddion i godi ymwybyddiaeth a sicrhau newid. Rwy'n falch fy mod wedi arwain y broses o sefydlu'r rhaglen arloesol Mynediad i Yswiriant, a fydd yn newid y ffordd y mae'r diwydiant yn gweithio yn y DU, yn enwedig o ran cyfeirio, tanysgrifennu tryloywder, dylunio cynhwysol, ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Cydraddoldeb a phwysigrwydd ymgynghori â phobl sydd â phrofiadau byw. ”

- Johnny Timpson

Mae rôl y Llysgennad yn cynnwys:

- cyflwyno'r achos busnes dros sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau yn hygyrch i gwsmeriaid anabl
- defnyddio eu rhwydweithiau i rannu arfer da ac i amlygu gwelliannau posibl
- annog cyfleoedd cyflogaeth cyfartal i bobl anabl
- helpu busnesau i wella eu cyfathrebu â chwsmeriaid anabl
- codi ymwybyddiaeth o faterion anabledd a hygyrchedd
- gweithio gyda Llysgenhadon eraill i gefnogi newid systemig ar draws y sector preifat

Mae'r newidiadau a gychwynnwyd gan Lysgenhadon (a elwid gynt yn Hyrwyddwyr Sector) wedi cynnwys y rhaglen Mynediad i Yswiriant; mwy o ddefnydd o'r llinyn blodyn yr haul ar draws y sectorau meysydd awyr, rheilffyrdd a manwerthu; sicrhau bod pobl anabl yn ymwneud ag ailadeiladu'r sectorau cefn gwlad a threftadaeth ar ôl COVID-19; a gwella hygyrchedd rheilffyrdd, rheoli'r materion sy'n ymwneud â gwisgo mygydau ar gludiant cyhoeddus yn ystod y pandemig. Roedd y Cerdyn Mynediad i Gelfyddydau newydd hefyd yn deillio o gynnig gan Lysgennad.

Rydym yn cynyddu nifer y Llysgenhadon. Mae hyn yn cynnwys recriwtio Llysgenhadon yn y sectorau canlynol: meysydd awyr, y celfyddydau a diwylliant, bancio, bysiau, diwydiannau creadigol, ynni, lletygarwch, tai, yswiriant, rheilffyrdd, manwerthu, a phrifysgolion. Mae swyddi mewn sectorau eraill yn cael eu hystyried.





Hamdden: ehangu mynediad i'r celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a'r awyr agored

Mae treulio amser gyda theulu a ffrindiau a gwneud y pethau rydym yn eu mwynhau yn rhan hanfodol o fywyd bob dydd. Mae gormod o bobl anabl ar eu colled.

“ Mae pobl yn dweud wrthyf ei bod yn eu gwneud nhw'n anghyfforddus pan nad ydw i'n teimlo'n dda, felly mae'n anodd iddyn nhw fod o'm cwmpas. Roedd hynny'n rhyfedd iawn. Allwn i ddim bod pwy oeddwn i o'r blaen, ac fe wnaethon nhw syrthio yn ôl.”

- Latanya

Mae 13.9% o bobl anabl yn teimlo'n unig yn rheolaidd, o'i gymharu â 3.8% o bobl nad ydyn nhw'n anabl.⁷⁶ Nid yw hyn wedi culhau ers 2013 i 2014. Mae plant anabl dros 3 gwaith yn fwy tebygol o deimlo'n unig yn aml, neu bob amser yn teimlo'n unig o gymharu â phlant nad ydynt yn anabl.⁷⁷

Materion hygrychedd ymarferol, stigma a'r angen i reoli lefelau egni yn ofalus a phoen⁷⁸ i gyd yn rhwystrau rhag cymdeithasu a chymryd rhan. O'r bobl anabl hynny a gafodd anhawster wrth gael mynediad i adeiladau cyhoeddus o leiaf 'weithiau', roedd 90% o'r rhai a oedd wedi cyrchu gwasanaethau diwylliant, chwaraeon a hamdden wedi profi rhai anawsterau o leiaf.⁷⁹

Mae cymdeithasu a chymryd rhan mewn chwaraeon, celf, diwylliant a natur yn rhoi hwb i iechyd a lles.⁸⁰ Rydym am lefelu gwahaniaethau mewn cyfranogiad rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl fel y gall pawb elwa.

76 **Canlyniadau i bobl anabl, DU: 2020**

77 **Tablau data Arolwg Bywydau Gweithredol 2019 i 2020**

78 Ymchwil Profiad Bywyd Uned Anabledd a Policy Lab 2020

79 Arolwg Anabledd y DU 2021

80 White M.P., Pahl S., Wheeler BW, Depledge MH, Fleming LE (2017). Amgylcheddau naturiol a lles goddrychol: Mae gwahanol fathau o ddod i gysylltiad yn gysylltiedig â gwahanol agweddau ar les. *Lle Iechyd* 45: 77-84; **Adolygiad o Ymyriadau Seiliedig ar Natur ar gyfer Gofal Iechyd Meddwl 2016; Beth yw'r dystiolaeth ar rôl y celfyddydau wrth wella iechyd a lles? Adolygiad cwmpasu 2019 (WHO);** Rosenbaum S., Tiedemann A., Sherrington C., Curtis J., Ward PB (2014). Ymyriadau gweithgareddau corfforol ar gyfer pobl â salwch meddwl: adolygiad a meta-ddadansoddiad-systematig. *Seiciatreg J Clin* 75(9):964-74.

“ Mae gen i anableddau o ganlyniad i Lid yr Ymennydd. Tra'n fyfyrwr yng Nghanolfan Orpheus yn Godstone, datblygais angerdd am ysgrifennu caneuon a pherfformio. Rwyf wedi canu yn Eglwys Gadeiriol Caer-wynt, Parc Bagshot, Palas Buckingham a Neuadd Frenhinol Albert. Fe wnaeth gweithio gyda lleoedd fel Orpheus, ac yn ddiweddarach Freewheelers ac Extant, wneud imi sylweddoli pa mor bwysig yw'r celfyddydau perfformio wrth helpu pobl anabl i ddatblygu hyder.”

- Luke

Byddwn yn:

- ehangu cyfranogiad yn y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon
- gwneud y DU y gyrchfan dwristiaeth fwyaf hygyrch yn Ewrop
- gwella mynediad i lwybrau
- gwneud meysydd chwarae yn fwy cynhwysol

Rydym am wneud rhagor i gynorthwyo pobl anabl i gymryd rhan. Bydd yr Uned Anabledd yn blaenoriaethu gweithredu trawslywodraethol ychwanegol yn y maes hwn yn 2021-22.

Ehangu cyfranogiad mewn celf, diwylliant a chwaraeon

Byddwn yn ehangu cyfranogiad yn y celfyddydau a diwylliant. Anabledd yw un o'r prif rwystrau y mae pobl yn eu rhoi dros beidio â mynychu digwyddiadau celf a diwylliannol.⁸¹

Mae cefnogaeth eang ymhlith pobl anabl i gynllun cenedlaethol ar gyfer mynediad i'r celfyddydau.

Mae Cyngorau Celfyddydau ledled y DU yn gweithio ar y cyd â Sefydliad Ffilm Prydain i lansio cerdyn mynediad celfyddydol am ddim ledled y DU erbyn Mawrth 2022.

Gellir defnyddio'r cerdyn mynediad hwn ar draws yr holl leoliadau celfyddydau a diwylliannol, ar gyfer archebu di-dor, di-rwystr sy'n ymatebol i amgylchiadau ac anghenion unigol.

Mae 'Strategaeth Diwylliant i'r Alban' yn nodi gweledigaeth gynhwysol, ac yn cynnwys mesurau i sicrhau bod pobl anabl yn gallu byw bywyd diwylliannol - ffurfiol ac anffurfiol - o'u dewis. Mae Partneriaeth Genedlaethol dros Ddiwylliant yn cynghori gweinidogion yr Alban ar gyflawni'r strategaeth. Ymhellach, mae Creative Scotland wedi ffurfio eu Grŵp Cynghori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant cyntaf ac wedi sefydlu Cronfa Creu: Cynhwysiant wedi'i thargedu.

Byddwn hefyd yn ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon. Mae pobl anabl bron ddwywaith yn fwy⁸² tebygol o fod yn segur yn gorfforol.

81 **Arolwg Cymryd Rhan 2017-18**, t.2

82 Arolwg Sport England o Fwyddau Gweithredol

Bydd Sport England yn:

- buddsoddi £20m arall yn y flwyddyn ariannol 2021 i 2022 trwy ei Chronfa Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau. Mae'r gronfa hon wedi cyrraedd grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac wedi effeithio arnynt, ac mae'n cynnwys ffocws penodol ar bobl anabl
- dod o hyd i ffyrdd newydd o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn lefelau gweithgareddau corfforol rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, mewn partneriaeth â'r Cyngor Dylunio erbyn Mawrth 2022
- datblygu cynllun peilot adn a rhaglen hyfforddi newydd i alluogi gweithwyr cymdeithasol yn well i hyrwyddo gweithgareddau corfforol i bobl anabl erbyn mis Rhagfyr 2022

Mae chwaraeon byw yn cynnig mwynhad i lawer, gan gynnwys o'r profiad a rennir o fod yno a theimlo'n rhan ohono. Mae'n ddyletswydd ar leoliadau chwaraeon i ddarparu amgylchedd sy'n groesawgar ac yn gynhwysol i bawb, waeth beth fo'u hanabledd.

Rydym am i chwaraeon fod ar flaen y gad o ran cydraddoldeb, a disgwyliwn i bob camp a phob clwb gymryd y camau sydd eu hangen i sicrhau hyn.

Mae llwyddiant chwaraeon addasol i gyn-filwyr yn enghraifft o sut y gall y llywodraeth helpu i leihau'r gwahaniaethau ystyfnig mewn lefelau gweithgareddau corfforol rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl.

Bydd y Swyddfa Materion Cyn-filwyr yn rhannu arfer gorau a mewnwelediad gan gymuned chwaraeon addasol y cyn-filwyr â sefydliadau anabledd a darparwyr chwaraeon a gweithgareddau erbyn Mawrth 2022.

Gan adeiladu ar lwyddiant y Cynllun Gweithredu Byw'n Egniol: Dim Terfynau (2016 i 2021), mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn datblygu strategaeth 10 mlynedd newydd ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Wrth lansio yn 2021, bydd pwyslais ar ddarpariaeth ar gyfer pobl anabl. Bydd y Fforwm Byw'n Egniol: Dim Terfynau, grŵp sectoraidd anabledd sy'n goruchwyllo cyflwyno'r cynllun, yn rheoli adolygu ac estyn y cynllun gweithredu hyd at 2026.

Er 2016, mae Sportscotland wedi buddsoddi dros £3 miliwn yn Chwaraeon Anabledd yr Alban (SDS), gan gefnogi chwaraeon anabledd ar bob lefel, a chefnogi athletwyr ar lwyfan y byd Yn 2019 i 2020 cyflwynodd canghennau lleol SDS 466 o sesiynau a 245 o ddigwyddiadau, tra bu dros 2,000 o bobl yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol SDS ar draws 8 camp.

Ar gyfer 2021 i 2022, bydd Chwaraeon Anabledd Cymru yn derbyn oddeutu £1 miliwn fel Partner Cenedlaethol gan Chwaraeon Cymru.

Gwneud y DU y gyrchfan dwristiaeth fwyaf hygyrch yn Ewrop

Rydym wedi ymrwymo i wneud y DU y gyrchfan dwristiaeth fwyaf hygyrch yn Ewrop erbyn 2025, fel y nodir yn y Cynllun Adfer Twristiaeth.⁸³

Bydd DCMS yn:

- gweithio gyda VisitBritain ac VisitEngland a rhanddeiliaid eraill yn y sector twristiaeth i hyrwyddo pwysigrwydd twristiaeth hygyrch yn y cyfryngau ac i fusnesau
- partneru â'r Grŵp Gweithredu Twristiaeth Cynhwysol a hyrwyddo'r Cynllun Hygyrchedd Cenedlaethol sy'n mesur llety i dwristiaid yn seiliedig ar ei addasrwydd ar gyfer gwesteion â gofynion hygyrchedd
- cynnal cyfres o sesiynau bwrdd crwn, a gynhelir gan y Gweinidog Chwaraeon a Thwristiaeth, gyda rhanddeiliaid ar draws y diwydiant twristiaeth i ddeall yn well y rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu fel twristiaid

Gwella mynediad at natur

Mae pobl â salwch neu gyflyrau iechyd tymor hir oddeutu 25% yn llai tebygol o fod wedi mwynhau natur yn y 14 diwrnod diwethaf nag eraill.⁸⁴

Yn ein Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod mannau naturiol hygyrch yn agos at lle mae pobl yn byw a gweithio, ac i annog rhagor o bobl i dreulio amser ynddynt er budd eu hiechyd a llesiant.

Bydd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn:

- gwneud Llwybr Arfordir Lloegr mor hawdd i'w ddefnyddio â phosibl i bobl anabl. Bydd pob darn o Lwybr Arfordir Lloegr ar agor neu gyda gwaith sefydlu ar y gweill erbyn diwedd 2021, oni bai fod materion cynllunio neu gyfreithiol parhaus
- creu Llwybr Cenedlaethol newydd arfordir i arfordir y gogledd o St Bees yn Cumbria i Fae Robin Hood yn Swydd Efrog erbyn 2025
- gwella mynediad, arwyddion a gwybodaeth am lwybrau a rhodfeydd cenedlaethol presennol

Mae Defra yn arwain darparu buddsoddiad o £5.77 miliwn trawslywodraethol mewn rhagnodi cymdeithasol gwyrdd – gan gynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn ymyriadau ar sail natur i atal salwch meddwl a gostwng anghydraddoldebau iechyd. Bydd llawer o bobl anabl yn elwa.

83 <https://www.gov.uk/government/publications/tourism-recovery-plan>

84 [Arolwg Pobl a Natur 2020](#)

Meysydd chwarae mwy cynhwysol

Mae chwarae yn rhan bwysig o dyfu i fyny. Mae'n cynnig nid yn unig mwynhad ond mae'n cynorthwyo datblygiad cymdeithasol, emosiynol, deallusol a chorfforol plentyn.

“ Mae fy mab ieuengaf, sydd â pharlys yr ymennydd ac epilepsi ac sydd wedi ei gofrestru'n ddall, wrth ei fodd yn chwarae a chael ei siglo o gwmpas cymaint ag unrhyw blentyn. Ond wrth iddo dyfu'n hŷn ac yn fwy rydym wedi ei chael hi'n anodd dod o hyd i feysydd chwarae sy'n hygyrch. Mae hyn wedi gadael ein teulu cyfan wedi'u heithrio. Mae wedi dod yn fwyfwy anodd mynd â fy 3 phlentyn i'n parciau chwarae lleol wrth i'm mab ieuengaf gynhyrfu'n fawr gan ei fod am ymuno a chael ei gynnwys. Byddwn yn aml yn osgoi mynd i barciau sydd ddim yn deg arno ef na'i frodyr. Mae pob plentyn yn haeddu ac mae ganddo hawl i gael mynediad i barciau chwarae.”

- Becky

Ac eto i blant anabl, mae'r cyfleoedd i ymuno â chwarae yn llawer llai. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd i ddatblygu hefyd yn cael eu lleihau.⁸⁵ Gall meysydd chwarae a lleoliadau chwarae eraill fethu â darparu cyfleusterau cynhwysol.

Rydym yn benderfynol o gynyddu cyfleoedd ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd, mynd i'r afael â rhwystrau a galluogi'r mwynhad syml o chwarae i bob plentyn, ble bynnag maen nhw'n byw.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'n glir ddyletswydd awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth eraill i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl. Ar gyfer ardaloedd chwarae a meysydd chwarae, mae arfer gorau wedi'i nodi yn safonau Prydain ac Ewrop.⁸⁶

Bydd MHCLG yn cyhoeddi Cod Dylunio Model Cenedlaethol newydd yn haf 2021, gan nodi ystyriaethau dylunio ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol. Bydd yr adran yn defnyddio canllawiau sy'n cefnogi'r cod i bwysleisio pwysigrwydd darparu lleoedd chwarae ac offer hygyrch a chynhwysol i bawb.

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol i sicrhau ymwybyddiaeth o'r angen am gyfleusterau cynhwysol ac i amlygu'r canllawiau a'r safonau arfer da sy'n cefnogi hyn.

85 Gwneud yr Achos dros chwarae, Sense, Chwefror 2016

86 BS 8300-1:2018 a BS EN 17210:2021



Gwasanaethau cyhoeddus: gwneud mynediad mor llyfn a hawdd â phosibl

O ymweld â'r feddygfa i ymweliadau rheolaidd gan ofalwyr taledig, mae gwasanaethau fel iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn rhan bwysig o fywyd bob dydd i lawer o bobl anabl. Yn rhy aml, gall y gwasanaethau hyn fod yn anodd cael mynediad atynt, ac yn dameidiog.

“... y broses gyson o orfod cyfiawnhau i wahanol bobl, yn enwedig y swyddfa budd-daliadau, fy mod i'n anabl, a na, nid yw'n mynd i newid o fewn y 5 mlynedd nesaf. Pam fod angen i mi barhau i ailadrodd fy hun? Rwy'n sownd ag ef.”

- Ymatebydd Arolwg Anabledd y DU

O'r bobl anabl hynny a oedd wedi cael anhawster cael mynediad i adeiladau cyhoeddus o leiaf 'weithiau', roedd tua 3 chwarter wedi profi o leiaf rai anawsterau wrth gyrchu gwasanaethau iechyd (78%) a gwasanaethau cymdeithasol (74%).⁸⁷ Ymddengys fod y pandemig COVID-19 wedi effeithio'n arbennig ar fynediad i wasanaethau gofal iechyd - nododd pobl anabl yn amlach fod coronafeirws wedi effeithio ar fynediad at ofal iechyd ar gyfer materion nad ydynt yn gysylltiedig â coronafeirws na phobl nad ydynt yn anabl (40% o gymharu â 19%).⁸⁸

“Dyweddodd fy meddyg teulu wrthyf yn wreiddiol, pan ddywedais wrtho am fy nhroed a sut yr oeddwn mewn poen a phopeth, dywedodd: “Wel, nid wyf yn credu eu bod [y podiatrydd] yn gweithio ar hyn o bryd.” Ac fe adawodd e fel yna, dim byd. Pan siaradais â'r podiatrydd, dywedodd hi: “Rydyn ni wedi bod yn gweithio trwy'r amser. Rydyn ni wedi gorfod, oherwydd argyfyngau fel eich un chi.” Felly, sut rydw i'n meddwl y gallen nhw ei wella yw siarad â'i gilydd, a sicrhau eu bod nhw'n gwybod y ffeithiau cyn dweud wrthyf chi: “O na, nid ydyn nhw'n gwneud unrhyw beth ar hyn o bryd.”

- Shawn

87 Arolwg Anabledd y DU, 2021

88 **Cyhoeddiad SYG** 'Coronafeirws a'r effeithiau cymdeithasol ar bobl anabl ym Mhrydain Fawr: Chwefror 2021

Gall cyrchu gwasanaethau ar-lein fod yn arbennig o heriol. O'r deg cyngor sir mwyaf poblog yn Lloegr ym mis Medi 2020, dim ond gwefan Cyngor Sir Essex oedd yn gwbl hygyrch.⁸⁹

Mae llawer o bobl anabl yn gweld y gwasanaethau hyn yn hanfodol wrth eu cynorthwyo i fyw bywydau annibynnol bob dydd.



Dywedodd 44% o'r rhai a dderbyniodd ofal ffurfiol ei fod yn gwneud iddynt deimlo 'mwy o reolaeth' neu 'lawer mwy o reolaeth' ar eu bywydau.⁹⁰

“ Ar hyd fy oes cefais wasanaeth gan fy ngwasanaethau cymdeithasol lleol i helpu fy nghefnogi gan fod gen i anableddau dysgu. Er eu bod wedi fy helpu i ennill llawer o sgiliau bywyd gwerthfawr, ni themlais erioed fy mod yn gallu gwireddu fy mreuddwyd o briodi fy nyweddi. Wnaethon nhw byth fy nghymryd o ddifrif, mewn gwirionedd dywedodd un aelod o staff na allwn i briodi oherwydd bod gen i anabledd dysgu! Pan wnes i ddarganfod bod fy nghyngor lleol yn caniatáu i 'ficroddarparwyr' weithio gyda phobl roedd gen i ddiddordeb mawr gan fy mod i'n adnabod rhywun roeddwn i am weithio gyda nhw yr oeddwn i'n ymddiried ynddyn nhw. Penderfynais optio allan o'r gofal statudol gan y gwasanaethau cymdeithasol a defnyddio arian fy mhecyn gofal (taliadau uniongyrchol) i dalu am ficroddarparwr i'm cefnogi. Fe wnaethant fy helpu i symud i mewn gyda fy nyweddi Alison, a dwy flynedd yn ddiweddarach fe briodwn ni, rhywbeth roeddwn i bob amser yn breuddwydio amdano ond byth yn meddwl y byddai'n digwydd!”

- Phil

Rydym yn cymryd camau gweithredu uniongyrchol i wella mynediad ar-lein i wasanaethau cyhoeddus. Mae DHSC a DWP hefyd yn cymryd camau tymor hir i fynd i'r afael â'r heriau y mae pobl anabl yn eu profi wrth gyrchu cymorth gan ofal cymdeithasol a'r system les. Byddwn yn:

- nodi cynigion i wella profiad pobl anabl o gyrchu budd-daliadau
- parhau i weithio gyda phobl anabl a sefydliadau anabledd ar bob cam o'r diwygiadau gofal cymdeithasol i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu hanghenion yn cael eu hadlewyrchu
- gwella'r defnydd o ddata a thystiolaeth anabledd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- gweithio i leihau anghydraddoldebau iechyd y mae pobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu yn eu hwynebu
- cyflwyno rhaglen i wella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus ar-lein
- mynd i'r afael â'r Bwlch Sgiliau Technoleg Hygyrch

⁸⁹ Mae profion yn datgelu bod y cyngorau mwyaf yn methu ynghylch dyletswydd hygyrchedd cyfreithiol 2020 (Scope)

⁹⁰ Arolwg Anabledd y DU 2021

Gwella mynediad at fudd-daliadau anabledd

Nod Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd DWP '*Shaping Future Support*' yw helpu pobl i fyw'n annibynnol ac i helpu rhagor o bobl i ganfod, aros a symud ymlaen yn y gwaith, lle bynnag y gall pobl wneud hynny. Nod y cynigion yw sicrhau bod y system budd-daliadau iechyd ac anabledd yn bodloni disgwyliadau'r bobl sy'n eu defnyddio, fel bod pobl yn cael gwell profiad ac yn teimlo'n hyderus i ymgysylltu â'r ystod lawn o gymorth.

Roedd 8 o bob 10 o bobl anabl a oedd wedi cyrchu gwasanaethau budd-daliadau a phensiwn wedi profi o leiaf rai anawsterau.⁹¹

“ Mae'r rhan fwyaf o'n bywydau yn golygu eistedd ac aros.”

- Jessica

Bydd DWP yn gwella cyfeirio at gymorth arall, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, yn symleiddio ffurflenni ac yn gwella eiriolaeth, fel y gall pobl anabl lywio eu ffordd trwy'r system fudd-daliadau a chychu cymorth ehangach.

Ers dechrau'r flwyddyn hon (2021), mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn profi cymorth eiriolaeth i asesu ei effeithiolrwydd a sefydlu'r model cyflawni gorau.

Bydd DWP yn parhau i archwilio ffyrdd o wella asesiadau iechyd a sicrhau canlyniadau gwell. Bydd hyn yn cynnwys asesiadau ffôn a fideo a gyflwynwyd yn ystod y pandemig a darparu gwell cymorth i bobl â chyflyrau iechyd difrifol, gan gynnwys pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes.

“ Rydw i bob amser yn cael llythyrau trwodd yn dweud bod angen i mi ailymgeisio am fy PIP. Mae'n fy nrysu'n lân. Mae'n fy ngwylltio sut rydych chi'n cael swm penodol o arian bob mis ac yna mae'n newid ac yna mae'n stopio ac yna mae'n newid. ”

- Efstathia

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn archwilio opsiynau i leihau amllder Asesiadau Gallu i Weithio ailadroddus (WCA) ac asesiadau Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP), er mwyn osgoi asesiadau lle mae'n annhebygol y bydd newid dyfarniad.

91 Arolwg Anabledd y DU 2021

Diwygio iechyd a gofal cymdeithasol

Mae pobl anabl ledled y DU wedi dweud wrthym bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn rhan hanfodol o fyw bywyd annibynnol.

“ Mae ganddyn nhw'r pŵer i benderfynu beth sy'n 'anghenraid' a beth sy'n 'foethusrwydd' o ran fy nghymorth. Nid oes gen i ddigon o oriau gyda fy ngofalwr i allu mynd allan neu i weld fy ffrindiau. Mae mynd y tu allan a rhyngweithio'n gymdeithasol yn cael ei ystyried yn angen dynol sylfaenol am bobl nad ydyn nhw'n anabl, ond nid i mi.”

- Efstathia

Rydym yn gwybod bod angen ymateb beiddgar. Rydym wedi ymrwymo i ddiwygio'r system gofal cymdeithasol i oedolion yn gynaliadwy a byddwn yn cyflwyno cynigion eleni (2021). Rydym am:

- adeiladu system o ofal a chymorth lle mae gofalwyr di-dâl yn cael eu cynorthwyo a lle mae gan bobl anabl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau, dros yr hyn maen nhw'n ei wneud a sut maen nhw'n dewis byw
- cefnogi'r uniad o wasanaethau iechyd a gofal o amgylch pobl gan gynnwys trwy ddefnyddio technoleg
- sicrhau bod pawb yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt ac yn cael eu trin ag urddas a pharch

Bydd DHSC yn gweithio gyda phobl anabl a sefydliadau anabledd ar bob cam o'r broses o ddiwygio gofal cymdeithasol i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu hanghenion yn cael eu hadlewyrchu.

Rydym hefyd yn moderneiddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Rydym am roi rhagor o reolaeth i bobl dros eu triniaeth a sicrhau eu bod nhw'n cael eu trin â'r urddas a'r parch maen nhw'n eu haeddu.

Ochr yn ochr â'r ymdrechion diwygio tymor hir hyn, bydd DHSC yn:

- cryfhau'r gronfa ddata a sylfaen tystiolaeth i gefnogi polisiau a fydd yn trawsnewid canlyniadau i bobl anabl, gan gynnwys gwella'n dealltwriaeth o anghenion pobl anabl a'r rheini â chyflyrau tymor hir ac anableddau lluosog.
- sicrhau bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn deall anabledd dysgu ac awtistiaeth i leihau'r anghydraddoldebau iechyd y mae pobl â'r cyflyrau hyn yn eu hwynebu yn aml

Gwella data a thystiolaeth anabledd

Nid yw'r system iechyd yn casglu data cwbl gynhwysfawr ar anabledd.


Mae hyn yn golygu nad oes gennym ddarlun cywir o anghenion cymorth iechyd a gofal cymdeithasol pobl anabl yn y DU ar hyn o bryd. Byddwn yn gweithio ledled y DU i wella data anabledd.

Byddwn yn gweithredu i wella argaeledd, ansawdd a defnydd data anabledd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd DHSC yn sefydlu gweithgor data anabledd newydd yn 2021 i edrych ar setiau data iechyd a gofal cymdeithasol a mynd i'r afael â meysydd blaenoriaeth lle mae bylchau yn y data.

Cyhoeddodd DHSC a NHSX strategaeth ddata ddrafft ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn 2021 i ysgogi gwelliannau mewn data ar oedolion oedran gweithio sy'n derbyn gofal.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn ariannu ymchwil ychwanegol i wella ansawdd bywyd pobl â chyflyrau tymor hir lluosog, a bydd rhai ohonynt yn anabl.



Cynorthwyo pobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu

Mae pobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu ledled y DU yn profi anghydraddoldebau iechyd.

Mae disgwyliad oes pobl ag anabledd dysgu 27 mlynedd yn is na'r cyfartaledd i fenywod a 23 o dan y cyfartaledd i ddynion.⁹² Mae pobl awtistig yn marw 16 mlynedd yn gynharach na phobl nad ydynt yn awtistig, ar gyfartaledd.⁹³

Cadarnhaodd NHS England ac NHS Improvement ym Mawrth 2021 y bydd pobl awtistig heb anabledd dysgu yn cael eu cynnwys am y tro cyntaf yn eu rhaglen i ddysgu o fywydau a marwolaethau pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig (leDeR).

Bydd NHS England ac Improvement yn ehangu'r rhaglen LeDeR i gynnwys pobl awtistig, erbyn Mawrth 2022.

Bydd hyn yn helpu i wella gofal, lleihau anghydraddoldebau iechyd ac atal marwolaethau cynamserol trwy adolygu gwybodaeth am y cymorth iechyd a gofal cymdeithasol y mae pobl sydd wedi marw wedi'i dderbyn.

Nid yw pob aelod o staff iechyd a gofal cymdeithasol yn derbyn hyfforddiant ym meysydd anabledd dysgu ac awtistiaeth.

Argymhellodd ail adroddiad blynyddol LeDeR, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, y dylid darparu hyfforddiant gorfodol ym maes ymwybyddiaeth anabledd dysgu i'r holl staff, a'i gyflwyno ar y cyd â phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.

Byddwn yn addysgu staff rheng flaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn amodol ar werthuso, bydd DHSC yn sicrhau bod hyfforddiant ar awtistiaeth ac anabledd dysgu ar gael i bob un o'r 2.7 miliwn o staff iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion.

Byddai'r hyfforddiant hwn yn gwella profiadau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig.

Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan o'r Strategaeth Awtistiaeth ar ei newydd wedd. Mae'r Strategaeth Awtistiaeth wedi'i hymestyn o'i ffocws ar oedolion i gynnwys plant a phobl ifanc am y tro cyntaf.

92 Rhaglen Adolygu Marwolaethau Anableddau Dysgu (LeDeR), Adroddiad Blynyddol 2020

93 Hirvikoski T., Mittendorfer-Rutz E., Boman M., Larsson H., Lichtenstein P., Bolte S. (2016) Marwolaethau cynamserol mewn anhwylder sbectrwm awtistiaeth. The British Journal of Psychiatry. 208: 232-238

Bydd y strategaeth hon yn cyd-fynd â gwaith a wnaed yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, lle mae ieuchyd a gofal cymdeithasol wedi'i ddatganoli i raddau helaeth.

Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn datblygu Strategaeth Awtistiaeth wedi'i chyd-gynhyrchu'n llawn i'w gweithredu yn 2021, gyda phwyslais ar alluogi annibyniaeth a dewis gwybodus, mynediad cyfartal i wasanaethau a bywyd sy'n llawn cyfleoedd i fod yn ddinesydd gweithredol.

Mae Llywodraeth yr Alban yn parhau i hyrwyddo hawliau dynol trwy Strategaeth yr Alban ar gyfer Awtistiaeth a'r polisïau Allweddol i Fywyd. I gydnabod heriau ychwanegol a gafwyd yn ystod pandemig COVID-19, mae 'Fframwaith Dysgu/Anabledd Deallusol ac Awtistiaeth ar gyfer Pontio a Thrawsnewid' wedi'i gyhoeddi i lunio gwasanaethau ac agweddau cyhoeddus.

Yn dilyn llwyddiant Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau trawslywodraethol Llywodraeth Cymru, mae gwaith yn parhau i wella sut mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn nodi ac yn ymateb i anghenion pobl ag anableddau dysgu. Y nod allweddol yw cynorthwyo unigolion i fyw bywydau iach a boddhaus mor annibynnol â phosibl.

Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus ar-lein

Mae strategaeth Digidol yn Bennaf 2012 wedi dileu llawer o'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu profi wrth gyrchu gwasanaethau'r llywodraeth.

Fodd bynnag, mae'r newid i ddigidol wedi cyflwyno ei heriau ei hun. Mae hygyrchedd gwasanaethau newydd yn amrywiol.

Mae gwneud gwefan neu ap symudol yn hygyrch yn galw am wneud y cynnwys a'r dyluniad yn ddigon clir a syml y gall y rhan fwyaf o bobl ei ddefnyddio heb fod angen ei addasu. Mae hefyd yn golygu cefnogi pobl sydd angen ei addasu, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio technolegau cynorthwyol, fel darllenwyr sgrin.

Mae'r Swyddfa Ddigidol a Data Ganolog yn hyrwyddo hygyrchedd ar draws y llywodraeth.

Eleni bydd y Swyddfa Ddigidol a Data Ganolog yn parhau i redeg rhaglen i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn hygyrch. Bydd yr ymgrych yn:

- **helpu'r sector cyhoeddus i wneud cymwysiadau symudol yn hygyrch**
- **codi ymwybyddiaeth o sut y gall pobl godi cwynion am wefannau anhygyrch**

Her tymor hwy yw datblygu gallu i greu gwasanaethau sy'n hygyrch i bawb. Mae galw mawr am bobl sydd â'r sgiliau hyn, gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan greu prinder. Mae hyn wedi cael ei alw'n Fwlch Sgiliau Technoleg Hygyrch.⁹⁴

Fel rhan o ymdrech drawslywodraethol gyda'r Swyddfa Ganolog Digidol a Data a Gwasanaeth Masnachol y Goron, bydd y Swyddfa Gartref yn mynd i'r afael â'r mater hwn trwy:

- **diffinio proffesiwn hygyrchedd trawslywodraethol - bydd hyn yn ffurfioli rôl arbenigwyr hygyrchedd ac yn annog rhagor o sefydliadau'r sector cyhoeddus i drefnu adnoddau priodol i ddarparu gwasanaethau hygyrch.**
- **adeiladu piblinell o dalent ar gyfer y proffesiwn hygyrchedd trwy ddefnyddio rhaglenni datblygu gyrfa llwyddiannus a rhai sy'n dod i'r amlwg i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau - gan weithio ar draws y llywodraeth i rannu dysgu**
- **gwella sut rydym yn prynu cynhyrchion a gwasanaethau digidol yn y llywodraeth ac ar draws y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd, er enghraifft, trwy reolaethau, cefnogaeth a hyfforddiant mwy ffurfiol ar gyfer timau masnachol**

Byddwn hefyd yn archwilio sut y gallwn ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy Ganolfan Technoleg Gynorthwyol a Hygyrch.

Bydd yr Uned Anabledd yn ystyried ffyrdd newydd o wneud technoleg gynorthwyol a hygyrch yn rhan o ddyluniad beunyddiol gwasanaethau cyhoeddus.

94 <https://peatworks.org/policy-workforce-development/the-accessible-technology-skills-gap/>

Rhan 2:

Profiad pob dydd pobl anabl wrth galon llunio polisi a darparu gwasanaethau llywodraeth



Pobl anabl wrth wraidd llunio polisi a darparu gwasanaethau llywodraeth

Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod sut mae llywodraeth y DU yn gweithio yr un mor bwysig â'r hyn mae'n ei wneud. Bydd newid hyn yn galw am ymdrech barhaus.

Bydd yr ymrwymïadau yn y bennod hon yn cael eu harwain gan Swyddfa'r Cabinet a'r Uned Anabledd a'u bwriad yw ysgogi newid ym mhob adran. Bydd cyflawni'r ymrwymïadau'n cael ei ategu gan 5 maes a fydd yn arwain ein hymagwedd tuag at anabledd:

1. **Sicrhau tegwch a chydaddoldeb** - byddwn yn grymuso pobl anabl trwy hyrwyddo tegwch a chydaddoldeb mewn cyfleoedd, canlyniadau a phrofiadau, gan gynnwys gwaith.
2. **Ystyried anabledd o'r dechrau** - byddwn yn ymgorffori dulliau a gwasanaethau cynhwysol a hygyrch er mwyn osgoi creu profiadau anablu o'r cychwyn cyntaf.
3. **Cynorthwyo byw'n annibynnol** - byddwn yn mynd ati'n weithredol i annog mentrau sy'n cynorthwyo'r holl bobl anabl i gael dewis a rheolaeth mewn bywyd.
4. **Cynyddu cyfranogiad** - byddwn yn galluogi cynnwys poblogaeth amrywiol anabl yn fwy wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau, cynhyrchion a pholisïau.
5. **Cyflwyno ymatebion cydgysylltiedig** - byddwn yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol ac yn gwella data a thystiolaeth i ddeall ac ymateb yn well i faterion cymhleth sy'n effeithio ar bobl anabl.



Trawsnewid tystiolaeth a data

Byddwn yn adeiladu sylfaen dystiolaeth fwy cyflawn, awdurdodol a thryloyw ynghylch anghenion pobl anabl, gan gynnwys profiad bob dydd fel elfen allweddol.

Byddwn yn tynnu'n uniongyrchol ar fewnwelediadau gan bobl anabl, gan amlygu profiadau bob dydd pobl anabl wrth i ni wneud hyn. Byddwn hefyd yn gweithio gyda sefydliadau pobl anabl ac elusennau anabledd, ymhlith eraill.

Bydd yr Uned Anabledd yn arwain rhaglen amflwyddyn i wella argaeledd, ansawdd, perthnasedd a chymaroldeb data anabledd y llywodraeth, wedi'i gydlynw trwy:

- grŵp trawslywodraethol sy'n gyfrifol am oruchwylio a gweithredu cynlluniau gwella data
- panel o arbenigwyr ar brofiad byw pobl anabl i asesu canfyddiadau ymchwil ac i ddarparu cyngor ar brosiectau gwella data

Erbyn Ionawr 2022, bydd yr Uned Anabledd yn dechrau arolygon anabledd rheolaidd ac yn monitro canfyddiadau cyhoeddus o bobl anabl a pholisïau trwy'r Swyddfa Ystadegau Wladol.

Erbyn haf 2022, bydd yr Uned Anabledd yn cyhoeddi'r cyntaf mewn cyfres o ddata anabledd wedi'u cysoni ar draws y llywodraeth. Byddwn yn annog defnydd ehangach o'r safonau wedi'u cysoni ar gyfer anabledd⁹⁵ a nam⁹⁶ a nodwyd gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS).

Bydd hyn yn caniatáu inni gymharu data a gasglwyd gan wahanol adrannau'r llywodraeth yn well.

Ategir y gwaith hwn gan ymrwymïadau gan adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth i ddatblygu eu sylfaen dystiolaeth a chysoni eu data.

Diwygio modd caffael y llywodraeth i ysgogi canlyniadau gwell i bobl anabl

Mae'r llywodraeth ganolog yn gwario tua £49 biliwn y flwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau.

Rydym wedi ymrwmo i ddylanwadu ar y gwariant enfawr hwn ar fodd caffael y llywodraeth i ysgogi canlyniadau gwell i bobl anabl.

⁹⁵ Safon wedi'i gysoni Anabledd GSS

⁹⁶ Safon wedi'i gysoni Nam GSS



Daeth y Model Gwerth Cymdeithasol newydd ar gyfer caffael cyhoeddus i rym ym mis Ionawr 2021.

Mae timau masnachol ar draws y llywodraeth yn defnyddio'r model i asesu a gwerthuso'r gwerth cymdeithasol a gynigir mewn tendrau, ac i reoli a mesur y gwerth cymdeithasol a ddarperir mewn contractau.

Ymhlith y canlyniadau blaenoriaethol mae lleihau'r bwlch cyflogaeth i bobl anabl, hyrwyddo cyfle cyfartal a chynorthwyo iechyd corfforol a meddyliol yn y gweithlu contract.

Eleni (2021), bydd Swyddfa'r Cabinet yn creu Tasglu Comisiynu Anabledd o sefydliadau a arweinir gan ddefnyddwyr ar gyfer pobl anabl i wella mynediad sefydliadau anabledd i gontractau'r llywodraeth.

Bydd y tasglu yn cael ei gadeirio gan Hyrwyddwr y Ddeddf Gwerth Cymdeithasol, Claire Dove CBE.

Byddwn yn mynd ymhellach ac yn penodi Cynrychiolydd y Goron cyntaf ar gyfer Anabledd.

Mae Cynrychiolwyr y Goron yn helpu'r llywodraeth i weithredu fel un cwsmer. Maent yn gweithio ar draws adrannau i sicrhau bod golwg gydlynol, strategol o anghenion y llywodraeth yn cael ei chyfleu i ddarpar gyflenwyr.

Bydd penodi Cynrychiolydd y Goron ar gyfer Anabledd yn helpu i sicrhau bod yr achos dros gynhwysiant yn cael ei gyfleu'n gryfach ac yn fwy cyson i fusnesau, fel eu bod yn buddsoddi mewn - ac yn gwireddu buddion masnachol - busnes cynhwysol.

Bydd Swyddfa'r Cabinet yn penodi Cynrychiolydd y Goron ar gyfer Anabledd i helpu i ddatgloi arloesedd a buddion economaidd cynhwysiant anabledd trwy weithgareddau masnachol y llywodraeth erbyn Mawrth 2022.

Gwella ein hymgysylltiad â phobl anabl

Rydym am adeiladu ar y modelau ymgysylltu gorau a sicrhau ein bod yn ymgysylltu â grŵp amrywiol o bobl anabl.

I wella'r ffordd rydym yn ymgysylltu:

Erbyn mis Rhagfyr 2021, bydd yr Uned Anabledd yn adolygu'r ffordd y mae llywodraeth y DU yn ymgysylltu â phobl anabl, mewn trafodaethau â phobl anabl, sefydliadau pobl anabl ac elusennau.

Byddwn yn ystyriol yn ein hadolygiad o'n cyfrifoldebau o dan yr UNCRPD.

Sicrhau bod ein cyfathrebiadau yn hygyrch

Byddwn yn parhau i adeiladu ar yr egwyddorion a amlinellwyd gan Wasanaeth Cyfathrebu'r Llywodraeth i sicrhau bod holl wybodaeth y llywodraeth mor hygyrch a chynhwysol â phosibl.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ein hiaith yn gynhwysol a'n bod yn ymwybodol o'r ffordd yr ydym yn portreadu anabledd. Byddwn yn defnyddio ystod o sianeli cyfathrebu i gyrraedd pobl anabl ac ystod o fformatau hygyrch lle bo hynny'n briodol gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain, Braille ac EasyRead.

Byddwn yn parhau i ymgynghori â phobl anabl a sefydliadau dan arweiniad pobl anabl pan fyddwn yn ystyried y ffordd orau o wneud hyn.

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith rydym wedi'i wneud fel rhan o hyb cyfathrebu COVID-19. Gweithiodd tîm cyfathrebu Swyddfa'r Cabinet yn agos â rhanddeiliaid anabledd i greu Gweithgor Cyfathrebu Anabledd, i sicrhau bod negeseuon a gwybodaeth COVID-19 y llywodraeth yn cyrraedd pobl anabl a'r rheini ag anghenion hygyrchedd.

Mae Swyddfa'r Cabinet yn parhau i weithio gydag adrannau eraill ac awdurdodau lleol i sicrhau bod cyhoeddiadau craidd COVID-19 ar gael mewn fformatau hygyrch a bod y fformatau hyn ar gael cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddiadau. Mae hyn yn cynnwys fideo a sain BSL, EasyRead a fformatau testun mawr. Bydd gwersi a ddysgwyd o gyfathrebiadau COVID-19 yn llywio strategaethau ac ymgyrchoedd cyfathrebu yn y dyfodol.

Bydd Swyddfa'r Cabinet yn:

- **sicrhau bod uwch was sifil enwebedig yn parhau i hyrwyddo cyfathrebu hygyrch ar draws y llywodraeth**
- **ceisio adborth rheolaidd gan wahanol grwpiau o randdeiliaid i sicrhau ein bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â phobl â gwahanol anableddau**
- **nodi a cheisio ffyrdd cydweithredol i gyd-greu cyfathrebiadau a pharhau i rannu fformatau hygyrch**

Canolfan Technoleg Gynorthwyol a Hygyrch sy'n arwain y byd

Mae'r pandemig COVID-19 wedi cynyddu pwysigrwydd technoleg gynorthwyol a hygyrch i lawer o bobl anabl ac wedi ein hatgoffa bod mynediad at y dechnoleg gywir yn allweddol i ddatgloi mwy o gynhwysiant.

Gwnaed peth cynnydd; erbyn hyn mae gan lawer o Ganolfannau Gwaith gyfrifiaduron gyda thechnoleg gynorthwyol i'w defnyddio gan gwsmeriaid DWP. Fodd bynnag, nid yw enghreifftiau o arfer da wedi dod yn gyffredin eto, gan arwain at glytwaith o wasanaethau, yn aml heb eu cynllunio o amgylch anghenion pobl anabl ac sy'n cynnwys aneffeithlonrwydd y gellir ei osgoi. Er enghraifft, gallai rhywun ddefnyddio technoleg gynorthwyol mewn Canolfan Gwaith i ymgeisio am swydd ond yna darganfod nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r dechnoleg hon gartref i baratoi ar gyfer y cyfweiliad oherwydd bod eu hasesiad gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar dechnoleg ar gyfer byw bob dydd.

Bydd yr Uned Anabledd yn buddsoddi hyd at £1 miliwn yn 2021 i 2022 i ddatblygu Canolfan Technoleg Gynorthwyol a Hygyrch newydd, gan adrodd ar gynnydd erbyn haf 2022.

Hoffem wneud y DU y lle mwyaf hygyrch yn y byd i fyw a gweithio gyda thechnoleg.

Bydd yr Uned Anabledd yn asesu anghenion technoleg gynorthwyol a hygyrch pobl anabl yn Lloegr, i sefydlu lle mae'r rhain yn cael eu diwallu a lle y gellir ac y dylid gwneud gwelliannau.

Bydd nodau'r ganolfan yn cael eu datblygu ymhellach dros y misoedd nesaf mewn deialog â phobl anabl, busnes a'r sectorau cyhoeddus, ond gallent gynnwys:

- gweithredu fel ffynhonnell ganolog o dystiolaeth ac arbenigedd sy'n cefnogi gwasanaethau technoleg gynorthwyol a hygyrch lleol i asesu a diwallu anghenion pobl yn well a chadw'n gyfredol ag arloesiadau technolegol
- treialu a helpu i raddio modelau newydd o ddarparu technoleg mewn ffordd fwy cydgysylltiedig, cost-ffeithiol a hawdd ei defnyddio gan gynnwys archwilio model darparu 'gydol oes'
- sicrhau codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a chefnogaeth fwy effeithiol i bobl anabl ddefnyddio'r dechnoleg, er mwyn cynyddu ei botensial i wella bywydau
- annog y sector technoleg i weithio gyda phobl anabl wrth ddatblygu cynhyrchion newydd - gwella dyluniad a defnyddioldeb ar gyfer yr holl ddefnyddwyr

Arwain yn rhyngwladol

Mae'r DU wedi hyrwyddo pobl anabl ar y llwyfan rhyngwladol ers amser maith.

Roedd y DU yn allweddol yn natblygiad yr UNCRPD ac mae ein hacademyddion, ynghyd ag academyddion yn yr UD, wedi bod ar flaen y gad o ran datblygiadau newydd mewn theori ac ymarfer anabledd. Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth yn y byd i gydnabod a rhoi hawliau i bobl anabl, a phenodwyd y Gweinidog cyntaf dros Bobl Anabl yn y byd ym 1974.

Yn fwy diweddar, yn 2018 cyd-gynhaliodd y DU yr Uwchgynhadledd Byd-eang ar gyfer Anabledd, eiliad bwysig ar gyfer hawliau anabledd byd-eang a arweiniodd at wneud set o 170 o ymrwymadau gan lywodraethau cenedlaethol, cyrff amlochrog, y sector preifat a chymdeithas sifil. Rydym wedi gosod safonau y mae eraill wedi'u dilyn.

Byddwn yn parhau â'r arweinyddiaeth fyd-eang hon. Byddwn yn rhannu gwersi a chynnydd ar ein hymrwymadau strategaeth trwy ymgysylltu ar y llwyfan rhyngwladol gan gynnwys proses adrodd UNCRPD dan arweiniad yr Uned Anabledd.

Bydd y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn parhau â'n harweinyddiaeth fyd-eang ar hawliau anabledd ac yn ymrwmo i:

- **lansio'r Strategaeth Cynhwysiant Anabledd FCDO well ac ymgorffori hawliau anabledd yn y Strategaeth Datblygu Rhyngwladol newydd yn 2021**
- **gwneud gwariant Cymorth Datblygu Swyddogol y DU - £10 biliwn ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022 - yn gynhwysol ar gyfer anabledd**
- **sefydlu Bwrdd Anabledd Allanol FCDO newydd, gyda'i gyfarfod cyntaf i'w gynnal erbyn mis Rhagfyr 2021 i lywio ein gwaith rhyngwladol ar hawliau anabledd a chynhwysiant**



Olrhain cynnydd

Rydym wedi nodi'r camau uniongyrchol y bydd adrannau'r llywodraeth yn eu cymryd i wella bywydau bob dydd pobl anabl.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud wrth roi'r strategaeth ar waith. Er mwyn sicrhau bod y camau uniongyrchol yr ydym wedi ymrwymo iddynt yn y strategaeth hon yn cael eu dwyn ymlaen mewn modd amserol, byddwn yn cyhoeddi'r cyntaf o'r adroddiadau blynyddol hyn erbyn haf 2022. Bydd yr adroddiad hwn yn:

- manylu ar y cynnydd a wnaed ar y camau adrannol a amlinellwyd
- asesu cynnydd o ran cyflawni'r 5 elfen ar draws y llywodraeth
- diweddariad ar y camau ychwanegol y byddwn yn eu cymryd ar droseddu, cyfranogiad cymdeithasol, a chynhyrchion a gwasanaethau hygrych

Rydym am i bobl anabl ledled y DU brofi'r un canlyniadau cadarnhaol â phobl nad ydynt yn anabl. Byddwn yn parhau i olrhain cynnydd mewn ystod o feysydd:

- **cyflogaeth** - roedd tua hanner y bobl anabl rhwng 16 a 64 oed yn y DU mewn cyflogaeth o gymharu ag oddeutu 8 o bob 10 ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl⁹⁷
- **addysg** - roedd gan 23% o bobl anabl rhwng 21 a 64 oed yn y DU radd fel eu cymhwyster uchaf o gymharu â 39% o bobl nad ydynt yn anabl⁹⁸
- **unigrwydd a lles** - mae cyfran y bobl anabl a nododd eu bod yn teimlo'n unig "yn aml neu bob amser" bron 4 gwaith yn fwy na phobl nad ydynt yn anabl⁹⁹
- **dioddefwyr troseddau** - profodd tuag 1 o bob 7 o bobl anabl rhwng 16 a 59 oed yng Nghymru a Lloegr gam-drin domestig yn ystod y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â thuag 1 o bob 20 o bobl nad ydynt yn anabl¹⁰⁰

Rydym yn cydnabod nad yw'r mesurau hyn, yr ydym yn adrodd arnynt yn rheolaidd trwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn adrodd y stori lawn. Nid yw'r mesurau hyn o reidrwydd yn adlewyrchu profiad beunyddiol pobl anabl, ac nid ydynt yn adlewyrchu profiad plant anabl a'u teuluoedd.

Am y rheswm hwnnw, byddwn hefyd yn cyd-ddatblygu dangosyddion newydd gyda phobl anabl i olrhain cynnydd wrth weithredu'r strategaeth hon. Gwir fesur llwyddiant y strategaeth hon fydd a yw pobl anabl yn teimlo bod eu bywydau wedi gwella.

97 Canlyniadau i bobl anabl, ONS UK: 2020

98 Canlyniadau i bobl anabl, ONS UK: 2020

99 Canlyniadau i bobl anabl, ONS UK: 2020

100 Canlyniadau i bobl anabl, ONS UK: 2020

Erbyn haf 2022, bydd yr Uned Anabledd yn cyhoeddi, ar ôl ymgysylltu â phobl anabl, set o ddangosyddion a dangosfwrdd i olrhain effaith y Strategaeth Genedlaethol ar Anabledd.

Mae Hyrwyddwyr Anabledd y Gweinidog wedi ymrwymo i ysgogi gweithredu ymrwymadau eu hadran yn y strategaeth yn bersonol.

Bydd y Gweinidog Pobl Anabl yn cadeirio cyfarfod chwarterol o'r Hyrwyddwyr Anabledd Gweinidogol i ysgogi cynnydd.





Rhan 3: Ymdrech drawslywodraethol i drawsffurfio bywydau bob dydd pobl anabl





Swyddfa'r Cabinet

“Yng nghanol y llywodraeth ac fel gwesteigr yr Uned Anabledd, bydd Swyddfa'r Cabinet yn cefnogi pobl anabl i chwarae rhan lawn mewn bywyd cyhoeddus trwy gael gwared â rhwystrau i gymryd rhan yn ein democratiaeth, penodiadau cyhoeddus a gweithio yn y Gwasanaeth Sifil. Rwy'n falch o fod yn rhan o'r tîm o Hyrwyddwyr Gweinidogol sy'n gyrru'r strategaeth hon yn ei blaen ar draws y llywodraeth.”

Julia Lopez AS

Hyrwyddwraig Weinidogol Anabledd i Swyddfa'r Cabinet

Mae Swyddfa'r Cabinet yn cefnogi'r Prif Weinidog ac yn sicrhau bod y llywodraeth yn cael ei rhedeg yn effeithiol. Mae hefyd yn bencadlys corfforaethol llywodraeth y DU.

Mae'r adran wedi ymrwymo i roi pobl anabl wrth galon llunio polisi'r llywodraeth a darparu gwasanaethau.

Fel canolfan y llywodraeth, bydd Swyddfa'r Cabinet yn ysgogi newid ar draws holl adrannau'r llywodraeth, gan ddwyn adrannau i gyfrif am y gweithredoedd yn y strategaeth hon ac annog adrannau i weithio gyda'i gilydd ar feysydd blaenoriaethol i bobl anabl. Bydd yr adran yn ysgogi gwell canlyniadau i bobl anabl ar draws ehangder llawn portffolio'r adran, o ddiwygio'r Gwasanaeth Sifil i anrhydeddau i bleidleisio.

Mae Swyddfa'r Cabinet yn ymrwymo i:

- gydnabod yn well gyfraniad eithriadol pobl anabl i'r DU trwy'r system anrhydeddau
- lansio gwefan a system ymgeisio newydd i drawsnewid sut y gall pobl anabl gyrchu penodiadau cyhoeddus, ochr yn ochr ag allgymorth cynyddol gyda rhwydweithiau anabledd
- datblygu egwyddor newydd bod cyrff hyd braich yn cynnig y gallu i gyfarwyddwyr-anweithredol anabl ar eu byrddau gyflawni eu dyletswyddau o bell, os dymunant
- sicrhau hygyrchedd enghreifftiol adeiladau'r llywodraeth, trwy waith Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth
- cyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i swyddogion canlyniadau ystyried anghenion pobl ag ystod eang o anableddau

- datblygu gwaith i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid wneud addasiadau rhesymol i rannau cyffredin cartrefi prydlesol a chartrefi cyffredin
- cynnal ymgyrch i helpu'r sector cyhoeddus i wneud cymwysiadau symudol yn hygyrch, a chodi ymwybyddiaeth o sut y gall pobl godi cwynion am wefannau anhygyrch
- ymgynghori ar adroddiadau'r gweithlu ar anabledd i gyflogwyr mawr, archwilio tryloywder gwirfoddol a gorfodol yn y gweithle, a chyhoeddi set o gamau nesaf
- arwain trwy esiampl, gan gymryd mesurau ychwanegol i wneud y Gwasanaeth Sifil yn lle gwyth i weithio i bobl anabl
- cynnwys addasiadau amserol i'r gweithle, cefnogaeth i rwydweithiau anabledd staff a pharhau i dyfu ein rhaglenni profiad gwaith a datblygu sydd wedi ennill sawl gwobr
- arwain rhaglen aml-flwyddyn i wella argaeledd, ansawdd, perthnasedd a chymaroldeb data anabledd y llywodraeth
- trosoli gwariant caffael y llywodraeth i ysgogi gwell canlyniadau i bobl anabl
- adolygu ein hymagwedd er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu yn y ffyrdd gorau a chyda grŵp digon amrywiol o bobl anabl
- archwilio sefydlu Canolfan Technoleg Gynorthwyol a Hygyrch sy'n arwain y byd
- ehangu'r rhaglen Llysgenhadon Anabledd a Mynediad
- asesu anghenion technoleg cynorthwyol a hygyrch pobl anabl yn Lloegr
- trwy'r Swyddfa Ganolog Digidol a Data, cyflwyno un cyfrif llywodraeth ar gyfer anghenion personol a busnes defnyddwyr, er budd llawer o bobl anabl
- gwella hygyrchedd cyfathrebiadau'r llywodraeth
- gweithio ar draws y llywodraeth i ysgogi gweithredu ychwanegol ar droseddu, cynhyrchion a gwasanaethau hygyrch a chyfranogiad cymdeithasol
- trwy Lleoedd ar gyfer Twf, helpu i greu gweithlu cwbl gynhwysol ac amrywiol ar gyfer y tymor hir, nid y tymor byr, a datblygu cyfleoedd talent ar draws Rhanbarthau a Chenhedloedd y DU



Yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

“ Mae cyhoeddi'r strategaeth hon yn amlygu'n gryf yr angen i roi anabledd wrth wraidd ein proses o lunio polisi. Rwyf wedi ymrwymo i fachu ar y cyfle hwn gyda'r ddwy law, fel y gall fy adran, gan weithio gyda gweddill y llywodraeth, sicrhau newid priodol, ystyrlon i fywydau pobl anabl.”

Amanda Solloway AS
Hyrwyddwraig Weinidogol Anabledd i'r Adran Busnes,
Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn adeiladu dyfodol cryfach a gwyrddach trwy ymladd coronafeirws, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, rhyddhau arloesedd a gwneud y DU yn lle gwych i weithio a gwneud busnes.

Mae'r adran wedi ymrwymo i wneud y DU yn lle gwych i bobl anabl weithio a gwneud busnes.

Bydd yr adran yn cyflwyno hawliau newydd i bobl anabl a gofalwyr yn y gweithle, yn ogystal ag archwilio'r achos dros gefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer entrepreneuriaid anabl.

Mae BEIS yn ymrwymo i:

- herio UKRI a rhanddeiliaid ymchwil eraill i ddefnyddio heriau arloesi yn y dyfodol i gyflymu arloesedd mewn technolegau cynorthwyl
- archwilio pa gymorth ychwanegol wedi'i dargedu a ddylai fod ar gael i bobl anabl sydd am ddechrau busnes
- lansio ymgynghoriad ar wneud gweithio hyblyg yn ddiofyn, oni bai bod gan gyflogwyr reswm da dros beidio
- datblygu ymrwymiad y llywodraeth i gyflwyno absenoldeb di-dâl ar gyfer gofalwyr
- sefydlu hyb cyngor newydd ar hawliau cyflogaeth i bobl anabl, ar y cyd ag Acas



Yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

“Rwy’n falch iawn o fod yn Hyrwyddwraig Anabledd Gweinidogol DCMS. Fel adran sy'n cyffwrdd â bywydau pawb, mae gan DCMS ddigon o gyfle i gyfrannu'n gadarnhaol at yr agenda anabledd. Yn ogystal â'r adran, rwy'n ymroddedig i'r ymrwymadau rydym wedi'u cynnwys yn y strategaeth a byddaf yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau canlyniadau sy'n newid bywyd i'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.”

Y Farwnes Barran

Hyrwyddwraig Weinidogol Anabledd i'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon

Mae'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn helpu i ysgogi twf, cyfoethogi bywydau a hyrwyddo Prydain dramor.

Mae'r adran wedi ymrwymo i gyfoethogi bywydau pobl anabl, mynd i'r afael ag unigrwydd a gwneud y DU y gyrchfan fwyaf hygyrch i dwristiaid yn Ewrop erbyn 2025.

Bydd DCMS yn gweithredu i gau'r bwlch cyfranogi rhwng pobl anabl a phobl nad-ydynt yn anabl mewn chwaraeon, y celfyddydau a diwylliant. Bydd hefyd yn ystyried opsiynau i fynd i'r afael â hygyrchedd gwael parhaus gwefannau'r sector preifat.

Mae DCMS yn ymrwymo i:

- gyflwyno cerdyn newydd ar gyfer mynediad am ddim i'r celfyddydau i'w gwneud hi'n haws i bobl anabl fwynhau'r lleoliadau celfyddydau a diwylliannol ledled y DU
- gwneud y DU y gyrchfan dwristiaeth fwyaf hygyrch yn Ewrop
- gweithio gyda Sport England i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n wynebu pobl anabl mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol
- archwilio sut i wella hygyrchedd gwefannau'r sector preifat



Yr Adran Addysg

“Rwy'n gwbl ymrwymedig i gefnogi plant anabl i gyrraedd eu potensial llawn ac i fyw bywyd hapus a chyflawn fel oedolyn. Mae addysg yn chwarae rhan allweddol wrth wneud hyn yn realiti. Rwyf wedi gweld llawer o enghreifftiau o leoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yn gwneud gwaith gwyh, gan sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg iawn. Ond rwy'n gwybod nad yw hyn ar gael i bawb eto, a bydd yr adolygiad sydd i ddod o'r system Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd yn allweddol i sicrhau gwell canlyniadau i blant anabl.”

Vicky Ford AS

Hyrwyddwraig Weinidogol Anabledd i'r Adran dros Addysg

Mae'r Adran Addysg (DfE) yn gyfrifol am wasanaethau ac addysg plant, gan gynnwys blynyddoedd cynnar, ysgolion, polisi addysg uwch ac addysg bellach, prentisiaethau a sgiliau ehangach yn Lloegr.

Mae'r adran am i bob plentyn ac unigolyn ifanc dderbyn addysg sy'n eu gwrthio a'u cynorthwyo i gyrraedd eu potensial llawn. Dylai addysg dda fod yn borth i swydd dda a gall gwaith da gefnogi iechyd da, annibyniaeth a chyfranogi mewn cymdeithas.

Bydd yr adran yn gweithredu i wella canlyniadau i blant ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (AAAA), y mae rhai ohonynt yn blant anabl. Bydd hefyd yn edrych y tu hwnt i'w hamser ym myd addysg, ac yn gweithredu i wella trawsnewidiadau i fod yn oedolion.

Mae DfE yn ymrwymo i:

- gwblhau adolygiad eang o gamau i wella canlyniadau i blant ag AAAA
- cynyddu o £730 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2021–22 yr arian refeniw anghenion uchel ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag AAAA mwy cymhleth
- buddsoddi £300 miliwn arall i wella mynediad i'r ddarpariaeth bresennol mewn ysgolion a gwneud addasiadau hygyrchedd i blant a phobl ifanc ag AAAA ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022
- ymestyn datblygiad proffesiynol parhaus ar sut i gynorthwyo disgyblion a myfyrwyr ag AAAA i athrawon a staff eraill ac ariannu hyfforddiant rhagor o seicolegwyr addysgol i ddarparu cyngor arbenigol

- buddsoddi £8.6 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2021 i 2022 i gryfhau cyfranogiad rhieni a phobl ifanc yn y system AAAA, gan sicrhau bod ganddynt lais a bod ganddynt fynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd uchel.
- ysgogi gwelliannau i'r rhaglen interniaethau â chymorth
- cynyddu nifer y bobl anabl sy'n mynd i brentisiaethau a sicrhau bod y rhai sy'n cychwyn prentisiaeth yn mynd ymlaen i ffynnu



Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

“ Mae'n bwysig bod y buddion i'n lles corfforol a meddyliol o ymgysylltu â natur ar gael i bob un ohonom. Mae mynediad i fannau glas yn darparu buddion llesiant uwch fyth na mynediad at natur yn gyffredinol. Rydym wedi ymrwymo i wneud Llwybr Arfordir Lloegr mor hygyrch â phosibl i ddefnyddwyr anabl, fel y gall rhagor o bobl brofi tirwedd a bywyd gwyllt arfordir hardd Lloegr.”

Victoria Prentis AS

**Hyrwyddwraig Weinidogol Anabledd i'r Adran dros Amgylchedd,
bwyd a Materion Gwledig**

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn gyfrifol am ddiogelu amgylchedd naturiol y DU, cefnogi ein diwydiant bwyd a ffermio sy'n arwain y byd a chynnal economi wledig ffyniannus.

Mae'r adran wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl anabl yn profi buddion mynediad rheolaidd i natur.

Bydd yr adran yn gweithredu i gael gwared ar rwystrau corfforol rhag cyrchu'r amgylchedd naturiol.

Mae Defra yn ymrwymo i:

- wella mynediad i lwybrau a thrywyddau cenedlaethol yn Lloegr
- sicrhau buddsoddiad o £5.77 miliwn mewn rhagnodi cymdeithasol gwyrdd, a fydd o fudd i bobl anabl
- gweithredu'r Cynllun Amgylchedd 25 Mlynedd, gan sicrhau bod natur yn hygyrch i bawb



Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

“ Byddaf yn parhau i hyrwyddo cynwysoldeb wrth lunio polisiâu ar draws yr adran hon ac yn croesawu cyfle'r strategaeth drawslywodraeth hon i ysgogi newid a gwella bywydau pobl anabl. Mae gwella canlyniadau iechyd a gofal i bobl anabl yn flaenoriaeth i'r DHSC, y GIG a gofal cymdeithasol oedolion ac mae'n torri ar draws popeth a wnawn.”

Helen Whately AS

Hyrwyddwraig Weinidogol i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn cefnogi gweinidogion i arwain system iechyd a gofal cymdeithasol y genedl i helpu pobl i fyw bywydau mwy annibynnol, iachach am gyfnod hirach.

Mae'r adran wedi ymrwymo i wella canlyniadau iechyd a gofal pobl anabl.

Ochr yn ochr â chynlluniau i drawsnewid gofal cymdeithasol oedolion a moderneiddio'r Ddeddf Iechyd Meddwl, bydd yr adran yn cymryd camau ychwanegol i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwelliannau tymor hir ac i addysgu staff rheng flaen.

Mae Strategaeth Awtistiaeth ddiwygiedig DHSC yn anelu at wella bywydau pobl anabl a'u teuluoedd a'u gofawyr yn Lloegr. Mae'n adeiladu ar ac yn disodli'r strategaeth awtistiaeth oedolion flaenorol 'Think Autism', a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2014. Mae'n ymestyn cwmpas y strategaeth i blant a phobl ifanc am y tro cyntaf.

Mae DHSC yn ymrwymo i:

- roi pobl anabl ar y blaen ac yn y canol wrth ddiwygio gofal cymdeithasol
- cryfhau'r gronfa ddata a thystiolaeth i gefnogi polisiâu a fydd yn trawsnewid canlyniadau i bobl anabl
- mynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethu y mae pobl anabl yn eu hwynebu bob dydd i wella ansawdd bywyd a lleihau anghydraddoldebau
- sicrhau bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn deall anabledd dysgu ac awtistiaeth i leihau anghydraddoldebau iechyd



Yr Adran Drafnidiaeth

“ Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod ein rhwydwaith trafnidiaeth yn hygyrch i bawb wrth i ni Adeiladu'n Ôl yn Well o COVID-19. Mae'r Strategaeth Genedlaethol Anabledd hon, ochr yn ochr â'n Strategaeth Drafnidiaeth Gynhwysol, Gear Change, Bus Back Better, a'n hymrwymiaid diwygio rheilffyrdd, yn nodi sut y byddwn yn darparu rhwydwaith trafnidiaeth hygyrch sy'n sail i uchelgais y llywodraeth hon i adeiladu cymdeithas sy'n gweithio i bawb.”

Chris Heaton-Harris AS

Hyrwyddwr Anabledd Gweinidogol yr Adran Drafnidiaeth

Mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) yn gweithio gydag asiantaethau a phartneriaid i gefnogi'r rhwydwaith trafnidiaeth sy'n helpu busnesau'r DU ac yn cael pobl a nwyddau i deithio o amgylch y wlad. Mae'r adran yn cynllunio ac yn buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth i gadw'r DU i symud.

Mae'r adran yn benderfynol o gyflawni system drafnidiaeth hygyrch i bawb.

Bydd yr adran yn gweithredu i'w gwneud hi'n haws ac yn fwy dymunol i bobl anabl ddefnyddio cludiant cyhoeddus fel trenau a bysiau ac i deithio ar y ffordd, naill ai'n breifat neu drwy dacsis a cherbydau llogi preifat.

Mae DfT yn ymrwymo i:

- alluogi pobl anabl i deithio'n hyderus trwy fynd i'r afael â hyfforddiant staff, gwybodaeth ac agweddau ac ymddygiadau eraill
- gwella hygyrchedd a diogelwch y rhwydwaith reilffyrdd
- gwella hygyrchedd bysiau, gorsafoedd bysiau ac arosfannau bysiau
- mynd i'r afael â phrinder gyrwyr trafnidiaeth gymunedol
- gwella hygyrchedd tacsis a cherbydau llogi preifat
- gwneud porthladdoedd 'achubiaeth' yn fwy hygyrch
- creu safonau hygyrchedd newydd ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan



Adran Gwaith a Phensiynau

“Rwy'n teimlo'n freintiedig fy mod wedi gallu cyfrannu fel Gweinidog Pobl Anabl at wella bywydau a chyfleoedd i bobl anabl. Mae wedi bod nid yn unig fy swydd ond fy angerdd ers nifer o flynyddoedd. Mae llawer wedi'i gyflawni, ond mae cymaint mwy i'w wneud o hyd. Bydd y Strategaeth Genedlaethol Anabledd, ynghyd â'r Papur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd a chamau gweithredu eraill y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn eu cymryd, yn darparu llwyfan gwyb i wella pethau i bobl anabl ledled y DU.”

Justin Tomlinson AS

Gweinidog dros Bobl Anabl a Hyrwyddwr Gweinidogol Anabledd i'r Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn gyfrifol am bolisi lles, pensiynau a chynhaliadaeth plant. Fel adran gwasanaeth cyhoeddus fwyaf y DU, mae'n gweinyddu Pensiwn y Wladwriaeth ac ystod o fudd-daliadau oedran gweithio, anabledd ac afiechyd i oddeutu 20 miliwn o hawlwr a chwsmeriaid.

Mae'r adran wedi ymrwmo i alluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol a symud i mewn i waith lle mae hyn yn bosibl.

Ochr yn ochr â'r strategaeth, cyhoeddodd DWP ei Bapur Gwyrdd Iechyd ac Anabledd *Llunio Cymorth yn y Dyfodol*. Mae hyn yn nodi uchelgais yr adran i gynorthwyo a grymuso pobl anabl i gyflawni eu potensial llawn.

Mae'r adran hefyd yn cyhoeddi'r ymateb i'r ymgynghoriad busnes Pawb yw Iechyd. Mae'r ymateb yn sicrhau bod gwell cefnogaeth yn cael ei darparu i bobl mewn gwaith.

Bydd DWP yn gweithredu i gael gwared â'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu yn y gwaith ac yn nodi cynigion i wella mynediad at gymorth i bobl anabl na allant weithio.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymrwmo i:

- nodi cynigion i wella'r profiad o gyrchu budd-daliadau anabledd
- treialu Pasbort Mynediad at Waith i helpu pobl anabl i symud ymlaen trwy addysg a symud i gyflogaeth
- sicrhau bod pasbort ar gael i bob myfyriwr ifanc anabl, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (DSA), pan fyddant yn gadael y brifysgol

- annog cyflogwyr i logi pobl anabl ac i greu gweithleoedd cynhwysol trwy adolygu Hyderus o ran Anabledd, cryfhau'r Fframwaith Adrodd Gwirfoddol, a lledaenu arfer gorau i gyflogwyr
- ehangu treialon ar gyfer gwasanaethau cyflogaeth â chymorth



Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu

“ Mae hawliau anabledd a chynhwysiant yn golygu byd lle mae pawb ag anableddau yn ymgysylltu, wedi'u grymuso ac yn gallu ymarfer a mwynhau eu hawliau ar sail gyfartal ag eraill. Gydag amcangyfrif o 1 biliwn o bobl ag anableddau ledled y byd, tua 15% o'r boblogaeth, mae'n fater na ddylid ei anwybyddu. Rwy'n falch o etifeddiaeth y DU o arweinyddiaeth fyd-eang ac ymrwymiad parhaus fy adran i ymgorffori hawliau anabledd trwy gydol ein hymatebion rhyngwladol, gan gynnwys COVID-19 a newid yn yr hinsawdd.”

Wendy Morton AS

**Hyrwyddwraig Weinidogol Anabledd i'r Swyddfa Dramor,
y Gymanwlad a Datblygu**

Mae'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn dilyn buddiannau cenedlaethol y DU ac yn portreadu'r DU fel grym er daioni yn y byd. Mae'r adran yn hyrwyddo buddiannau dinasyddion Prydain, yn diogelu diogelwch y DU, yn amddiffyn gwerthoedd y DU, yn lleihau tlodi ac yn mynd i'r afael â heriau byd-eang gyda'n partneriaid rhyngwladol.

Mae'r DU wedi chwarae rhan hanfodol wrth godi proffil anabledd yn rhyngwladol. Bydd FCDO yn parhau â'r rôl arweinyddiaeth fyd-eang hon.

Mae FCDO yn ymrwymo i:

- lansio'r Strategaeth Cynhwysiant Anabledd FCDO well ac ymgorffori hawliau anabledd yn y Strategaeth Datblygu Rhyngwladol newydd yn 2021
- gwneud gwariant Cymorth Datblygu Swyddogol y D - £10 biliwn yn 2021 i 2022 - yn gynhwysol ar gyfer anabledd
- sefydlu Bwrdd Anabledd Allanol FCDO newydd, y cyfarfod cyntaf i'w gynnal erbyn mis Rhagfyr 2021
- creu rhagor o gyfleoedd i bobl anabl wasanaethu yn MI6 a GCHQ



Y Swyddfa Gartref

“Rwyf mor falch o fod yn hyrwyddo gwaith y Strategaeth Anabledd Genedlaethol yn y Swyddfa Gartref. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i hyrwyddo polisïau sy'n cefnogi ein gweithwyr anabl, ein cwsmeriaid a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.”

Victoria Atkins AS

Hyrwyddwraig Anabledd Gweinidogol y Swyddfa Gartref

Dyletswydd gyntaf y llywodraeth yw cadw dinasyddion yn ddiogel a'r wlad yn ddiogel. O'r herwydd, mae'r Swyddfa Gartref yn chwarae rhan sylfaenol yn niogelwch a ffyniant economaidd y Deyrnas Unedig.

Mae gan yr adran ran hanfodol i'w chwarae wrth gadw dinasyddion anabl yn ddiogel.

Bydd yr adran yn parhau i fynd i'r afael â throseddau casineb tuag at bobl anabl, yn ogystal â mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau hygyrchedd fel rhan o ymdrech drawslywodraethol gydag adrannau eraill.

Mae'r Swyddfa Gartref yn ymrwymo i:

- ddatblygu strategaeth drawslywodraethol newydd i fynd i'r afael â'r troseddu a'r anhrefn sy'n tanseilio ansawdd bywyd pawb, gan gynnwys mynd i'r afael â throseddau casineb tuag at bobl anabl
- ymgysylltu â phobl anabl a rhanddeiliaid anabledd wrth ddatblygu'r strategaeth troseddau casineb newydd
- mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau hygyrchedd
- creu rhagor o gyfleoedd i bobl anabl wasanaethu yn MI5



Y Weinyddiaeth Amddiffyn

“ Mae'n hanfodol i'n cenhadaeth ein bod yn cynyddu amrywiaeth a gallu'r gweithlu ledled y sector Amddiffyn. Mae'r Strategaeth Genedlaethol Anabledd yn gyfraniad pwysig at y nod hwn, gan lefelu cyfleoedd i bobl ag anableddau gymryd rhan lawn ym mywyd y wlad hon, gan gynnwys ei hamddiffyniad. Dyma pam mae ffocws ar gynyddu nifer y cyfleoedd i'r rhai sydd wedi'u dosbarthu'n anabl ymuno ag Amddiffyn. Dyma hefyd pam y byddwn yn parhau i sicrhau y gall mwy o bobl sy'n dod yn anabl trwy hynt eu gwasanaeth barhau i wasanaethu. Ac i'r rhai na allant, byddwn yn sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth gorau fel cyn-filwyr, gan gydnabod a meithrin eu doniau a'u cyfraniad parhaus i'n bywyd cenedlaethol.”

Leo Docherty AS

Hyrwyddwr Gweinidogol Anabledd i'r Weinyddiaeth Amddiffyn

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) yn gweithio i amddiffyn ein pobl, tiriogaethau, gwerthoedd a diddordebau gartref a thramor. Trwy luoedd arfog cryf, ac mewn partneriaeth â chynghreiriaid, mae'n sicrhau ein diogelwch, yn cefnogi ein buddiannau cenedlaethol ac yn diogelu ein ffyniant.

Bydd yr adran yn esiampl o gynhwysiant, a bydd yn creu rhagor o gyfleoedd i bobl anabl yn y lluoedd arfog ac mewn rolau sifil.

Bydd yr adran yn gweithredu ar draws pob rhan o'r gweithlu amddiffyn - o'r lluoedd arfog, i sifiliaid, i luoedd arfog y dyfodol fel y Llu Seiber Cenedlaethol - i wella cyfleoedd i bobl anabl wasanaethu.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn ymrwymo i:

- gyhoeddi cynllun i ddod â rhagor o bobl anabl i'r gweithlu sifil
- archwilio sut i gynyddu cyfleoedd i bobl anabl ymuno ag Amddiffyn
- cyflwyno Rhaglen Recriwtio'r Lluoedd Arfog i recriwtio personél milwrol mwy amrywiol
- defnyddio'r Llu Seiber Cenedlaethol fel dull braenaru ar gyfer cynwysoldeb
- rhannu arfer gorau a mewnwlediad gan gymuned chwaraeon addasol y cyn-filwyr â sefydliadau anabledd a darparwyr chwaraeon a gweithgareddau



Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

“ Fel bargyfreithiwr, barnwr cylchdaith rhan-amser ac yn awr fel Arglwydd Ganghellor, rwyf wedi gweld pobl â chyflyrau fel awtistiaeth a dyslecsia yn brwydro trwy eu gwrthdaro â'r gyfraith yn rhy aml. Efallai eu bod yn mynd ar goll yn yr iaith gyfreithiol gymhleth neu'n syrthio'n groes iddi dim ond oherwydd ei bod yn anoddach gwneud synnwyr o bethau. Dyna pam y lansiais 'Galwad am Dystiolaeth' i ddeall y materion a brofir gan y garfan hon yn well, fel cam cyntaf pwysig i ysgogi gwelliannau pwysig yn y modd y mae ein system cyfiawnder troseddol yn ymateb i niwroamrywiaeth.”

Robert Buckland AS

Hyrwyddwr Anabledd Gweinidogol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yn gweithio i amddiffyn a hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Ei weledigaeth yw darparu system gyfiawnder o'r radd flaenaf sy'n gweithio i bawb mewn cymdeithas.

Mae'r adran wedi ymrwmo i wella cymorth i bobl anabl os dânt i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Bydd yr adran yn gweithredu i wella hygyrchedd y llysoedd, gwella cefnogaeth i droseddwyr niwrodroseddol, a gwella hawliau dioddefwyr troseddau anabl.

Mae MoJ, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn ymrwmo i:

- ddenu rhagor o bobl anabl i fod yn ynadon
- nodi hawliau gwell i ddioddefwyr anabl
- datblygu deddfwriaeth yn 2021 fel rhan o Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd i ddiwygio cyfraith gwlad fel y gall pobl fyddar sydd ag angen dehonglydd iaith Arwyddion Prydain (BSL) wneud gwasanaeth rheithgor
- datblygu pecyn cymorth hyfforddi niwroamrywiaeth ar gyfer staff rheng flaen
- gwella'r ddarpariaeth ar gyfer defnyddwyr anabl, gan gynnwys trwy hygyrchedd yr ystâd a'r defnydd o gymorth digidol



Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

“Fel Hyrwyddwr Gweinidogol byddaf yn gyrru ymrwymadau fy adran ymlaen i greu cartrefi, strydoedd, trefi a chymunedau mwy hygrych. Rwy'n arbennig o falch bod cyllid y llywodraeth ers 2015 ar gyfer y Grant Cyfleusterau i'r Anabl wedi mwy na dyblu i £573 miliwn yn 2021 i 2022, gan ddarparu mwy na 450,000 o addasiadau. Gobeithio y bydd canllawiau newydd ar gyflwyno'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn arwain at fwy fyth o addasiadau yn y dyfodol.”

Eddie Hughes AS

**Hyrwyddwr Gweinidogol Anabledd i'r Weinyddiaeth Tai,
Cymunedau a Llywodraeth Leol**

Gwaith y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) yw creu lleoedd gwych i fyw a gweithio, ac i roi mwy o bŵer i bobl leol lunio beth sy'n digwydd yn eu hardal.

Mae'r adran wedi ymrwymo i ysgogi gwelliannau fel bod pobl anabl yn profi lleoedd gwych i fyw a gweithio bob dydd.

Bydd yr adran yn gweithredu ar draws tai a chynllunio i greu cartrefi a chymunedau mwy hygrych.

Mae MHCLG yn ymrwymo i:

- hybu cyflenwad tai Lloegr ar gyfer pobl anabl trwy nodi cynlluniau i gynyddu hygrychedd cartrefi newydd, opsiynau ar gyfer tai â chymorth a pherchentyaeth
- sicrhau diogelwch pobl anabl mewn adeiladau, pan fydd argyfyngau
- ystyried sut y gallwn gefnogi prosiectau a fydd yn cynyddu hygrychedd y stryd fawr i bobl anabl, trwy ddylunio unrhyw gyllid twf lleol yn y dyfodol
- cyflymu rôl toiledau Changing Places arbenigol ledled y wlad
- annog awdurdodau lleol i adeiladu ac adnewyddu meysydd chwarae mwy cynhwysol ar gyfer plant anabl

Atodiad A: Diolch

Hoffem gydnabod a diolch i'r nifer enfawr o sefydliadau ac unigolion sydd wedi rhoi barn a phrofiad byw inni wrth ddatblygu'r strategaeth hon.

Mae hyn yn cynnwys dros 16,500 o bobl anabl, rhieni a gofalwyr a gwblhaodd Arolwg Anabledd y DU, yr 11 cyfranogwr yn ein hymchwil profiad byw, a'r cannoedd o sefydliadau a phobl anabl sydd wedi siarad â ni fel rhan o'n fforymau rhanddeiliaid rheolaidd, trafodaethau bord gron a gweithdai.

Y llywodraeth yn unig sy'n gyfrifol am gynnwys y strategaeth hon, ond rydym am ddiolch i'r sefydliadau isod sydd wedi rhannu eu hamser a'u mewnwelediadau mor hael.

Ability Net

Activity Alliance

Andrew Miller MBE, Llysgennad Anabledd a Mynediad yn y Celfyddydau a Diwylliant yn flaenorol

Andrew Roach Talent Ltd.

Asif Iqbal MBE, Deaf Parenting UK

ATLAS

Autistica

Barclays

Canolfan Cyfiawnder Cymdeithasol

Care and Repair England

Claire Dove CBE, Cynrychiolydd y Goron VCSE

Coleg Brenhinol Therapi Lleferydd ac Iaith

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Consortium Tai Gogledd Lloegr

Contact [Cyswllt]

Cronfa Teulu

Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion

Cymdeithas Frenhinol Pobl Fyddar (RAD)

Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW)

Cymdeithas MS

Disabled Motoring UK

Dominic Abrams, Prifysgol Caint

Dr Heather Smith, Llysgennad Anabledd a Mynediad dros Gefn Gwlad a Threftadaeth

Education Endowment Fund [Cronfa Gwaddol Addysg]

Getting Things Changed Project, Prifysgol Bryste
Good Things Foundation
Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol
Johnny Timpson, Llysgennad Anabledd a Mynediad yn flaenorol i'r
Diwydiant Yswiriant
Leonard Cheshire
Mark Priestley, Prifysgol Leeds
Mencap
Microsoft
Mike Adams OBE, Purple
NATSPEC
Netflix
Newbold Hope
Onward
Partneriaeth Plant Anabl
Policy Connect
Prifysgol Metropolitan Manceinion
Respond
Rhwydwaith Cenedlaethol Fforymau Gofalwyr Rhieni
Rhwydwaith Cenedlaethol y Fforymau Gofalwyr Rhieni (NNPCF)
Rhwydwaith Cydweithio â Rhieni
RNID
RSN De-ddwyrain Lloegr
RSN De-orllewin Lloegr
RSN Dwyrain Canolbarth Lloegr
RSN Dwyrain Lloegr
RSN Gogledd-ddwyrain Lloegr
RSN Gogledd-orllewin Lloegr
RSN Gorllewin Canolbarth Lloegr
RSN Llundain Fwyaf
RSN Swydd Efrog a'r Humber
Sainsbury's
Scope
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)
Senedd Myfyrwyr NATSPEC
Sense
Shared Lives Plus
Sport England
Start Change
Stephen Brookes MBE, Llysgennad Anabledd a Mynediad yn flaenorol
i'r Diwydiant Rheilffyrdd
Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR)
Swyddog Adsefydlu ar gyfer Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw

TechUK
Tina Emery a Mrunal Sisodia OBE
Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant
UCL
UK Sport
UNLtd
Versus Arthritis
VODG (Grŵp Anabledd Sefydliadau Gwirfoddol)
Whiz Kidz
Y Cwmni Gyrfaedd a Menter
Y Gymdeithas Brydeinig dros Gyflogaeth â Chymorth
Y Gymdeithas Facwlaidd
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS)
Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington
Ymgyrch i Ddiweddu Unigrwydd
Yr Athro Brian Lamb, Prifysgol Derby
Yr Athro Helen Lawton Smith, Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI)
Yr Athro Kim Hoque, Ysgol Fusnes Warwick
Yr Athro Melanie Jones, Ysgol Fusnes Caerdydd
Yr Athro Nicolas Bacon, Prifysgol Llundain
Ysgol Hylendid a Meddygaeth Drofannol Llundain



